
# Llwybrau Dysgu 14-19
# Canllawiau II

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Rhif y Cylchlythyr: **17/2006**

Dyddiad Cyhoeddi: **Ebrill 2006**

**Cylchlythyr Cyfarwyddyd**

**Cymorth i Bobl Ifanc**




Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Teitl y Ddogfen:** Llwybrau Dysgu 14-19 Canllawiau II

**Cynulleidfa:** Canllawiau Prifathrawon, rheolwyr cwricwlwm a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau addysg lleol; awdurdodau esgobaethol; rhwydweithiau 14-19; sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch; cymdeithasau athrawon a chymdeithasau ac undebau eraill; sefydliadau hyfforddi athrawon; cyrff dyfarnu; darparwyr hyfforddiant; cyrff cyflogwyr; cyflogwyr; cyrff gwirfoddol; a'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth 14-19.

**Golwg Gyffredinol:** Nod y canllawiau hyn yw nodi sut y bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn gweithio'n ymarferol er budd pobl ifanc, yr economi a chymunedau yng Nghymru. Maen't yn adeiladu ac ehangu ar yr argraffiad cyntaf (Gorffennaf 2004).

**Camau i'w cymryd:** Dyma'r sail ar gyfer gweithredu'r Llwybrau Dysgu 14-19.

**Gwybodaeth bellach:** Dylid cyfeirio ymholiadau am y canllawiau hyn at:
Cath Ward
Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5854
Ffacs: 029 2080 1051

**Copïau ychwanegol:** Mae'r canllawiau hyn ar gael ar y rhyngrwyd yn www.cymru.gov.uk a gellir eu copïo oddi yno.Yn ogystal, o fis Ebrill 2006 ymlaen, bydd copïau ar gael ar ffurf dalennau rhydd oddi wrth Cath Ward, gan ddefnyddio'r manylion cysylltu uchod.

**Dogfennau cysylltiedig:**

Cymru: Gwlad Well. 2003

Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi. 2001

Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu.

Dogfen Ymgynghori. 2002

Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19. Cynllun Gweithredu. 2003

Llwybrau Dysgu 14 -19 yng Nghymru – Adroddiad Y Dirpwy

Weinidog 2005

Cymru: Economi yn Ffynnu 2006

Cymru Y Wlad Sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid.

*Ceir rhestr lawn o ddogfennau a strategaethau perthnasol yn Atodiad F*

Gwnaed y gwaith celf ar y clawr blaen gan Natasha Thaladi o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd, fel rhan o'i gwaith cwrs ar gyfer TGAU Celfyddyd yn 2004.

G/633/05-06
ISBN 0 7504 3468 6

Ebrill
CMK-22-07-108

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2006

# Cynnwys



Cynhyrchwyd y gwaith celf gan David Knapton o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd, fel rhan o'i waith cwrs TGAU

*LLWYBRAU DYSGU 14-19*

# CANLLAWIAU

## Cynnwys — Tudalen

| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | **iii** |
| **Crynodeb Gweithredol** | **v** |
| | **Adran** |
| **Adran 1: Llwybrau Dysgu** | **1.0** |
| ELFEN ALLWEDDOL 1: Llwybr Dysgu Unigol | 1.1 |
| ELFEN ALLWEDDOL 2: Rhagor o Ddewis a Hyblygrwydd | 1.2 |
| ELFEN ALLWEDDOL 3: Y Craidd Dysgu | 1.3 |
| - Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith | 1.4 |
| - Cyfranogiad Cymunedol | 1.5 |
| **Adran 2: Cymorth i Ddysgwyr** | **2.0** |
| ELFEN ALLWEDDOL 4: Cymorth Anogwr Dysgu | 2.1 |
| ELFEN ALLWEDDOL 5: Mynediad at Gymorth Personol | 2.2 |
| ELFEN ALLWEDDOL 6: Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd am Yrfaoedd | 2.3 |
| **Adran 3: Sut y Gweithredir y Chwe Elfen Allweddol** | **3.0** |
| Rhwydweithiau 14-19 | 3.1 |
| Ariannu Llwybrau Dysgu 14-19 | 3.2 |
| **Adran 4: Atodiadau** | **4.0** |
| Atodiad A — Aelodaeth y grwpiau 14-19 2003-04 | 4.1 |
| Atodiad B — Sgiliau: diffiniadau | 4.2 |
| Atodiad C — Grid cynllunio ar gyfer Llwybrau Dysgu cytbwys | 4.3 |
| Atodiad D — Disgrifiad swydd posibl ar gyfer Anogwr Dysgu | 4.4 |
| Atodiad E — Swyddogaeth y Rhwydweithiau 14-19 | 4.5 |
| Atodiad F — Dogfennau a strategaethau cysylltiedig | 4.6 |
| Atodiad G — Paru'r craidd dysgu yng Nghyfnod Allweddol 4 | 4.7 |
| Atodiad H — Datblygiadau i gefnogi'r Craidd Dysgu | 4.8 |

*DIWEDDARWYD FIS EBRILL 2006*

| | | |
|---|---|---|
| Atodiad I | Llwybrau Dysgu 14-16 a Datblygiadau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru | 4.9 |
| Atodiad J | Datblygu swydd yr anogwr dysgu yn unol â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru | 4.10 |
| Atodiad K | Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru | 4.11 |
| Atodiad L | Symud i system bwyntiau | 4.12 |

**Adran 5: Cynllun Gweithredu** **5.0**

Llwybrau Dysgu 14-19: Cynllun Gweithredu'r Gweinidog 2006-10 5.0

Eich Nodiadau

* Ers 1 Ebrill 2006 mae ACCAC ac ELWa yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru

# RHAGAIR Y GWEINIDOG



Mae'n bleser gen i gyflwyno ail rifyn y Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'n gwella ac yn ehangu'r sylfaen gadarn ar sail profiad ac arbenigedd pob sector yng Nghymru a nodir yn y rhifyn cyntaf (Gorffennaf 2004). Mae'n dangos y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud ers ein hymrwymiad yn *Y Wlad sy'n Dysgu (2001*) i drawsnewid y ddarpariaeth 14-19. Bydd y Cynllun Gweithredu (Mawrth 2006), yn sgil cyhoeddi adroddiad y Dirprwy Weinidog ar y Llwybrau Dysgu 14-19 (Tachwedd 2005), yn llywio cyfeiriad a rhediad datblygiadau yn y cyfnod nesaf.

Ein nod o hyd yw bod:

*"95 y cant o bobl ifanc, erbyn eu bod yn 25 oed, yn barod ar gyfer gwaith sgiliau uchel neu addysg uwch erbyn 2015."*

Bydd Llwybrau Dysgu yn trawsnewid dewisiadau a chyfleoedd pobl ifanc. Gwnânt hynny trwy roi mwy o ddewis a hyblygrwydd; trwy sicrhau llwybrau dysgu unigol a fydd yn diwallu anghenion y dysgwyr a thrwy roi cyfleoedd a phrofiadau cyfoethocach a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ehangach y bydd arnynt eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith.

Bydd y gefnogaeth unigryw a ddarperir yn sicrhau bod pawb sy'n dysgu yn cael y cyngor a'r arweiniad y mae arnynt eu hangen i wneud dewisiadau da ac i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu.

Er mwyn trawsnewid y ddarpariaeth 14-19 i bob dysgwr mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng datblygiadau cenedlaethol a lleol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid lleol, gan fanteisio ar eu gwybodaeth a'u profiad wrth gefnogi polisi cenedlaethol. I wneud hyn mae angen i Rwydweithiau 14-19 ym mhob ardal awdurdod lleol ddatblygu dull gwirioneddol gydweithredol a strategol o weithredu Llwybrau Dysgu.

Mae'n gyfnod pwysig o ran datblygu'r agenda Llwybrau Dysgu. Yn amodol ar gylchoedd cynllunio'r gyllideb llwyddiannus, bydd cyllid ychwanegol sylweddol ar gael ar gyfer y rhaglen, a fydd yn codi i £8.5 miliwn yn 2006-7 a £32.5 miliwn yn 2007-8. Mae cyllid pellach ar gael ar gyfer meithrin gallu ôl-16 drwy ddau brosiect sy'n cael cyllid Ewropeaidd hyd at haf 2007. Mae angen ailwampio'r ddarpariaeth a'r cyllid cyfredol i gyd-fynd â'r adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Llwybrau Dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r canllawiau hyn, ynghyd â'r cyllid ychwanegol, yn gam mawr ymlaen tuag at sicrhau Llwybrau Dysgu i ddysgwyr o bob gallu. Bydd dewislenni opsiwn yn datblygu dros y tair blynedd nesaf i gynnig dewisiadau gwirioneddol pellach i ddysgwyr; bydd y Craidd Dysgu yn cyfoethogi eu dysgu ehangach; bydd 220 o anogwyr dysgu yn dechrau'r rhaglen hyfforddi ffurfiol gyntaf yng ngwanwyn 2006; bydd Rhwydweithiau 14-19 a Phartneriaethau Pobl Ifanc yn gweithio gyda'i gilydd i greu fframwaith ar gyfer cymorth personol; a byddwn yn parhau i ddatblygu cyfraniad Gyrfa Cymru yng nghyd-destun Llwybrau Dysgu.

Bydd rhoi'r canllawiau hyn ar waith yn trawsnewid cyfleoedd dysgwyr, yn hwb i'w cyfranogiad yn eu cymunedau ac yn sicrhau eu bod yn cyfrannu at yr economi. Anogaf bawb sy'n cymryd rhan i wneud yr ymrwymiadau angenrheidiol i sicrhau'r trawsnewid hwn.



**Jane Davidson AC**
**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Ein nod yw bod:

*"95 y cant o bobl ifanc, erbyn eu bod yn 25 oed, yn barod ar gyfer gwaith sgiliau uchel neu addysg uwch erbyn 2015"*

Bydd gan bob dysgwr ifanc hawl i gael fframwaith llwybr dysgu, a fydd yn eu cynorthwyo i gyflawni. Y chwe elfen allweddol yw:

- Llwybrau Dysgu unigol i ddiwallu anghenion pob dysgwr;
- Rhagor o ddewis a hyblygrwydd o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu trwy ddewislen opsiynau cydweithredol;
- Craidd Dysgu sy'n dechrau pan fydd y bobl ifanc yn 14 oed ac yn para hyd y byddant yn 19 ac sy'n cynnwys sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd a phrofiadau cyffredin;
- Cymorth anogwr dysgu;
- Cyfle i gael cymorth personol;
- Cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaoedd.


### Sut y caiff ei gyflawni

- Mae Rhwydweithiau 14-19 ym mhob ardal Awdurdod Lleol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sector yn datblygu dull strategol o sicrhau y bydd pob elfen allweddol ar gael i ddysgwyr o bob gallu dros y ddwy i dair blynedd nesaf;
- Bydd nifer sylweddol o ddysgwyr yn cael profiad o sawl elfen allweddol o fis Medi 2006;
- Dylai dysgwyr gael dewis ehangach o ddewislen opsiynau cydweithredol o fis Medi 2006;
- Bydd offeryn cynllunio i gynorthwyo anogwyr dysgu a dysgwyr i gynllunio llwybr unigol gydag elfennau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol ar Gyrfa Cymru Ar-Lein o ddechrau 2007;
- Bydd gan ddysgwyr fwy o fynediad i holl feysydd y Craidd Dysgu;
- Bydd 220 o anogwyr dysgu yn ymgymryd â'r cyfnod cyntaf o hyfforddiant ffurfiol o wanwyn 2006 ymlaen. Bydd llawer mwy o anogwyr dysgu, yn gweithio ochr yn ochr â'r rhai sy'n cael eu hyfforddi, yn cynorthwyo dysgwyr ac yn casglu tystiolaeth a fydd yn cyfrannu at ennill y cymhwyster yn y dyfodol;
- Mae Partneriaethau Pobl Ifanc (PPI), gan gynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid, yn datblygu fframwaith cynhwysfawr o wasanaethau cymorth i ieuenctid i ddarparu cymorth personol i ddysgwyr pan fo arnynt ei angen;

- Bydd Ymgynghorwyr Gyrfa Cymru yn parhau i goethi a datblygu'r ffyrdd y gall pobl ifanc gael mynediad i gyngor ac arweiniad gyrfaoedd di-duedd;
- Mae'r synergedd rhwng Llwybrau Dysgu a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn golygu y byddant yn cydgyfeirio'n hawdd pan gaiff y CBC ei roi ar waith fesul cam ledled Cymru o fis Medi 2007 ymlaen fel y bwriedir.

# Adran 1
# Llwybrau Dysgu





Cynhyrchwyd y gwaith celf gan David Knapton o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd, fel rhan o'i waith cwrs TGAU

Mae'r adran hon yn nodi'r elfennau o'r ddarpariaeth sy'n hanfodol er mwyn gweithredu'r Llwybrau Dysgu

# ADRAN 1: LLWYBRAU DYSGU

## ELFENNAU ALLWEDDOL 1, 2 A 3: Llwybrau Dysgu Unigol, Rhagor o Ddewis, Hyblygrwydd a'r Craidd Dysgu

**Beth yw Llwybrau Dysgu:**

Yn gyffredinol, Llwybrau Dysgu yw profiadau dysgu pob person ifanc 14-19 oed yn unigol. Maent yn golygu datblygu'r hyn y mae gan bob dysgwr hawl iddo, yn cynnwys cyfuniad o ddysgu ffurfiol, dewis ehangach, hyblygrwydd a Chraidd Dysgu 14-19, ynghyd â chyfuniad unigryw o gefnogaeth a fydd yn diwallu anghenion y dysgwyr.

**Chwe elfen allweddol y Llwybrau Dysgu yw:**

| | | |
|---|---|---|
| | *Llwybr Dysgu* | |
| 1 | LLWYBR DYSGU UNIGOL | Llwybr Dysgu wedi'i addasu ar gyfer yr unigolyn (gan gydnabod gofynion statudol) yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig a chredydau, dysgu priodol ar y lefel(au) cywir ar yr amser priodol sy'n addas ar gyfer anghenion, gallu a diddordebau'r dysgwr ac sy'n rhedeg o 14-19 oed a thu hwnt |
| 2 | RHAGOR O DDEWIS A HYBLYGRWYDD | Rhagor o ddewis o opsiynau perthnasol o nifer o feysydd[1], a mwy o hyblygrwydd i amrywio cyflymder a chyfeiriad y llwybr |
| 3 | Y CRAIDD DYSGU | Dysgu ehangach sy'n cynnwys y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y gwerthoedd a'r profiadau y bydd ar bob person ifanc 14-19 oed eu hangen, beth bynnag yw eu Llwybr Dysgu |
| | *Cymorth i Ddysgwyr[2]* | |
| 4 | ANOGWR DYSGU | Hawl i gael cymorth wrth ddysgu: cyfle rheolaidd i drafod yr hyn a ddysgir a'r cynnydd a wneir |
| 5 | CYMORTH PERSONOL | Cyfle i gael cymorth personol pan fydd angen: gall y dysgwr ei geisio ei hunan neu, os bydd y dysgwr yn cytuno, gall rhywun arall ei gyfeirio/chyfeirio at y gefnogaeth |
| 6 | CYNGOR AC ARWEINIAD AM YRFAOEDD | Cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaoedd a fydd o gymorth i Lwybr Dysgu'r unigolyn |

1: Gweler adran 1.2
2: Weithiau, mae'n bosib mai'r un person fydd yn darparu rhai agweddau ar gymorth dysgu, cymorth personol a chyngor a chyfarwyddyd gyrfa

Mae'r adran hon yn nodi'r elfennau o'r ddarpariaeth sy'n hanfodol er mwyn gweithredu'r Llwybrau Dysgu

## Beth yr ydym am ei gyflawni

**1.** Bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn:

- cynyddu'r gyfran o rai 16 oed sydd â chymwysterau lefel 2 a'r gyfran o rai 19 oed sydd â chymwysterau lefel 3;
- lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg lawnamser heb gymwysterau;
- cynyddu'r gyfran o rai 16 oed sy'n symud ymlaen i ddysgu pellach, llawnamser neu ddysgu yn y gwaith;
- lleihau nifer y rhai 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET);
- cynyddu presenoldeb, lleihau gwaharddiadau ac yn sicrhau bod rhagor o bobl ifanc yn aros ym myd dysgu;
- galluogi rhagor o bobl ifanc i wireddu eu potensial;
- rhoi sylw cadarnhaol i gyflawni sy'n golygu bod llwyddiant pobl ifanc yn cael ei ddathlu;
- helpu pobl ifanc i fod yn fwy annibynnol, i wneud dewisiadau ac i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd;
- cael effaith gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol, sgiliau gwaith a chyflogaeth gynaliadwy.

**2.** Yn ogystal, bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn helpu i wella cyfleoedd gwaith; i hybu datblygiad cyfle cyfartal; i gynyddu'r gwir Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC); i leihau tlodi, yn cynnwys mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf; i leihau ymddygiad gwrth gymdeithasol a gweithgareddau troseddol; ac i hybu iechyd.

**3.** Bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn cyfrannu at amcanion 'Iaith Pawb' trwy geisio:

- cynnig darpariaeth yn newis iaith y person ifanc lle bo modd;
- rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau dwyieithog pobl ifanc;
- sicrhau bod gan y bobl ifanc sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg a fydd yn eu galluogi i ddysgu a gweithio mewn cymdeithas ddwyieithog.

Mae'r adran hon yn diffinio fframwaith Llwybr Dysgu sydd wedi ei lunio ar gyfer yr unigolyn

## Elfen Allweddol 1: Llwybr Dysgu Unigol

**Beth yw Llwybr Dysgu unigol:**

Llwybr Dysgu yw profiad dysgu pob person ifanc 14-19 oed yn unigol. Mae'n cynnwys Craidd Dysgu ac amryw o opsiynau y mae'r dysgwr yn dewis o'u plith, gyda chefnogaeth ac arweiniad gwybodus.

1. Bydd y dysgwyr yn dewis, gyda chefnogaeth ac arweiniad, **opsiynau a fydd yn addas ar gyfer eu diddordebau, eu gallu a'u harddulliau dysgu**, ac a fydd yn rhoi cyfleoedd iddynt gyflawni eu potensial.

2. **Dylai Llwybr Dysgu:**

- hybu cynhwysiant trwy roi cyfleoedd i bob dysgwr gael **amrediad eang a chytbwys o brofiadau**. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen mewn bywyd a gwaith gan dalu sylw i'r dystiolaeth a geir yn *'Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru' (2003)*;
- cydnabod profiadau o **bob agwedd ar fywyd dysgwr** gan gynnwys gwaith rhan amser a gweithgareddau y tu allan i'r amgylchedd dysgu ffurfiol, er enghraifft, cyfrifoldebau gofalu;
- cydnabod y **gefnogaeth**, a fydd yn amrywio dros amser, y bydd ar ddysgwyr ei hangen i'w helpu i **oresgyn y rhwystrau sy'n eu cadw rhag dysgu** a'r ffordd y gall pob dysgwr gael cyfuniad unigryw o gymorth i gwrdd â'i anghenion unigol.

Mae'r adran hon yn diffinio fframwaith Llwybr Dysgu sydd wedi ei lunio ar gyfer yr unigolyn

## Sut y Cyflenwir y Llwybrau Dysgu: Chwe Elfen i Drawsnewid Dysgu 14-19 yng Nghymru

| | Elfen hanfodol | Cyflenwi | Pwy |
|---|---|---|---|
| LLWYBR | Llwybr Dysgu wedi'i lunio ar gyfer yr unigolyn (gan gydnabod gofynion statudol) yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig a chredydau, dysgu addas ar y lefel(au) priodol ar yr amser cywir sy'n addas ar gyfer anghenion, gallu a diddordebau'r dysgwr ac sy'n rhedeg o 14-19 oed a thu hwnt | Sefydliad dysgu unigol/ Rhwydwaith 14-19 | Sefydliadau dysgu<br>Rhwydweithiau 14-19 |
| | Rhagor o ddewis o opsiynau perthnasol o nifer o feysydd[1], a mwy o hyblygrwydd i amrywio cyflymder a chyfeiriad y llwybr | Dewislen | Rhwydweithiau 14-19 |
| | Y Craidd Dysgu: dysgu ehangach sy'n cynnwys y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y gwerthoedd a'r profiadau y bydd ar bawb sy'n 14-19 oed eu hangen, beth bynnag yw eu Llwybr Dysgu | Dewislen<br>Profiad sy'n canolbwyntio ar waith<br>Cyfranogiad cymunedol<br>Gweithgareddau/profiadau y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad dysgu arweiniol | Rhwydweithiau 14-19 |
| CYMORTH | Hawl i gael cymorth proffesiynol wrth ddysgu: cyfle rheolaidd i drafod yr hyn a ddysgir a'r cynnydd a wneir | Cymorth anogwr dysgu i bob dysgwr, ond nid yn unigol o anghenraid | Anogwr Dysgu sydd wedi cymhwyso neu'n gweithio i ennill y cymhwyster Anogwr Dysgu |
| | Cyfle i gael cymorth personol pan fydd angen: gall y dysgwr ei geisio ei hunan neu, os bydd y dysgwr yn cytuno, gall rhywun arall ei gyfeirio/chyfeirio at y gefnogaeth | Rhwydweithiau cymorth personol gyda chefnogaeth gwasanaethau arbenigol | Rhwydweithiau 14-19<br>Partneriaethau Pobl Ifanc |
| | Cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaoedd a fydd o gymorth i Lwybr Dysgu'r unigolyn. | Gyrfa Cymru yn cydweithio â'r Rhwydweithiau 14-19 | Gyrfa Cymru<br>Rhwydweithiau 14-19 |

1: Gweler adran 1.2

**3.** Bydd Llwybr Dysgu pob dysgwr yn cynnwys **cyfuniad o elfennau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol.** Bydd y cydbwysedd rhwng yr elfennau'n amrywio yn ôl anghenion y dysgwr.

**FFURFIOL** – cyfleoedd dysgu trefnedig sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig a/neu gredydau CQFW.

**HEB FOD YN FFURFIOL** - rhaglenni trefnedig a all arwain at achredu ond sydd, fel rheol, y tu allan i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF).

**ANFFURFIOL** - profiadau ehangach nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel rheol.

**4.** Mae'r grid enghreifftiol ar y dudalen nesaf yn dangos rhai o'r profiadau a allai roi cydbwysedd rhwng elfennau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol yn Llwybr Dysgu'r unigolyn. Nid yw'n golygu na all person ifanc barhau â rhai cyrsiau TGAU ar ôl 16, er enghraifft, neu gychwyn ar gwrs Safon Uwch cyn blwyddyn 12.

Mae'r adran hon yn diffinio fframwaith Llwybr Dysgu sydd wedi ei lunio ar gyfer yr unigolyn

Mae'r adran hon yn diffinio fframwaith Llwybr Dysgu sydd wedi ei lunio ar gyfer yr unigolyn

## Grid Cynllunio Enghreifftiol ar gyfer Llwybrau Dysgu Cytbwys

| LLWYBR DYSGU | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 – Blwyddyn 13 |
|---|---|---|
| FFURFIOL | Gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol/statudol (Blwyddyn 9–11) | Gofynion statudol mewn ysgolion (Blwyddyn 12–13) |
| Cyfleoedd dysgu trefnedig sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig | | Cymwysterau cydnabyddedig o restr - cymwysedig a chyffredinol - TGAU/NVQ/ BTEC ac ati<br>Safon Uwch Gyfrannol/Safon Uwch/Craidd<br>Bagloriaeth Cymru<br>Gofynion penodol y Craidd Dysgu |
| | | Dysgu seiliedig ar waith, yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig |
| HEB FOD YN FFURFIOL<br>Rhaglenni trefnedig sy'n arwain at gydnabod cyflawniad o ddysgu ond fel arfer y tu allan i'r NQF. Gallant arwain at achredu | ✓ | Gwobrau Dug Caeredin - efydd/arian/aur |
| | ✓ | ASDAN a dyfarniadau tebyg |
| | | Gwirfoddolwyr y Mileniwm/CSV |
| | ✓ | Tystysgrifau Cymorth Cyntaf/Hylendid Bwyd etc |
| | | OCN lefelau 1/2/3 |
| | | Agweddau eraill ar y Craidd Dysgu |
| ANFFURFIOL<br>Profiadau ehangach nad ydynt yn cael eu hachredu fel arfer | ✓ | Profiadau preswyl |
| | ✓ | Hobïau/chwaraeon |
| | ✓ | Aelodaeth o glybiau/cymdeithasau |
| | ✓ | Gwaith rhan-amser (gan gydnabod y gofynion cyfreithiol) |
| | ✓ | Gwarchod plant/sgiliau gofalu |

Dulliau asesu/dysgu a nodir; ystod gweithgareddau blasu

Wedi Blwyddyn 13: Parhau i ddysgu er mwyn ennill credydau neu gymwysterau neu gyflawni nodau personol. Cytuno ar amser ychwanegol i gwblhau'r cymwysterau. Dysgu Gydol Oes gan gynnwys mewn addysg bellach ac addysg uwch.

Bydd y Llwybrau Dysgu unigol yn amrywio a dylent ddarparu dysgu ffurfiol, dysgu heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol ar lefel briodol ac ar yr amser priodol ac sy'n gydnaws ag anghenion, gallu a diddordebau'r dysgwr.

Nid yw'r grid enghreifftiol yn hollgynhwysol o ran ystod dysgu nac oedran.

Bydd cefnogaeth yr anogwr dysgu yn helpu'r unigolyn i benderfynu ar amcanion a datblygu Llwybr Dysgu.

Ceir grid cynllunio gwag, tudalen-lawn yn Atodiad C.



*DIWEDDARWYD FIS EBRILL 2006*

## Elfen Allweddol 2: Rhagor o Ddewis a Hyblygrwydd

**Beth y mae rhagor o ddewis a hyblygrwydd yn ei olygu:**

Gyda chymorth, dylai pob dysgwr 14-19 oed fod yn gallu cynllunio eu Llwybr Dysgu eu hunain o amrediad digon eang o opsiynau a fydd yn arwain at wahanol gymwysterau. Yn ogystal, dylai fod cyfleoedd cymwysedig neu gyffredinol ar gael iddynt i gydnabod eu harddulliau dysgu a'u galluogi i lwyddo.

### Sicrhau darpariaeth estynedig ar gyfer dewis a hyblygrwydd

**1.** Dylai'r Rhwydwaith 14-19 weithio i sicrhau cydweithrediad rhwng partneriaid er mwyn darparu **amrediad eang a chytbwys o gyfleoedd**, gan gydnabod gofynion statudol, y gall dysgwyr eu dewis er mwyn datblygu eu Llwybr Dysgu unigol eang a chytbwys eu hunain. Mae'n bosib y byddai arolwg o'r ddarpariaeth gyfredol yn dangos bod dewis eang ar gael eisoes mewn llawer o ardaloedd. Er mwyn sicrhau **lefel sylfaenol o ddewis a hyblygrwydd** ledled Cymru, dylid dadansoddi'r ddarpariaeth a'i datblygu o fewn y fframwaith a ganlyn.

**2.** Mae'r **DEWISLENNI** yn cynnwys yr **amrediad o ddewisiadau** sydd ar gael trwy gydweithrediad y partneriaid yn y Rhwydwaith 14-19. Gall y bobl ifanc ddewis yr agweddau ffurfiol ar eu llwybr o blith y rhain. Dylid datblygu **Prosbectws Gweithgareddau** i gynnwys y gwahanol **gyfleoedd heb fod yn ffurfiol a'r rhai anffurfiol** sydd ar gael mewn ardal.

**3.** Yn achos yr **agweddau ffurfiol**, bydd y fframwaith isod yn sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth sy'n ddigon eang, cytbwys, perthnasol a hyblyg i ddiwallu eu hanghenion unigol. Dylai'r ddarpariaeth yn **ardal y Rhwydweithiau 14-19** gynnwys rhaglenni **ar bob lefel, o lefel mynediad i lefel 4, ar ffurfiau cymwysedig a chyffredinol**, i gydnabod yr arddulliau dysgu gwahanol a geir yn y **MEYSYDD** a ddangosir yn y diagram ar y dudalen nesaf.

**4.** Bwriad y meysydd yw sicrhau y ceir darpariaeth sy'n ddigon eang. Nid ydynt yn arwydd o arbenigedd nac yn mynnu y ceir arbenigedd neilltuol ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn darparu fframwaith ar gyfer dewisiadau'r dysgwyr. Eu diben yw sicrhau bod **lefel y ddarpariaeth yn ddigonol**. Maent yn cydnabod y bydd y ddarpariaeth a fydd ar gael yn y pen draw yn dibynnu ar ymarferoldeb, logisteg ac arbedion maint. Bydd **cydweithredu trawsffiniol**, ynghyd â datblygiadau technolegol fel y Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Band Eang, yn sicrhau bod mwy o ddewis ar gael lle bo'n briodol mewn rhai ardaloedd ac ar gyfer rhai dysgwyr.

Mae'r adran hon yn disgrifio'r fframwaith ar gyfer rhoi dewisiadau a hyblygrwydd fel y gall dysgwyr gynllunio eu Llwybr Dysgu

Mae'r adran hon yn disgrifio'r fframwaith ar gyfer rhoi dewisiadau a hyblygrwydd fel y gall dysgwyr gynllunio eu Llwybr Dysgu

**Fframwaith Meysydd Enghreifftiol ar gyfer yr Opsiynau 14-19 a Ddarperir**

- Mathemateg, gwyddoniaeth a phob agwedd ar dechnoleg
- Busnes a rheolaeth
- Gwasanaethau i bobl
- Y celfyddydau creadigol a diwylliant
- Y dyniaethau ac ieithoedd

**5.** Ym mhob maes, bydd angen **sawl dewis ar ffurfiau cyffredinol a chymwysedig, o lefel mynediad i lefel 4**. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau dysgu eisoes yn cynnig peth darpariaeth ym mhob maes. Dros amser, dylai'r Rhwydwaith 14-19 geisio ehangu amrywiaeth yr opsiynau sydd ar gael ar bob lefel ym mhob maes. Bydd angen ystyried, yn arbennig, sut i gynyddu'r ddarpariaeth **trwy gyfrwng y Gymraeg** ym mhob maes.

**Beth y bydd y dysgwr yn ei ennill trwy gynllunio Llwybr Dysgu**

**6.** Bydd Anogwyr Dysgu (gweler adran 2.1) yn gweithio gyda dysgwyr yn unigol neu mewn grwpiau bach, i **bennu targedau** ac i **ddatblygu Llwybr Dysgu** ar gyfer pob dysgwr. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol a gyflwynir dros gyfnod. Bydd yn talu sylw i brofiadau y tu allan i'r sefydliad dysgu sy'n helpu i wireddu uchelgeisiau'r unigolyn.

**7.** Bydd angen i ddysgwyr gael y dewis ehangaf sy'n bosibl ond bydd angen iddynt ddeall bod rhai pethau'n angenrheidiol cyn y gallant symud ymlaen tuag at eu targedau, er enghraifft Mathemateg a Saesneg TGAU A*-C ar gyfer mynd i ddysgu. Gall yr Anogwr Dysgu a'r Cynghorydd Gyrfaoedd eu helpu i ddod i ddeall hyn.

**8.** Bydd Llwybrau Dysgu pobl ifanc 14-16 oed yn cynnwys rhaglenni o sawl maes trwy ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4). Bydd y datblygiadau a welir yn y gofynion statudol o hyn ymlaen yn adlewyrchu natur datblygiadau yn y Llwybrau Dysgu eu hunain.

**Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru 2004: Ar gyfer pob dysgwr 14-16 mewn unrhyw sefydliad dysgu (onid ydynt wedi'u datgymhwyso'n ffurfiol)**

*Pynciau Gorfodol y Cwricwlwm Cenedlaethol: Saesneg, Cymraeg (fel iaith gyntaf neu ail iaith), Mathemateg, Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol*

*Gofynion statudol eraill: Addysg Grefyddol, Addysg Rhyw, Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg Gysylltiedig â Gwaith (o fis Medi 2004 ymlaen)*

**Gofynion statudol 16-19**

*Ysgolion a Gynhelir: Addysg Grefyddol, Addysg Rhyw, Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd*

*Addysg Bellach: Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd*

**9.** Dylai dysgwyr 14-16 oed gael darpariaeth digon eang a chytbwys a dylid eu hannog i gadw'u hopsiynau'n agored. Mae'r gofynion statudol yn **ddigon hyblyg** i ganiatáu i'r rhai sy'n dymuno dechrau arbenigo mewn un neu fwy o feysydd. Bydd dysgwyr dros 16 yn fwy tebygol o fireinio'u cyrchnodau ac, o ganlyniad i hynny, eu Llwybr Dysgu, tuag at set o opsiynau mwy penodol.

**10.** Bydd angen i Anogwyr Dysgu roi **cyngor a chyfarwyddyd diduedd ac ymarferol** ar y llwybrau gorau i ddiwallu anghenion y dysgwyr unigol gan ystyried yr arddulliau dysgu mwyaf addas ar eu cyfer.

Mae'r adran hon yn disgrifio'r fframwaith ar gyfer rhoi dewisiadau a hyblygrwydd fel y gall dysgwyr gynllunio eu Llwybr Dysgu

## Elfen Allweddol 3: Y Craidd Dysgu

**Beth yw'r Craidd Dysgu 14-19:**

Y Craidd Dysgu yw'r dysgu ehangach a fwriedir ar gyfer pob person ifanc yng Nghymru rhwng 14 a 19 oed. Mae'n cynnwys lleiafswm y gofynion ynghyd ag ychwanegiadau.

- Mae'n cynnwys o leiaf y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr agweddau, y gwerthoedd a'r profiadau y mae ar bob dysgwr eu hangen i'w paratoi ar gyfer dysgu pellach, gwaith, boddhad personol a'u cyfraniad at ein cymdeithas ddwyieithog ac amrywiol, pa Lwybr Dysgu bynnag y mae dysgwr yn dewis ei ddilyn.
- Dylai dysgwyr fod yn gallu manteisio hefyd ar ychwanegiadau i leiafswm y gofynion fel y gallant ddatblygu eu craidd dysgu ar gyfer y llwybr a ddewisir ganddynt a/neu ddilyn diddordeb a fydd yn cyfoethogi eu bywydau.

Mae'r adran hon yn disgrifio beth yw'r Craidd Dysgu 14-19 a pham y mae'r hyn a ddysgir yn bwysig i bawb 14-19 oed. Mae hefyd yn rhoi peth cyfarwyddyd ar symud tuag at ei weithredu'n llawn ar gyfer pawb sy'n dysgu

### 1. Bwriad y model manwl o'r Craidd Dysgu a ddangosir yn yr adran hon yw:

- ysgogi dysgwyr beth bynnag yw eu llwybrau;
- bod yn ddigon hyblyg i fod yn berthnasol i bawb;
- cynnwys amrediad eang o arddulliau dysgu a'r holl fathau o wybodaethau;
- peidio â bod yn rhy fawr i'w reoli.

**2.** Bwriedir **lleiafswm y gofynion** ar gyfer pawb sy'n dysgu llawn amser ac sydd wedi'u lleoli yn y gweithle, pobl sydd ar Lwybrau Dysgu cymysg, yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau dysgu eraill a'r rhai sy'n astudio llawn amser mewn ysgolion a cholegau. Bydd lleiafswm y gofynion, fel rhan o'r Craidd Dysgu cyfan, yn cefnogi dysgu ehangach yn y cyd-destunau hyn i gyd.

**3.** Mae'r **ychwanegiadau** yn gwneud y model yn ddigon hyblyg ar gyfer pawb sy'n dysgu. Dylai dysgwyr ddatblygu eu craidd dysgu ymhellach ar gyfer y llwybr o'u dewis a/neu er mwyn ymgymryd â diddordebau a fyddai'n cyfoethogi eu bywydau. Bwriad yr hyblygrwydd hwn yw **ysgogi dysgwyr unigol** a bod yn **ymarferol ar gyfer darparwyr**, yn enwedig yn achos dysgu sy'n seiliedig ar waith.

**4.** Mae'n rhaid nad oes gan y bobl ifanc ormod o waith ac mae'n rhaid peidio â'u gorlwytho, yn enwedig o ran amser, cynnwys ac asesu'r dysgu. Mae'n rhaid i'r Craidd Dysgu **adlewyrchu'r gofynion statudol** (gweler adran 1.2) yn hytrach nag ychwanegu atynt. Bwriad y cyngor a roddwyd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) ynghylch adolygu'r gwaith o asesu cwricwlwm CA4 a'r cymwysterau yw sicrhau cysondeb rhwng gofynion CA4 a'r Craidd Dysgu.

**5.** Mae'r Craidd Dysgu yn cynnwys yr agweddau hynny ar ddysgu ehangach y gellir eu cymhwyso mewn modd cyson ar gyfer dysgwyr 14-19 oed ym mhob math

Mae'r adran hon yn disgrifio beth yw'r Craidd Dysgu 14-19 a pham y mae'r hyn a ddysgir yn bwysig i bawb 14-19 oed. Mae hefyd yn rhoi peth cyfarwyddyd ar symud tuag at ei weithredu'n llawn ar gyfer pawb sy'n dysgu

o sefydliad dysgu. Felly, nid yw'n cynnwys gofynion statudol pwysig sy'n berthnasol i ysgolion yn unig, fel Addysg Grefyddol a gwyddoniaeth fel pwnc yn y cwricwlwm cenedlaethol yn CA4. Mae'r rhain yn dal yn elfennau hanfodol o gwricwlwm yr ysgolion.

**6.** Ni chaiff lefel y dysgu ei diffinio yn y model. Dylid cynllunio rhaglenni ar gyfer dysgwyr mewn ffordd sy'n annog unigolion i gyrraedd y lefel uchaf sydd o fewn eu gallu. Nid yw'n pennu rhaglenni dysgu na gofynion asesu penodol gan y gall y rhain amrywio o'r naill sefydliad dysgu i'r llall. Mae'r model yn rhoi **hyblygrwydd i ddarparwyr dysgu**, gan weithio y tu mewn i'w Rhwydweithiau 14-19 lleol, i benderfynu ar natur y rhaglenni dysgu a'r trefniadau asesu penodol y dymunant eu sefydlu i ddiwallu anghenion eu dysgwyr.

Mae'r adran hon yn disgrifio beth yw'r Craidd Dysgu 14-19 a pham y mae'r hyn a ddysgir yn bwysig i bawb 14-19 oed. Mae hefyd yn rhoi peth cyfarwyddyd ar symud tuag at ei weithredu'n llawn ar gyfer pawb sy'n dysgu

**Gofynion penodol Craidd Dysgu 14-19**

| Agweddau ar Ddysgu | Lleiafswm | Ychwanegiadau |
|---|---|---|
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau Allweddol:<br>Cyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)<br>Cymhwyso Rhif<br>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu<br>Datrys Problemau<br>Gwella hunanddysgu a pherfformiad<br>Cydweithio gydag eraill | Dylai pawb 14-16 oed ddatblygu pob un o'r chwe Sgil Allweddol (neu ddilyn rhaglenni priodol lefel mynediad/cyn-mynediad ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw lefel 1 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol) ar y lefel sy'n briodol ar gyfer eu rhaglenni. Ar ôl 16, dylai Cyfathrebu ac o leiaf ddau Sgil Allweddol arall (neu raglenni priodol lefel mynediad/cyn-mynediad) fod yn ofynnol ar y lefel sy'n briodol i'r rhaglen. | Dylai'r Sgiliau Allweddol eraill fod ar gael i bob dysgwr ôl-16 fel ychwanegiadau. Yn achos rhai dysgwyr, bydd angen Sgiliau Allweddol ychwanegol fel rhan o'u rhaglenni e.e. Bagloriaeth Cymru a rhai Prentisiaethau Modern. |
| Sgiliau yn y Gymraeg | Dylid dysgu Cymraeg/Cymraeg Ail Iaith i bawb 14-16 oed fel rhan o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. | Dylai pob dysgwr ôl-16 fod yn cael cyfle i barhau i astudio Cymraeg fel ychwanegiad. |
| Sgiliau eraill cysylltiedig â gwaith | Dylai pob dysgwr 14-19 oed ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithle. Bydd dysgwyr ar ôl 16 ar lwybrau sy'n seiliedig ar waith yn datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol gan y sector lle maent yn cael eu hyfforddi. Mae fframweithiau ACCAC ar gyfer Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfa ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn nodi lleiafswm y gofynion, yn cynnwys entrepreneuriaeth, ar gyfer dysgwyr llawn amser mewn ysgolion a cholegau. | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth** | | |
| Cymru, Ewrop a'r Byd | Dylid dysgu'r Cwricwlwm Cymreig/Cymru, Ewrop a'r Byd i bawb 14-16 oed fel rhan o ofynion diwygiedig CA4. | Dylai pob dysgwr ôl-16 gael cyfleoedd i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, Ewrop a'r Byd fel ychwanegiad. Byddai Cymru, Ewrop a'r Byd yn dal yn ofynnol ar gyfer y rhai sy'n cymryd Bagloriaeth Cymru. |
| Materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd | Dylai pob person ifanc 14-16 oed gael eu dysgu am faterion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd, wedi'u seilio ar fframwaith ACCAC. | Dylai materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd fod ar gael i bob dysgwr ôl-16 fel ychwanegiad. Byddai ABCh yn dal yn ofynnol ar gyfer rhai sy'n cymryd Bagloriaeth Cymru. |
| Addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd | Mae rheidrwydd statudol ar ysgolion a cholegau yng Nghymru i ddarparu rhaglen o addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd i'w holl ddysgwyr amser llawn a rhan amser 13-19. Mae fframwaith ACCAC yn rhoi arweiniad clir ar yr hyn y dylid ei ddarparu.<br>Mae gan ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth seiliedig ar waith hawl statudol i gael cyfarwyddyd gyrfaoedd hefyd. | Mae'n ofynnol yn statudol bod dysgwyr mewn addysg bellach yn cael addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd. |
| **Agweddau a gwerthoedd** | | |
| Parch at eich hunan, eraill ac amrywiaeth<br><br>Cyfrifoldeb am ddatblygiad personol a chymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd | Dylai fod yn ofynnol i bob dysgwr 14-19 sicrhau datblygiad cynyddol y gwerthoedd hyn. Maent yn hanfodol i ddatblygiad y person cyfan. Byddai angen i ddarparwyr dysgu bennu'r mecanweithiau a fyddai'n galluogi dysgwyr unigol i integreiddio'u profiadau dysgu ac i bennu targedau ar gyfer datblygiad personol. | |
| **Profiadau cyffredin** | | |
| Profiad sy'n canolbwyntio ar waith (gweler adran 1.4) | Dylai hyn fod yn ofynnol ar gyfer pob dysgwr 14-19. Mae dysgwyr ar Brentisiaethau Modern wedi'u lleoli yn y gweithle. Yn achos dysgwyr mewn ysgolion a cholegau, dylid seilio lleiafswm y gofynion ar fframwaith Addysg Gysylltiedig â Gwaith ACCAC. | Dylai llawer o ddysgwyr gael cyfleoedd ar gyfer cyfnodau estynedig o brofiad sy'n seiliedig ar waith perthnasol dros ben yr isafswm sy'n ofynnol ar gyfer Addysg Gysylltiedig â Gwaith. Gallai hyn gynnwys cydnabod gwaith rhan amser. |
| Cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol (gweler adran 1.5) | (Dylai'r rhain fod yn weithgareddau gwirfoddol ac felly nid ydynt yn rhan o leiafswm y gofynion) | Dylai hyn fod ar gael fel ychwanegiad i bob dysgwr 14-19 oed. Byddai'n ofynnol ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n cymryd Bagloriaeth Cymru. |

Mae'r adran hon yn disgrifio beth yw'r Craidd Dysgu 14-19 a pham y mae'r hyn a ddysgir yn bwysig i bawb 14-19 oed. Mae hefyd yn rhoi peth cyfarwyddyd ar symud tuag at ei weithredu'n llawn ar gyfer pawb sy'n dysgu

**Gofynion penodol Craidd Dysgu 14-19**

| Agweddau ar Ddysgu | Lleiafswm | Ychwanegiadau |
|---|---|---|
| Profiadau diwylliannol/chwaraeon/esthetig/creadigol | Dylid dysgu Addysg Gorfforol i bob dysgwr 14-16 oed fel rhan o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. | Dylai profiadau diwylliannol/chwaraeon/esthetig/creadigol fod ar gael i bob dysgwr 14-19 fel ychwanegiadau. |

Dylid defnyddio'r adran hon ochr yn ochr â'r deunydd enghreifftiol a'r wybodaeth am adnoddau a ddarperir sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk

## Rheoli'r Craidd Dysgu – cynllunio, gweithredu, asesu ac achredu

## Materion allweddol a swyddogaethau allweddol

### Cyfleoedd

Mae *Llwybrau Dysgu 14-19* yn darparu cyfle pwysig i reolwyr ym mhob sefydliad dysgu baratoi darpariaeth sy'n fwy addas ar gyfer anghenion pobl ifanc unigol a gofynion y byd modern. Dylai manteisio ar y cyfle gynorthwyo'r dysgwr a'r darparwr. Mae angen i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a medrau sy'n eu galluogi i ymdopi'n well â dysgu pellach a gofynion gwaith. Gall darparwyr elwa drwy gael dysgwyr mwy brwdfrydig ac effeithiol.

**1.** O fewn y Llwybrau Dysgu 14-19, mae'r **Craidd Dysgu** yn nodi'r **sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y gwerthoedd a'r profiadau sydd eu hangen ar bob dysgwr** i'w paratoi ar gyfer dysgu pellach, cyflogaeth a chyflawniad personol fel y gallant gyfrannu at ein cymdeithas ddwyieithog ac amrywiol, pa bynnag lwybr dysgu y byddant yn dewis ei ddilyn. Mae manylion allweddol am y **Craidd Dysgu**, a nodir fel **safonau gofynnol** ynghyd â **gwelliannau** sy'n galluogi dysgwyr unigol i ddilyn diddordeb a fydd yn cyfoethogi eu bywydau, yn y **Model** ar y dudalen plygu allan a gynhwysir yn yr adran hon.

**2.** Mae'r canllawiau hyn wedi'u paratoi ar gyfer **pob Rhwydwaith 14-19 a darparwr dysgu** mewn sefyllfaoedd gwaith, gwirfoddol a chymunedol ynghyd â cholegau ac ysgolion. Gallant helpu'r sawl sy'n cynllunio, yn cydgysylltu ac yn blaenoriaethu adnoddau. Mae gwybodaeth a chanllawiau pellach ar weithredu pobl agwedd ar y Craidd Dysgu ar gael yn www.cymru.gov.uk.

## Gyda beth rydyn ni'n delio?

**3.** **Nid model cwricwlwm manwl** yw'r Craidd Dysgu. Nodir y gofynion fel **canlyniadau dysgu**, ynghyd â rhai **profiadau cyffredin**. Gellir mynd i'r afael â'r rhain mewn gwahanol ffyrdd i ddiwallu anghenion a meysydd unigol ac i gydnabod yr amrywiaeth o arddulliau dysgu sydd ar gael. Nid yw'r lefel dysgu chwaith yn cael ei rhagnodi yn y model. Mae hyn yn rhoi rhwydd hynt i raglenni sy'n briodol i bawb, sy'n rhoi mynediad go iawn ond sydd hefyd yn gadael i bobl ifanc gael eu herio i'r eithaf.

**4.** Mae gwahaniaeth pwysig rhwng y Craidd Dysgu a'r hyn a elwir o bryd i'w gilydd yn ddarpariaeth 'craidd' mewn ysgolion, a all gynnwys dysgu mewn ystod gyfyngedig o feysydd gyda phob dysgwr yn cael profiadau tebyg iawn. Mae'r Craidd Dysgu yn fwy **hyblyg** ac **amrywiol**. Gall rhaglen gyfan y dysgwr gyfrannu at y Craidd Dysgu.

**5.** Mae'r Craidd Dysgu yn **gymwys ym mhob sefydliad**. Nid yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at ofynion statudol pwysig sy'n gymwys mewn ysgolion yn unig, fel Addysg Gorfforol a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Addysg Grefyddol.

Dylid defnyddio'r adran hon ochr yn ochr â'r deunydd enghreifftiol a'r wybodaeth am adnoddau a ddarperir sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk

## Pwy sy'n cymryd rhan?

**6.** Mae'r gwaith **cynllunio strategol** ar gyfer darpariaeth 14-19 yn nwylo **Rhwydweithiau 14-19** lleol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr yn y gwaith, ysgol neu goleg. Nodir aelodaeth a swyddogaeth y rhwydwaith, gyda chanllawiau ar weithredu, yn Adran 3 ac Atodiad E o'r Canllawiau hyn.

7. Dylai pob canllaw Rhwydwaith nodi'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael yn lleol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cefnogi'r Craidd Dysgu. Fel arfer bydd dysgwr wedi'i gofrestru a'i leoli yn y gwaith, ysgol neu goleg ar gyfer ei brif/phrif raglen. Y **prif sefydliad dysgu** hwnnw, yn gweithio o fewn y Rhwydwaith lleol, fydd yn **gyfrifol am gynllunio rhaglen yr unigolyn**, gan gynnwys mynediad i ofynion y Craidd Dysgu.

## Beth yw'r camau cyntaf?

**8.** Darperir agweddau ar y Craidd Dysgu eisoes i ddysgwyr 14-19. Un o nodau'r Llwybrau Dysgu yw darparu pob agwedd i ddysgwyr, beth bynnag fo'u rhaglen ddysgu, beth bynnag fo'u sefydliad.

**9.** Dylai pob darparwr dysgu, sy'n gweithio gyda'r Rhwydwaith 14-19, **gynllunio darpariaeth gychwynnol** y Craidd Dysgu sy'n:

- **defnyddio cyfleoedd sydd eisoes ar gael;**
- **adeiladu** ar y rhain i ddarparu **mwy o'r Craidd Dysgu ar gyfer mwy o ddysgwyr;**
- parhau i **fodloni gofynion statudol cyfredol;**
- **rhannu adnoddau cyfredol**, staff a seilwaith.

**10.** Mae hyn yn **golygu mynd i'r afael â'r hyn sy'n bosib yn awr, tra'n cynllunio i weithredu'r Craidd Dysgu'n llawn yn y dyfodol**. Bydd angen i reolwyr ym mhob sefydliad wneud penderfyniadau am y ffordd orau o ddarparu mynediad ar gyfer eu dysgwyr. Dylent geisio sicrhau bod y ddarpariaeth orau bosib ar gael i bob unigolyn ifanc 14-19 oed drwy ddefnyddio a rhannu staff a chyfarpar yn effeithiol.

**11.** Gallai **arolwg o raglenni lleol** sydd wedi'u nodi gan y Rhwydweithiau gynorthwyo i benderfynu'r hyn y gall pob darparwr ymdopi ag ef ac i ba raddau y bydd angen i ddysgwyr gael mynediad i adnoddau allanol. Dylai'r ymarfer ofyn cwestiynau fel:

- Pa agweddau ar y Craidd Dysgu rydyn ni'n eu darparu?
- Pa rai eraill sydd ar gael yn lleol?
- Sut gallwn ni eu gwneud ar gael i ragor o ddysgwyr?
- A oes bylchau sylweddol yn ein darpariaeth leol?
- Pa adnoddau ychwanegol y byddwn eu hangen?
- A ellid defnyddio rhagor o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)?

## Nodi anghenion dysgwyr

**12.** Mae'n amlwg bod angen **osgoi ailadrodd** ym mhrofiadau dysgwyr a **sicrhau dilyniant priodol**. Bydd gwrando'n ofalus ar ddiddordebau ac anghenion pobl ifanc wrth gynllunio yn sicrhau gwell darpariaeth. Mae gan bob partner yn y Rhwydwaith waith i'w wneud yn nodi a chynorthwyo i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn ei ardal. Er enghraifft:

| Partner | Swyddogaeth |
|---|---|
| **Darparwr dysgu** | Sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud sy'n nodi anghenion unigol. Nodi anghenion ac arddulliau dysgu; cynghori yn unol â hynny. |
| **Y Rhwydwaith 14-19** | Sicrhau bod sefydliadau dysgu yn cynnig gwybodaeth briodol am yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael yn lleol. |
| **Gyrfa Cymru** | Sicrhau bod canllawiau'n ystyried anghenion unigol. |

# Cynllunio'r dysgu

## Graddfa'r cynllunio

**13.** Gall **hyblygrwydd** y Craidd Dysgu fod yn un o'i gryfderau gan y gall ddarparu ar gyfer **pob dysgwr**. Fodd bynnag, i elwa ar yr hyblygrwydd hwnnw, mae angen i ddarparwyr baratoi yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn benodol, mae angen penderfynu pa agweddau ar y craidd ddylai fod yn rhan **annatod** o opsiynau'r dysgwyr a pha agweddau a allai fod angen darpariaeth **arwahanol.**

**14.** Er enghraifft, i ddysgwyr ar lwybrau seiliedig ar waith, gellid integreiddio materion personol, cymdeithasol ac iechyd o fewn eu hyfforddiant. Felly byddai dysgu am ofal cwsmeriaid ac ymddygiad cyfrifol yn y gweithle, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch, yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y craidd. Fodd bynnag, i fyfyrwyr sy'n dilyn opsiynau safon uwch traddodiadol mewn ysgol, efallai y bydd llawer o'r agweddau hyn yn cael eu darparu drwy raglen wahanol.

**15.** I roi enghraifft arall, bydd gan fyfyrwyr coleg sy'n astudio celfyddydau perfformio ddigon o gyfle i gael profiadau creadigol/esthetig. Fodd bynnag, nid yw pob cwrs yn darparu cyfleoedd fel hyn a bydd llawer o ddysgwyr yn cael y cyfle i gael y profiadau hyn drwy weithgareddau gwirfoddol fel cymryd rhan mewn cyngerdd neu baratoi golygfeydd/gwisgoedd ar gyfer drama.

Dylid defnyddio'r adran hon ochr yn ochr â'r deunydd enghreifftiol a'r wybodaeth am adnoddau a ddarperir sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk.

Dylid defnyddio'r adran hon ochr yn ochr â'r deunydd enghreifftiol a'r wybodaeth am adnoddau a ddarperir sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk

**16.** Yn aml, bydd cyrsiau penodol neu weithgareddau gwirfoddol yn rhoi sylw i sawl agwedd ar y Craidd Dysgu. Felly, mae'n debyg y bydd y myfyrwyr celfyddydau perfformio, a grybwyllwyd yn flaenorol, yn cael sawl cyfle i weithio gydag eraill, datrys problemau a gwella eu perfformiad eu hunain.

### Mynd i'r afael ag anghenion unigol

**17.** Mae sicrhau'r **lefel gwaith** cywir yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer ysgogi dysgwyr. Mae'n rhaid i brofiadau fod yn **hygyrch, perthnasol a hylaw** iddynt, o fewn eu rhaglen dysgu gyfan. Bydd hyn yn cynnwys anghenion y bobl ifanc mwyaf galluog yn academaidd ac mewn meysydd eraill. Er enghraifft, ym maes chwaraeon, estheteg ac agweddau creadigol, bydd rhai yn ddawnus iawn ac angen cyfleoedd sy'n eu hysgogi ymhellach. Bydd pobl ifanc eraill angen profiad symlach neu ragarweiniol.

**18.** Mae'n rhaid i **drefniadau darparu cwricwlwm** hefyd fod yn hylaw i ddarparwyr, **gan osgoi gorlwytho o ran amser a chynnwys**, ond darparu cyrsiau gydag amrywiaeth o arddulliau dysgu sy'n addas ar gyfer pob person ifanc.

## Cynorthwyo'r dysgu

### Sut all darparwyr dysgu gynorthwyo'r craidd?

**19.** Mae cyfle heb ei ail i ddarparu'r Craidd Dysgu mewn rhaglenni sydd eisoes yn rhan o'r cwricwlwm. Mae'r canllawiau manwl yn Atodiad G, adran 4.7 y ddogfen hon, yn rhoi cipolwg ar hyn yng **Nghyfnod Allweddol 4**. Wrth anelu at weithredu ar lefel 14-16, gall ysgolion **adeiladu ar eu darpariaeth bresennol** ac, yn benodol, sicrhau eu bod yn darparu'r mynediad gorau posib i bob dysgwr. Wrth adolygu arferion cyfredol, dylai ysgolion nodi cryfderau a gwendidau a **blaenoriaethu** meysydd i'w datblygu yn y blynyddoedd nesaf.

**20.** Ar lefel **ôl-16**, mae pobl ifanc yn dilyn rhaglenni dysgu sy'n amrywio'n sylweddol. Yn y cyd-destun hwn, bydd angen **amrywiaeth eang o strategaethau ar gyfer darpariaeth**.

**21.** **Dylai ysgolion a cholegau sy'n treialu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) weld eu bod eisoes yn darparu'r holl Graidd bron iawn ar gyfer eu myfyrwyr CBC. Mewn sefyllfaoedd eraill, gellid cychwyn drwy ystyried pa gyfleoedd y gellid eu darparu o fewn opsiynau dysgwyr. Efallai y bydd rhai agweddau'n gofyn am ddarpariaeth arwahanol ychwanegol. Bydd angen i ysgolion a cholegau** benderfynu ar yr hyn y mae modd ymdopi ag ef yn y dyfodol agos, **ynghyd â chydnabod** goblygiadau tymor hirach **gweithredu'n llawn.**

**22.** **Yn yr un modd, dylai darparwyr dysgu seiliedig ar waith nodi pa agweddau y maent yn eu darparu eisoes, pa rai y gallent eu darparu drwy** wella arferion cyfredol yn briodol **a pha rai fyddai angen** darpariaeth ychwanegol o bosib, mewn partneriaeth **ag eraill yn y Rhwydwaith 14-19 lleol hwyrach.**

**Mae Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn gwneud gwaith datblygu a fydd yn cynorthwyo'r Craidd Dysgu 14-19 ymhellach. Mae Atodiad H, adran 4.8, y Canllaw hwn yn crynhoi'r prif feysydd gwaith.**

## Cydnabod y dysgu

### Sut bydd y cyflawniad yn cael ei gydnabod?

**23.** Mae **asesu dysgu** sy'n cynorthwyo i dywys myfyrwyr yng nghamau nesaf eu cynnydd yn elfen bwysig o unrhyw brofiad Craidd Dysgu. Mae hyn nid yn unig yn cynorthwyo pobl ifanc i **ddeall yr hyn y maent wedi'i gyflawni** a **beth yw eu her nesaf**; ond gall hefyd gynorthwyo darparwyr i **werthuso** eu **rhaglenni**.

**24.** Mae **cydnabyddiaeth ffurfiol** hefyd yn bwysig, lle bynnag bo hynny'n bosib. Gall hyn fod ar ffurf **cofnod a gynhyrchir yn lleol** o'r cyflawniad, drwy ddefnyddio Ffeiliau Cynnydd, **gwobrau lleol** fel unedau Rhwydwaith y Coleg Agored, **gwobr genedlaethol** fel Gwobr Dug Caeredin neu **gymwysterau allanol** cymeradwy fel Sgiliau Allweddol. Yn achos dysgwyr nad ydynt yn dilyn rhaglenni cyfannol fel y CBC neu Brentisiaethau Modern, dylai darparwyr dysgu ystyried sut byddant yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr achredu'r **dyfarniad hwnnw heb ormod o waith asesu.**

### Sut bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwerthuso?

**25.** Dylai darparwyr dysgu unigol, mewn partneriaeth â'u Rhwydwaith 14-19, **werthuso hyd a lled ac effeithiolrwydd** darpariaeth mewn maes a bwydo'r canlyniadau i'r **broses gynllunio 14-19 leol**. Dylai'r gwerthuso rheolaidd hwn **gynnwys dysgwyr unigol** a grwpiau pobl ifanc. Dylai hefyd ddefnyddio unrhyw werthusiadau allanol sydd ar gael fel y gwasanaeth a gynigir gan ESTYN.

**26.** Disgwylir i ddarparwyr dysgu **hunanwerthuso'n** rheolaidd dan holl drefniadau arolygu ESTYN dan y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Bydd cwestiynau allweddol i'w hateb yma'n cynnwys **ansawdd** y ddarpariaeth a ddarperir i ddysgwyr unigol, y **safonau** a gyflawnir a **chost-effeithiolrwydd** y ddarpariaeth. Mae llawlyfrau sector yn darparu gwybodaeth bellach.

### Camau wrth gynllunio a gweithredu'r Craidd Dysgu

| Maes allweddol | Camau gweithredu |
|---|---|
| Gweithio gyda **phartneriaid** yn y Rhwydwaith | • Sicrhau bod y Craidd Dysgu'n ymddangos yn glir yng **nghylch gorchwyl Rhwydwaith**, ac yn rheolaidd yn ei waith<br>• **Rhannu arferion da** sy'n berthnasol i bob darparwr.<br>• Nodi a gweithio gyda'r cyrff cenedlaethol a rhanbarthol hynny a all **gynorthwyo i ddatblygu darpariaeth**<br>• Datblygu **prosbectws o'r cyfleoedd sydd ar gael** a phrofiadau sy'n cefnogi'r Craidd Dysgu |

Dylid defnyddio'r adran hon ochr yn ochr â'r deunydd enghreifftiol a'r wybodaeth am adnoddau a ddarperir sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk

Dylid defnyddio'r adran hon ochr yn ochr â'r deunydd enghreifftiol a'r wybodaeth am adnoddau a ddarperir sydd ar gael yn www.cymru.gov.uk

| Maes allweddol | Camau gweithredu |
|---|---|
| Creu **cynlluniau** i adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar gael | • Nodi **gweithgareddau** a rhaglenni **cyfredol** sy'n gysylltiedig ag agweddau ar y Craidd Dysgu<br>• Nodi'r **adnoddau** sydd ar gael<br>• Nodi pa weithgareddau sydd **ar gael yn awr**<br>• Nodi pa feysydd sydd angen eu **datblygu ymhellach** i fod ar gael i bawb<br>• Nodi **anghenion hyfforddi staff**<br>• Drafftio cynllun gyda **nodau, graddfeydd amser** a **blaenoriaethau** tymor byr, canolig a hirdymor |
| Sicrhau bod gweithgareddau'n diwallu anghenion **dysgwyr unigol** yn effeithiol | • **Casglu gwybodaeth am ddysgwyr**, gan gynnwys eu safbwyntiau, a defnyddio hyn wrth gynllunio<br>• Rhoi sylw penodol i'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai hynny ag **anghenion ychwanegol,** gan gynnwys y mwyaf galluog<br>• Mynd i'r afael â meysydd a gweithgareddau **nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn ar gyfer pob dysgwr**<br>• Ceisio amrywio **arddulliau addysgu a dysgu** er mwyn ysgogi<br>• **Cydgysylltu profiadau dysgwyr** i ddarparu rhaglenni cydlynol ac effeithiol |
| **Asesu**, cofnodi ac achredu dysgu | • Annog dysgwyr i **osod targedau, adolygu cynnydd** a **chofnodi cyflawniadau**<br>• Darparu **ymateb** rheolaidd i ddysgwyr ar eu cynnydd.<br>• Ceisio pob dull priodol o **ardystio cyflawniad**<br>• Ystyried pa **ddulliau asesu** allai gynorthwyo i ysgogi lle nad yw ardystio ar gael |

## Elfen Allweddol 3: Y Craidd Dysgu - Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith

**Beth yw profiad sy'n canolbwyntio ar waith:**

Mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddod i wybod ac i ddeall mwy am fyd gwaith, menter ac entrepreneuriaeth, a dysgu sgiliau ar eu cyfer, yn bennaf trwy ddysgu trwy wneud, fel rheol, mewn gweithle. Mae busnes a diwydiant yn gyd-destun pwysig ar gyfer Craidd Dysgu pobl ifanc 14-19 oed. Mae'n cynnwys pob agwedd ar brofiad sy'n canolbwyntio ar waith, o'r hawl sylfaenol i gael Addysg Gysylltiedig â Gwaith i gyfnod llawn amser o ddysgu seiliedig ar waith, a gwahanol gyfuniadau rhwng y ddau beth.

**1.** Yn achos pob dysgwr 14-16 oed, mae'n rhaid i'r profiad sy'n canolbwyntio ar waith fel rhan o Lwybr Dysgu gynnwys **o leiaf Addysg Gysylltiedig â Gwaith (WRE)** a ddaeth yn rheidrwydd statudol o fis Medi 2004. Mae'r Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn cynnwys o leiaf dair wythnos o brofiad gwaith 14-19, yn cynnwys o leiaf wythnos yn ystod CA4. Bydd pobl ifanc 16-18 oed sy'n cymryd rhan yng **nghynlluniau peilot Bagloriaeth Cymru** yn cael profiad sy'n canolbwyntio ar waith fel rhan o Graidd Bagloriaeth Cymru. Mae hyn, ar y cyd â chydrannau eraill Craidd Bagloriaeth Cymru ar y lefel uwch (lefel 3) yn cyfrif fel 120 pwynt ar gyfer Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS). Bydd llawer o ddysgwyr yn cael **gwell cyfleoedd** am wahanol fathau o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith yn amrywio o gydnabod eu swyddi rhan amser i ddysgu strwythuredig seiliedig ar waith a chymryd rhan mewn rhaglenni fel **Prentisiaethau Modern.**

**2.** Mae enghreifftiau o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cynnwys:

- Hawl i **bob** dysgwr gymryd rhan mewn Addysg Gysylltiedig â Gwaith (WRE);
- Profiad gwaith estynedig am ran o'r wythnos;
- Gweithgareddau ymwybyddiaeth o fenter, entrepreneuriaeth a busnes;
- Opsiynau galwedigaethol fel rhan o Lwybrau Dysgu;
- Sbarduno profiad sy'n canolbwyntio ar waith, er enghraifft mewn Amgylcheddau Gwaith Realistig;
- Gweithgareddau ymestyn trwy glybiau Sadwrn a rhaglenni cael blas ar alwedigaeth;
- Gweithgareddau partneriaeth, gan gynnwys gweithgareddau blasu, rhwng ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith;
- Swyddi rhan-amser a dros dro;
- Hawliau drwy raglenni Craidd Bagloriaeth Cymru;
- Gweithgareddau trwy sefydliadau fel The Prince's Trust Cymru, Guides Cymru, Urdd Gobaith Cymru a gwahanol weithgareddau gwasanaethau ieuenctid;
- Gweithgareddau preswyl a/neu dramor, gan gynnwys lleoliadau gwaith.

Mae'r adran hon yn nodi sut mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cyd-fynd â'r Craidd Dysgu a sut y gellir ei ehangu a'i ymestyn i bob dysgwr

Mae'r adran hon yn nodi sut mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cyd-fynd â'r Craidd Dysgu a sut y gellir ei ehangu a'i ymestyn i bob dysgwr

**3.** Bydd angen i rwydweithiau annog gweithio mewn partneriaeth a datblygu **prosbectws o gyfleoedd ar gyfer profiad sy'n canolbwyntio ar waith** yn eu hardaloedd. Dylent ddatblygu **rhagolygon** ar gyfer profiad sy'n canolbwyntio ar waith o ran profiad gwaith, lleoliadau, swyddi rhan-amser a hyfforddiant yn y gwaith. Dylent ystyried **cynlluniau ar gyfer ymestyn profiad sy'n canolbwyntio ar waith**, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer y bobl fwyaf difreintiedig a rhai ag anghenion arbennig ac ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen gwneud penderfyniadau amserol ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr er mwyn neilltuo digon o amser ar gyfer cynllunio a pharatoi. Mewn rhaid ardaloedd, gall amgylchiadau lleol gyfyngu ar ddewis ac efallai na fydd rhai cyfleoedd ar gael oherwydd bod y gofynion ar adnoddau a chost y lle yn gwrthdaro.

**4.** Bydd angen i rwydweithiau ystyried **gwahanol ffyrdd** o ddarparu profiad sy'n canolbwyntio ar waith – er enghraifft, drwy **drefnu diwrnodau agored**, **diwrnodau rhagflas sy'n darparu sioeau teithiol ar gyfer sefydliadau, dosbarthiadau meistr** a **gweithdai**. Gallai fod yn briodol hefyd ddarparu amgylcheddau gwaith realistig yn y coleg Addysg Bellach lleol, er enghraifft. Gellid comisiynu gwaith hefyd o ddiwydiant lle gall gweithwyr proffesiynol gyda sgiliau busnes/diwydiant penodol gynorthwyo i sbarduno prosiectau a chyfrannu at yr asesiad terfynol.

**5.** Bydd gan rwydweithiau swyddogaeth bwysig wrth **sicrhau ansawdd** a phenderfynu pa weithgareddau profiad sy'n canolbwyntio ar waith ddylai gael eu cynnwys yn y prosbectws. Bydd cyflogwyr angen cymorth **i ddatblygu gallu, derbyn gwybodaeth briodol a hyfforddiant**. Dylai'r cyflogwr a'r person ifanc dan sylw gael y cyfle i gyfnewid safbwyntiau ar y gweithgaredd. Dylid annog pobl ifanc i **fyfyrio ar y gweithle** o ran cysylltiadau â chydweithwyr a/neu gwsmeriaid ac ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r cymhwysedd a enillir. Dylid **rhoi'r grym** iddynt wneud penderfyniadau am eu dyfodol a dylai systemau cyngor a gwybodaeth eu cefnogi. Bydd angen briffio cyflogwyr yn iawn ymlaen llaw, er mwyn ystyried sut i ddyrannu trefniadau **mentora/goruchwylio** a chadw llygad ar gyfleoedd i'w staff eu hunain gasglu tystiolaeth am eu **hanghenion hyfforddiant a datblygu personol**. Gall cwmnïau Gyrfa Cymru wneud cyfraniad pwysig wrth gynorthwyo'r gweithgareddau hyn.

**6.** Gall profiad sy'n canolbwyntio ar waith gyfrannu at agweddau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol llwybr dysgu unigolyn. Er enghraifft:

| | |
|---|---|
| **Ffurfiol** | Profiad sylweddol strwythuredig o ddysgu seiliedig ar waith o'r Prosbectws Gweithgareddau. Er enghraifft, gallai'r profiad fod yn 1-2 ddiwrnod yr wythnos neu'n floc parhaus o brofiad yn arwain at gymwysterau fel NVQ. |
| **Heb fod yn ffurfiol** | Gweithgareddau dysgu sy'n canolbwyntio ar waith neu weithgareddau menter sy'n cynnig ystod o sgiliau a phrofiadau penodol sy'n cyfrannu at bortffolio Sgiliau Allweddol. Byddai modd eu cofnodi fel rhan o'r Ffeil Cynnydd a gallent arwain at achrediad. Gallent hefyd gynnwys swyddi rhan-amser dysgwyr os gellir cofnodi sgiliau a phrofiad penodol a dangos tystiolaeth ohonynt. Gall dysgu fel hyn hefyd arwain at ddyfarnu unedau credyd fel Rhwydwaith y Coleg Agored. |

| | |
|---|---|
| **Anffurfiol** | Cyfnodau byr o brofiad gwaith, rhaglenni blasu gwahanol brofiadau sy'n canolbwyntio ar waith, gweithgareddau mentro tymor byr, swyddi rhan-amser lle nad yw mor hawdd cofnodi sgiliau a phrofiad penodol a dangos tystiolaeth ohonynt, a gallent orgyffwrdd â gweithgareddau cyfranogiad cymunedol dan rai amgylchiadau. |

**7.** Cefnogir yr agwedd ffurfiol ar Lwybrau Dysgu trwy ddatblygu **cynlluniau cwricwlwm strwythuredig** mewn partneriaeth â chyflogwyr trwy'r Cynghorau Sgiliau Sector (SSCs) a fydd yn cefnogi'r Llwybrau Dysgu sy'n canolbwyntio ar waith.

### Manteision posib profiad sy'n canolbwyntio ar waith

**8.** Mae *'Fframwaith ar gyfer Addysg Gysylltiedig â Gwaith i Bobl Ifanc 14-19 Oed yng Nghymru'* (ACCAC, 2002) yn nodi'r cyfleoedd y gall pobl ifanc eu cael o ddilyn profiad sy'n canolbwyntio ar waith.

**9.** Gall profiad sy'n canolbwyntio ar waith wneud cyfraniad mawr hefyd at ddatblygu **sgiliau hanfodol ehangach** dysgwyr, ac at godi lefelau cyflawniad o'u cymharu â gwaelodlin *'Sgiliau Dyfodol Cymru'* (2003). Bydd pob agwedd ar eu dysgu yn elwa. Nod *Fframwaith a Chyfarwyddyd Atodol ACCAC ar Addysg Gysylltiedig â Gwaith* a'u *Fframwaith ar gyfer Addysg a Chyngor a Chanllawiau Atodol ar Yrfaoedd* yw helpu ysgolion a cholegau i wneud darpariaeth addas.

## Sut y cyflenwir dysgu sy'n canolbwyntio ar waith

**10.** Mae llawer o'r trefniadau presennol ar gyfer profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn gyfyngedig o ran ystod, amrediad, swm ac ansawdd. Er y ceir enghreifftiau da o waith ledled Cymru mae yna sialensau sylweddol o ran ehangu a gwella'r profiad hwn. Mae'r heriau hyn yn bodoli ar lefelau lleol a chenedlaethol.

**11.** Ar lefel leol maent yn cynnwys:

- datblygu **cysylltiadau â chyflogwyr** i wella gallu cyflogwyr a darparu profiad a chymorth o ansawdd;
- gwneud y defnydd gorau o'r **ychydig y gall Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) ei gynnig**, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;
- sicrhau bod digon o **brofiad sy'n canolbwyntio ar waith** ar gael trwy **gyfrwng y Gymraeg**;
- gwneud **trefniadau teithio cost-effeithiol**, yn enwedig mewn ardaloedd gwasgaredig eu poblogaeth ac mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd;
- mynd i'r afael â goblygiadau **goruchwylio staff** a pharatoi ar gyfer **sesiynau blasu** o ran adnoddau;
- y gallu i sicrhau bod profiad sy'n canolbwyntio ar waith ar gael i bob **dysgwr sydd ag anghenion ychwanegol.**

**12.** Ar lefel genedlaethol mae'r rhain yn cynnwys:

- cydweithio â Chynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu **gofynion cwricwlaidd strwythuredig** ar gyfer enghreifftiau ffurfiol o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith, yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig;

Mae'r adran hon yn nodi sut mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cyd-fynd â'r Craidd Dysgu a sut y gellir ei ehangu a'i ymestyn i bob dysgwr

Mae'r adran hon yn nodi sut mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cyd-fynd â'r Craidd Dysgu a sut y gellir ei ehangu a'i ymestyn i bob dysgwr

- **datblygu cronfeydd data lleol** ar ffurf y cytunir arni'n genedlaethol o gyflogwyr sy'n barod i ddarparu, ac sy'n gallu darparu, profiadau effeithiol, seiliedig ar waith sy'n cael eu monitro'n effeithiol. Gydag amser, dylai hyn arwain at feincnodi a lledaenu arferion gorau yn well yn genedlaethol.

**13.** Bydd yn hanfodol cael cefnogaeth cyflogwyr ym mhob sector er mwyn sicrhau digon o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith a hwnnw o safon digon uchel fel y gall dysgwyr fanteisio ar yr agwedd hon ar y Llwybrau Dysgu. Mae hyn yn cynnwys nifer fawr o **gyrff sy'n cael arian cyhoeddus**. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried a fydd yn ofynnol, yn y dyfodol, i'r sefydliadau hyn gefnogi datblygiadau ym maes profiad sy'n canolbwyntio ar waith.

**14.** Mae **prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)** Amcan 1 ac Amcan 3 Llwybrau Dysgu dwy flynedd (o fis Mehefin 2005) sy'n cynorthwyo i gynyddu gallu ôl-16 ledled Cymru yn darparu cyfleoedd i **gryfhau cysylltiadau** â sefydliadau allweddol fel Cynghorau Sgiliau Sector, ar sail ranbarthol a chenedlaethol. Mae cyfleoedd hefyd i **fentrau lleol** gynnig opsiynau dysgu neu brofiad sy'n canolbwyntio ar waith. Bydd y datblygiadau hyn yn ffurfio rhan o'r profiad mewn Rhwydweithiau 14-19 lleol sy'n cymryd rhan. Bydd disgwyl i bob rhwydwaith ddatblygu cysylltiadau a gweithgareddau o'r fath. Wrth i Lwybrau Dysgu 14-19 gael eu datblygu bydd cymorth ychwanegol yn cael ei dargedu at hyn drwy gyllid sydd ar gael mewn ardaloedd Rhwydwaith. Bydd y cyllid a dderbynnir yn amodol ar eu llwyddiant yn hyn o beth.

**15.** Mae'n ddyletswydd ar y rhai hynny sy'n trefnu gweithgareddau profiad sy'n canolbwyntio ar waith i sicrhau bod lleoliadau'n briodol. Dylent sicrhau, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, nad yw'r bobl ifanc yn agored i unrhyw risgiau i'w **hiechyd a diogelwch.** Lle nodir safonau diogelwch penodol, er enghraifft yr angen am ddillad diogelwch gorfodol neu'r defnydd gorfodol o offer amddiffyn y llygaid a'r clustiau, dylid ystyried y rhain wrth gynllunio'r cwricwlwm.

**16.** Lle mae pobl ifanc yn astudio y tu allan i'w prif ganolfan ddysgu, bydd angen trefnu **yswiriant** addas a digonol ychwanegol. Dylai partneriaid drafod hyn i gadarnhau a yw'r trefniadau yswiriant yn ddigonol.

**17.** Dylai partneriaid sicrhau bod gweithdrefnau **amddiffyn plant** cadarn ar waith lle mae oedolion yn gweithio gyda phobl ifanc. Yn benodol, dylai partneriaid gadw at ganllawiau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wrth recriwtio ac archwilio cefndir staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Bydd canllawiau pellach yn dilyn wrth i argymhellion ymchwiliad Michael Bichard gael eu gweithredu.
Er mwyn amddiffyn oedolion a disgyblion, dylai'r holl oedolion sy'n goruchwylio sicrhau, lle bynnag y bo hynny'n bosib, nad ydynt ar eu pen eu hunain gyda pherson ifanc.

**18.** Mae'r profiad sy'n canolbwyntio ar waith sydd ar gael yn golygu y bydd pobl ifanc, o bryd i'w gilydd, i ffwrdd o'r brif ganolfan ddysgu. Mae'n parhau'n bwysig bod **presenoldeb** yn cael ei wirio a chofnodion yn cael eu cadw.
Dylai partneriaid sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer rhoi gwybod am absenoldeb. Dylid bod yn ofalus i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol gyda phobl ifanc dan 16 oed.

**Bydd canllawiau pellach ar Brofiad sy'n Canolbwyntio ar Waith yn cael eu cyhoeddi yn 2007 mewn perthynas â:**

- **sicrhau trefniadau yswiriant, iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant priodol a monitro a chofnodi presenoldeb fel sy'n briodol.**

## Elfen Allweddol 3: Y Craidd Dysgu - Cyfranogiad Cymunedol

Mae'r adran hon yn nodi sut mae cyfranogiad cymunedol yn cyfrannu at y Craidd Dysgu o 14-19 a sut bydd yn cael ei ymgorffori i Lwybrau Dysgu

### Beth yw cyfranogiad cymunedol

Mae cyfranogiad cymunedol yn cynnig profiad sy'n helpu pobl ifanc i ddeall beth y mae bod yn ddinesydd yn ei olygu ac i ddatblygu hunanymwybyddiaeth am fyw a chymryd rhan effeithiol a chyfrifol mewn cymuned.

**1.** Mae cyfranogiad cymunedol yn **ofynnol** i'r rhai sy'n cymryd **Bagloriaeth Cymru** ar ôl 16 oed ac, wrth i Lwybrau Dysgu 14-19 ddatblygu, bydd yn dod yn **ychwanegiad** i bawb (gweler adran 1.3). Bydd yn rhan o agweddau heb fod yn ffurfiol neu anffurfiol Llwybr Dysgu ond, yn achos Craidd Bagloriaeth Cymru, sy'n gymhwyster cydnabyddedig, mae'n rhan o'r elfen ffurfiol.

**2.** Gall cyfranogiad cymunedol gynnwys **amrediad eang o brofiadau** e.e.:

- Cynlluniau cyfeillio gyda chyfoedion neu blant iau;
- Gwaith gwirfoddoli gyda phobl hŷn, neu bobl ifanc ag anghenion arbennig;
- Bod yn aelod o bwyllgor i drefnu digwyddiadau neu reoli rhyw fudiad;
- Bod yn aelod o gyngor ysgol, fforwm ieuenctid neu grŵp pobl ifanc;
- Bod yn aelod o Brif Gyngor y Ddraig Ffynci;
- Helpu â chynllun gwyliau;
- Bod yn swyddog yn yr ysgol neu glwb ieuenctid;
- Bod yn arweinydd tîm mewn mudiad fel y Sgowtiaid neu'r Geidiaid;
- Gweithio i wella'r amgylchedd yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang;
- Codi arian i helpu eraill trwy fudiadau elusennol;
- Bod yn ofalwr ifanc;
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn gwersyll haf.

Gall y gweithgareddau hyn fod yn rhai anffurfiol neu gallant arwain at ennill credyd trwy raglenni mwy strwythuredig, trwy gyfrannu at gymwysterau Sgiliau Allweddol neu drwy ddatblygu portffolio yn dangos sgiliau a phrofiad.

**3.** Gall hefyd gynnwys **cynlluniau penodol** sy'n arwain at achrediad trwy, er enghraifft:

- Cynllun Gwobr Dug Caeredin;
- Operation Raleigh;
- Dyfarniadau'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Gwobrau (ASDAN);

Mae'r adran hon yn nodi sut mae cyfranogiad cymunedol yn cyfrannu at y Craidd Dysgu o 14-19 a sut bydd yn cael ei ymgorffori i Lwybrau Dysgu

- Gwobr Baden Powell;
- Gwirfoddolwyr y Mileniwm;
- Cynlluniau eraill y dyfarnir credydau ar eu cyfer, er enghraifft rhaglenni rheoli Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN).

**4.** Dylai Rhwydweithiau 14-19, drwy weithio ar y cyd â'r Bartneriaeth Pobl Ifanc, ddatblygu a chynnal **Prosbectws Gweithgareddau** a fydd yn cynnwys cyfleoedd cyfranogiad cymunedol yn eu hardal a sicrhau eu bod yn defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth leol i sicrhau profiadau heb eu hail. Dylid datblygu'r cyfleoedd sydd ar gael drwy **drafodaeth** barhaus ac ystyrlon gydag **ystod eang o bobl ifanc**, a dylid ystyried eu safbwyntiau lle bynnag y bo hynny'n bosib. Pan nad yw'n bosib ystyried eu safbwyntiau, dylid rhoi ymateb ynghylch y rhesymau i'r bobl ifanc cyn gynted â phosib ar ôl y drafodaeth.

## Sut y datblygir cyfranogiad cymunedol: cydnabod profiad a gafwyd eisoes

**5.** Bydd llawer o bobl ifanc eisoes yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau sy'n cyfrannu at gyfranogiad cymunedol mewn gwahanol agweddau ar eu bywydau. Bwriad Llwybr Dysgu yw **canfod a chydnabod y profiadau a'r cyfleoedd y mae llawer o ddysgwyr yn eu cael ac nad ydynt eisoes yn hysbys i'r sefydliad dysgu arweiniol nac yn cael eu gwerthfawrogi ganddo, a chymryd rhan ragweithiol yn gwella ac yn ehangu profiadau** pobl ifanc sydd heb gael cymaint o brofiadau fel hyn. Yn achos pobl ifanc 14-16 oed a rhai sydd mewn ysgolion neu golegau ôl 16, efallai y bydd cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel cynlluniau cyfeillio gyda disgyblion iau mewn ysgolion. Os oes gan bobl ifanc gyfrifoldebau gofalu, mae'r Llwybrau Dysgu'n cynnig ffordd i gydnabod y sgiliau a'r profiad sydd ganddynt ac, mewn rhai achosion, i'w hachredu.

**6.** Gellir cynnwys y profiadau hyn fel rhan o'r **profiadau cynlluniedig** ar gyfer Llwybr Dysgu trwy drafod gyda'r Anogwr Dysgu, yn enwedig os gellir nodi sut y bydd y person ifanc yn dysgu o'r profiad. Gall cyfranogiad cymunedol gyfrannu at bob agwedd ar Lwybrau Dysgu.

| | |
|---|---|
| **Ffurfiol** | Cydran hanfodol o CBC yn arwain at CBC. Cyfrannu at gymwysterau Sgiliau Allweddol |
| **Heb fod yn ffufiol** | Cynlluniau penodol yn arwain at achrediad fel Gwobr Dug Caeredin, Operation Raleigh, OCN, ASDAN ac ati. |
| **Anffurfiol** | Gwahanol brofiadau sydd â manteision sylweddol ond nad ydynt, o anghenraid, yn arwain at ennill credyd, er enghraifft profiadau preswyl, gwella darnau tir cymunedol, cynlluniau cyfeillio. |

**7.** Dylai pob person ifanc gael cyfle i gynllunio a chymryd rhan mewn gwahanol brofiadau i'w helpu i ddatblygu'r **sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer bywyd a gwaith**, ac i gyfrannu'n benodol at ddatblygiad **Sgiliau Allweddol**. Yn ogystal, bydd angen datblygu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol **trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**8.** Hefyd, gellir cofnodi'r sgiliau a'r wybodaeth y mae'r dysgwr yn eu hennill trwy brofiadau cyfranogiad cymunedol mewn **Ffeil Cynnydd**, ac mae 'e-fersiwn' o hon yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

## Y Bartneriaeth Pobl Ifanc (PPI) a Llwybrau Dysgu

**9.** Yn achos dysgwyr nad ydynt yn cael cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol, bydd y Bartneriaeth Pobl Ifanc (PPI) yn chwarae rhan bwysig yn **nodi neu'n comisiynu gweithgareddau perthnasol** a fydd yn rhan o'r elfennau heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol mewn **Prosbectws Gweithgareddau**.

**10.** Mae gan **waith ieuenctid** gyfraniad i'w wneud ledled y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir o ran datblygu dysg a chyflawniad pobl ifanc. Darperir hyn fel arfer drwy gyd-destunau addysgol dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol ac mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r cyfraniad y gellir ei wneud at addysg ffurfiol.

**11.** Gall gwaith ieuenctid gyfrannu at feysydd allweddol o'r agenda Llwybrau Dysgu: er enghraifft fel cyfranogwr at swyddogaeth yr **anogwr dysgu; cymorth personol a chyfranogiad cymunedol**. Mae gweithwyr ieuenctid yn cynorthwyo ac yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd dysgu datblygiad cymdeithasol a phersonol a gall rhai, o bryd i'w gilydd, arwain at ddyfarnu credyd. Gall profiad a mwynhad pobl ifanc mewn gweithgareddau hefyd eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau, a fydd yn gwella eu Llwybr Dysgu.

**12.** Bydd darparu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol ar raddfa mor eang yn golygu y bydd angen **datblygu gallu** ym mhob sector. Wrth i Lwybrau Dysgu 14-19 gael eu datblygu bydd cymorth ychwanegol yn cael ei dargedu at hyn drwy sicrhau bod cyllid ar gael i Rwydweithiau. Bydd y cyllid a dderbynnir yn amodol ar eu llwyddiant yn hyn o beth.

**13.** Mae'n ddyletswydd ar y rhai sy'n trefnu gweithgareddau cyfranogiad cymunedol i sicrhau bod y lleoliadau'n briodol. Mae gan lawer o sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau cyfranogiad cymunedol drefniadau **iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac yswiriant** ar waith.

**14,** Dylent sicrhau, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, nad yw pobl ifanc yn agored i risgiau i'w **hiechyd a diogelwch**. Lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'w prif ganolfan ddysgu, dylid sicrhau bod yswiriant addas a digonol. Dylai partneriaid drafod hyn i gadarnhau a yw'r trefniadau **yswiriant** yn ddigonol.

**15.** Dylai partneriaid sicrhau bod gweithdrefnau **amddiffyn plant** cadarn ar waith lle mae oedolion yn gweithio gyda phobl ifanc. Yn benodol, dylai partneriaid gadw at ganllawiau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wrth recriwtio ac archwilio cefndir staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Bydd canllawiau pellach yn dilyn wrth i argymhellion ymchwiliad Michael Bichard gael eu gweithredu.

**Bydd canllawiau pellach ar Gyfranogiad Cymunedol yn cael eu cyhoeddi yn 2007 mewn perthynas â:**

- **sicrhau trefniadau yswiriant, iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant priodol a monitro a chofnodi presenoldeb fel sy'n briodol.**

Mae'r adran hon yn nodi sut mae cyfranogiad cymunedol yn cyfrannu at y Craidd Dysgu o 14-19 a sut bydd yn cael ei ymgorffori i Lwybrau Dysgu

# Adran 2
# Cymorth i Ddysgwyr





Cynhyrchwyd y gwaith celf gan Nick Morris o Ysgol y Frenhines Elizabeth Cambria, Caerfyrddin, fel rhan o'i waith cwrs TGAU

## ADRAN 2: CYMORTH I DDYSGWYR

### Elfennau Allweddol 4, 5, 6: Anogwr Dysgu, Cymorth Personol a Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd am Yrfaoedd

**Beth yw cymorth i ddysgwyr:**

Mae cymorth i ddysgwyr 14-19 yn cynnwys cyfuniad unigryw o gymorth i ddysgu, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd am yrfaoedd, a chyfle i gael cymorth personol fel y gall pob dysgwr gael y wybodaeth, y cyngor a'r cyfarwyddyd y mae arnynt eu hangen i wneud dewisiadau da, i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu ac i gyflawni eu potensial.

**1.** Mae gan bob person ifanc hawl i gael **gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd o ansawdd da** i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus a realistig ac i'w helpu i aros ym myd dysgu.

**2.** Mae cyfuniad o gyngor, cymorth a chyfarwyddyd sy'n diwallu anghenion y dysgwr unigol yn elfennau allweddol mewn Llwybr Dysgu unigol. Maent yn cefnogi ac yn adeiladu ar drefniadau sydd eisoes ar gael i bobl mewn ysgolion a cholegau ac mewn dysgu seiliedig ar waith, yn ogystal ag i bobl oddi allan i'r meysydd hynny – pobl sy'n gweithio neu bobl sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith.

**3.** Bydd gan bob dysgwr **hawl sylfaenol** i gael cymorth Anogwr Dysgu, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, a chymorth personol, gyda darpariaeth ychwanegol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion ychwanegol. Dylai'r gefnogaeth fod yn ddigon **hyblyg** i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol pa un bynnag a ydynt mewn ysgol, mewn sefydliad dysgu arall neu yn rhywle arall, gan gydnabod cyd-destunau sefydliadol a lleol.

**4.** Dylai rhieni a gofalwyr eraill gael gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr a byddant yn bartneriaid pwysig yn helpu dysgwyr i wireddu eu potensial.

Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi'r trefniadau i ddysgwyr gael cymorth i ddysgu, cymorth personol a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd am yrfaoedd

| | Anogwr Dysgu | Cymorth Personol | Cynghorydd Gyrfa |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth Allweddol** | *Cymorth cyson ac effeithiol, sy'n rhoi anghenion y dysgwr yn gyntaf, ar gyfer pobl ifanc ac ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg* | | |
| | **Helpu'r dysgwr i bennu targedau a datblygu Llwybr Dysgu i'w cyrraedd.**<br>Rhoi anghenion dysgu'r dysgwr yn gyntaf.<br>Helpu'r dysgwr i ddatblygu sgil dysgu.<br>Deall pob agwedd ar Lwybrau Dysgu.<br>Gwerthfawrogi dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol.<br>Ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael yn y ddewislen leol.<br>Deall pobl ifanc a'u hanghenion.<br>Deall arddulliau dysgu a'u goblygiadau o ran dewis rhaglenni.<br>Deall llwybrau mynediad at gymorth personol.<br>Deall swyddogaeth a gwerth cyngor gyrfaoedd proffesiynol yn sail ar gyfer y Llwybr Dysgu. | **Helpu pobl ifanc i ddatblygu atebion i broblemau personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol.**<br>Deall anghenion emosiynol, cymdeithasol a chorfforol pobl ifanc a rhoi anghenion y dysgwr yn gyntaf.<br>Ar gael pan a lle y mae angen cymorth ar bobl ifanc.<br>Gallu cyfeirio ymlaen at bobl mwy arbenigol os bydd angen.<br>Darparu amrediad o ddarpariaeth arbenigol.<br>Ymwybodol o faterion cyfrinachedd ac amddiffyn plant a materion diogelwch cymunedol. | **Darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol i ddysgwyr ar yr holl opsiynau sydd ar gael o ran gyrfa a dysgu.**<br>Helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus a realistig fel rhan o broses barhaus cynllunio gyrfa.<br>Cyfrannu at ganlyniadau dysgu addysg gysylltiedig â gwaith trwy gydweithio â sefydliadau dysgu a chyflogwyr i gefnogi lleoliadau profiad gwaith, trefnu gweithgareddau ymwybyddiaeth o fusnes, menter ac entrepreneuriaeth, mentora gan gyflogwyr, cefnogi'r cwricwlwm a lleoliadau mewn diwydiant i athrawon a darlithwyr.<br>Swyddogaeth statudol yn cefnogi pobl ifanc mewn cyfnodau pontio, yn enwedig 16+.<br>Gall fod yn Anogwr Dysgu i bobl ifanc, yn enwedig y tu allan i'r sefydliad dysgu ffurfiol.<br>Ymwybodol o wahanol fanteision ariannol i gefnogi dysgwyr ôl 16 a'u helpu i barhau mewn addysg. |
| **Sgiliau/cymwyster-au ychwanegol** | Cymhwyster Anogwr Dysgu | Sgiliau penodol i weithio gyda phobl ifanc | Cymhwyster cynghorydd gyrfa. Cymhwyster cynghorwyr Porth Ieuenctid |
| **Methodoleg** | Gweithio fel rhan o dîm mewn sefydliad dysgu o dan weithiwr proffesiynol dysgu i sicrhau cysondeb a pharhad.<br>Cymorth rheolaidd i werthfawrogi dysgu, annog y dysgwr a goresgyn unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu.<br>Gallu gweithio gyda pherson ifanc i benderfynu ar gymorth personol priodol.<br>Gallu cyfeirio at weithiwr proffesiynol cymorth personol gyda chaniatâd y person ifanc.<br>Gweithio gyda dysgwr i ddatblygu Ffeil Cynnydd.<br>Cadw cofnod o Lwybrau Dysgu a'u diweddaru ar gyfer sefydliadau dysgu arweiniol.<br>Gall y timau gynnwys cymorth mentora ychwanegol gan fentoriaid busnes neu fyfyrwyr addysg uwch sy'n gweithredu fel mentoriaid.<br><br>Y person ifanc yno yn wirfoddol gan amlaf.<br>Gwahanol fathau o gymorth yn dal ar gael i bobl ifanc.<br>Asiantaethau arbenigol, yn cynnwys y sector gwirfoddol, i sicrhau gwasanaethau cefnogol trwy'r ardal gyfan, e.e. cwnsela iechyd, atal cenhedlu brys, cymorth iechyd meddwl, cymorth i rai sy'n camddefnyddio sylweddau, gofal cymdeithasol etc | Pobl ifanc yn cael gwybod bod cymorth ar gael - yn y sefydliad dysgu a'r tu allan iddo.<br>Pobl ifanc yn gallu cael cymorth pan fydd angen.<br>Cyfeirio at weithiwr proffesiynol arall gyda chaniatâd y person ifanc, pan fydd hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith.<br>Cyfeirio gan rieni.<br>Mae'n cynnig parhad a thegwch.<br>Gellir cyfeirio yn ôl at yr Anogwr Dysgu gyda chaniatâd y person ifanc.<br>Cefnogaeth sawl gwasanaeth mwy arbenigol i ddiwallu anghenion y bobl ifanc. | Gweithio y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliadau dysgu mewn cydweithrediad ag Anogwr Dysgu a darparwyr Cymorth Personol i sichrhau'r budd mwyaf i'r dysgwr.<br>Cydweithio'n agos â'r Anogwr Dysgu i sicrhau dealltwriaeth o Lwybrau Dysgu, arddulliau dysgu, galluoedd a diddordebau'r person ifanc - a'r goblygiadau o ran dewis gyrfa.<br>Mae'n rhoi cymorth personol a gall gyfeirio'r person ifanc at asiantaethau cymorth eraill gyda'i ganiatâd/ chaniatâd. |

*Troednodiadau*

*1. Mae'r cyngor, y cymorth a'r cyfarwyddyd a nodir yma yn adeiladu ar y systemau darpariaeth a geir eisoes ac yn ychwanegu atynt. Mae'n gwella'r ddarpariaeth ac yn gwneud cyfraniad ychwanegol lle cafwyd darpariaeth gyfyngedig yn y gorffennol, o bosib. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at y gwaith o gyflenwi Ymestyn Hawliau i bobl ifanc yng Nghymru a swyddogaeth y Bartneriaeth Pobl Ifanc.*

*2. Weithiau, mae'n bosib mai'r un un fydd yn darparu rhai agweddau ar gymorth dysgu, cymorth personol a chyngor a chyfarwyddyd gyrfa.*

Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi'r trefniadau i ddysgwyr gael cymorth i ddysgu, cymorth personol a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd am yrfaoedd

## Elfen Allweddol 4: Cymorth Anogwr Dysgu

**Beth yw cymorth anogwr dysgu arbenigol:**

Mae swyddogaeth yr anogwr dysgu yn allweddol i gefnogi'r dysgwr mewn agweddau ar y Llwybr Dysgu cyfan sy'n ymwneud â dysgu, gan ganolbwyntio ar hybu gallu'r person ifanc i ddysgu.

**1.** Prif swyddogaeth yr anogwr dysgu yw helpu'r dysgwr i **bennu targedau** a **datblygu llwybr dysgu** i'w cyflawni. Bydd angen amrediad eang o sgiliau ar anogwyr dysgu a bydd anghenion dysgu'r dysgwr yn ganolog i'w holl waith. Mae llwyddiant cymorth anogwyr dysgu yn dibynnu ar integriti darpar anogwyr dysgu o bob cefndir proffesiynol i weithredu'n **ddiduedd** er budd y dysgwr, gan gynnwys darparu mynediad llawn i wybodaeth ac arweiniad ar y ddewislen opsiynau ledled pob maes.

**2.** Nid un person fydd yn gweithredu fel anogwr dysgu o anghenraid - gellir **gweithredu fel tîm** i gyflwyno'r cymorth fel y gall dysgwyr gael cymorth ar wahanol amserau, mewn gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol lefydd. Bydd angen i Rwydweithiau ystyried y ffordd orau o gydgysylltu'r gwaith hwn a chynnig cymorth parhaus.

### Pwy all fod yn anogwr dysgu

**3.** Gall amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, o bob math o gefndiroedd a chyda lefelau amrywiol o brofiad a chymwysterau proffesiynol fod â'r sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu cymorth anogwr dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys athrawon, staff gwasanaeth gyrfaoedd, gweithwyr ieuenctid, pobl â hyfforddiant gwaith cymdeithasol, cynghorwyr, cynorthwywyr dysgu, gweithwyr cymorth mewn ystafelloedd dosbarth a hyfforddwyr yn y gweithle. Efallai fod gan eraill o'r tu allan i faes addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol y set angenrheidiol o sgiliau a gwybodaeth i wneud y gwaith.

**4.** Mae tîm Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW) yn cydweithio'n agos â'r tîm Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn 2005 fe gomisiynodd y Prosiect Creyd Anogwr Dysgu i nodi'r dysgu oedd ei angen i fod yn Anogwr Dysgu cymwys, ac i'w fynegi yn nhermau'r CQFW fel fframwaith dysgu hyblyg.
Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yng ngham gweithredu'r broses o ddatblygu Anogwyr Dysgu.

**5.** O leiaf yng nghyfnodau datblygu cynnar y rhaglen, bydd angen i anogwyr dysgu allu dilyn y cwrs **hyfforddi** hwn yn fuan ar ôl cychwyn ar eu gwaith, trwy dderbyn hyfforddiant a/neu gydnabod dysgu blaenorol, gan ddibynnu beth sy'n bridol ac ar gael ar y pryd. Bydd angen i Rwydweithiau sicrhau bod y rhai sydd wedi'u hyfforddi'n gallu gweithio gydag eraill nad ydynt wedi cael eu hyfforddi yn y cyfnod hwn o bosib. Dylai pob Rhwydwaith, fel rhan o'r broses o nodi'r rhai sy'n

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau i ddysgwyr allu trafod eu dysg a'u cynnydd yn rheolaidd a sut bydd hynny'n cydweddu ag agweddau eraill ar gymorth

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau i ddysgwyr allu trafod eu dysg a'u cynnydd yn rheolaidd a sut bydd hynny'n cydweddu ag agweddau eraill ar gymorth

addas ar gyfer hyfforddiant anogwr dysgu, gynnig rhaglen **gynefino**.
Mae Rhwydweithiau, mewn partneriaeth â'r tîm Llwybrau Dysgu 14-19, wedi datblygu deunydd hyfforddi addas. Dylai pob anogwr dysgu o leiaf fod wedi derbyn yr hyfforddiant hwn cyn gweithio fel anogwr dysgu.

**6.** Bydd yn rhaid i bob anogwr dysgu, waeth a fydd wedi'i hyfforddi ai peidio, ystyried gofynion penodol y rhestr sydd wedi'i nodi yn yr unedau hyfforddi. Mae'n hanfodol i unrhyw un sydd am wneud gwaith anogwr dysgu gael **digon o amser a hyfforddiant** i roi cymorth o ansawdd da i ddysgwyr. Mae cyllid i gynorthwyo hyfforddi anogwyr dysgu ar gael fel rhan o'r prosiectau ESF Amcan 1 ac Amcan 3 cyfredol.

**7.** Eisoes, sefydlwyd cynlluniau arloesol fel y gall myfyrwyr Addysg Uwch (AU) a chynrychiolwyr busnesau gydweithio â dysgwyr mewn swyddogaethau sy'n cynnwys agweddau ar gymorth Anogwyr Dysgu. Dylent gydweithio â sefydliadau dysgu arweiniol i ddatblygu'r rhaglenni hyn a rhaglenni tebyg ymhellach. Bydd myfyrwyr AU ac eraill sy'n gwneud gwaith **mentora** yn rhoi cymorth ychwanegol gwerthfawr a bydd angen iddynt weithio fel rhan o dîm yr anogwyr dysgu. Dylai pawb sy'n gwneud gwaith mentora gael digon o hyfforddiant. Ni fydd eu gwasanaeth yn cyrraedd yr isafswm a ddisgwylir gan brif anogwr dysgu.

**Ceir swydd ddisgrifiad posib ar gyfer anogwr dysgu yn Atodiad D, Adran 4.4. Ceir cymhariaeth rhwng swyddogaeth yr anogwr dysgu a'r tiwtor personol CBC yn Atodiad J. Gellir gweld yr unedau hyfforddi manwl sy'n sail i'r swyddogaeth yn www.cymru.gov.uk**

## Sut y cyflwynir cymorth anogwr dysgu

**8.** Bydd angen i bob sefydliad dysgu arweiniol ystyried sut i sicrhau bod cymorth anogwyr dysgu cymwysedig ar gael i'r dysgwyr y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i sefydliadau fel ysgolion a cholegau sy'n sefydliadau dysgu arweiniol ar gyfer nifer fawr o ddysgwyr. Mae'n bosib mai'r un un fydd yn rhoi cymorth anogwr dysgu, cymorth personol a chymorth a chyfarwyddyd gyrfa i rai dysgwyr, ac y rhoddir peth o'r cymorth hwn fel ychwanegiad i'r cymorth cyfredol a roddir i ddysgwyr. Y ffordd orau o ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr fydd defnyddio sgiliau ac arbenigedd penodol gwahanol wasanaethau cymorth a amlinellir yn y canllawiau hyn.

### Sut y bydd yr anogwr dysgu yn helpu'r dysgwr

**9.** Dylai fod gan bob dysgwr hawl i gymorth i ddatblygu Llwybr Dysgu trwy:

- fynediad i **gymorth penodol gan anogwr dysgu,** naill ai yn unigol neu fel rhan o grŵp bychan;
- **mynediad i gymorth galw-heibio** gan anogwr dysgu;
- cyfleoedd i rai y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i gael eu **cyfeirio'n ffurfiol;**
- mynediad i **gynlluniau cymorth** eraill, sydd ar gael trwy gymorth personol, Gyrfa Cymru a llwybrau arloesol eraill sy'n defnyddio'r dechnoleg fodern.

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau i ddysgwyr allu trafod eu dysg a'u cynnydd yn rheolaidd a sut bydd hynny'n cydweddu ag agweddau eraill ar gymorth

**10.** Mae anogwyr dysgu'n rhoi **gwasanaeth sy'n ychwanegol** at y gwasanaeth a geir gan athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr ac eraill sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd y tu allan i sefydliadau dysgu, fel y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieuenctid, y Gwasanaeth Lles Addysg, gweithwyr cymunedol a gwirfoddol a chynghorwyr Gyrfa Cymru. Dylai anogwyr dysgu weithio mewn **partneriaeth** â systemau cymorth bugeiliol mewn sefydliadau dysgu ac mewn agweddau eraill ar fywydau'r bobl ifanc lle bo'n berthnasol.

## Sut bydd pobl ifanc yn cael cymorth anogwyr dysgu

| MYNEDIAD 1 | MYNEDIAD 2 | MYNEDIAD 3 |
|---|---|---|
| *Hawl sylfaenol i bawb*<br>Cymorth a chyfarwyddyd i benderfynu ar Lwybr Dysgu sy'n diwallu anghenion dysgwyr ac ymyrraeth a chefnogaeth strwythuredig ar bwyntiau allweddol trwy'r cyfnod 14-19. | Gellid cael man cynghori *'galw-heibio'* yn ystod yr wythnos mewn ysgolion/colegau, e.e. sesiynau amser brecwast/cinio a gyda'r nos.<br>Gallai'r rhain gydweithio â chlybiau/mentrau cymunedol eraill ar ôl oriau ysgol neu goleg a bod yn rhan o'r cymorth a roddir gan y Prosbectws Gweithgareddau.<br>Bydd hyn yn gysylltiedig hefyd â mentrau cymorth eraill fel Gyrfa Cymru Ar-lein.<br>Gwasanaeth negeseuon testun/e-bost yn enwedig ar gyfer rhai sydd wedi'u colli o'r system, h.y. dim mewn ysgol/coleg/amgylchedd dysgu neu hyfforddi.<br>O dan rai amgylchiadau, gallai orgyffwrdd â darpariaeth galw-heibio cymorth personol. | Gallai pobl ifanc gael eu *cyfeirio'n ffurfiol,* er enghraifft, gan:<br>• timau rheoli a chynhwysiant bugeiliol ysgolion/colegau;<br>• cyflogwyr/darparwyr addysg seiliedig ar waith;<br>• staff Gyrfa Cymru;<br>• Swyddog Lles Addysg;<br>• rhieni/gofalwyr.<br>Byddai'r man cyfeirio hwn yn canfod, er enghraifft, bobl ifanc sydd:<br>• wedi dewis llwybr anaddas;<br>• yn gyndyn o ddysgu;<br>• yn ymddangos fel pe baent yn eu datgysylltu eu hunain oddi wrth y cwricwlwm;<br>• heb fod yn cyflawni eu llawn botensial. |

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau i ddysgwyr allu trafod eu dysg a'u cynnydd yn rheolaidd a sut bydd hynny'n cydweddu ag agweddau eraill ar gymorth

## Swyddogaeth ysgolion, sefydliadau dysgu arweiniol eraill a darparwyr eraill

**11.** Bydd angen iddynt:

- **ddiffinio'n glir swyddogaeth** yr anogwr dysgu yn y sefydliad dysgu ac yn y cyd-destun polisi cenedlaethol;
- helpu eu **staff** eu hunain i **ddeall** swyddogaeth yr anogwr dysgu trwy gyfarwyddyd a hyfforddiant addas;
- sefydlu trefniadau ar gyfer **cyfeirio dysgwyr** at yr anogwyr dysgu a chlustnodi anogwr dysgu ar gyfer dysgwyr;
- trefnu bod **digon o amser, lle a chyfleusterau** i gael cyfarfodydd rheolaidd, un-i-un ac mewn grwpiau, rhwng anogwyr dysgu a'r dysgwyr unigol;
- sefydlu **trefniadau** ar gyfer dysgwyr gyda sefydliadau eraill a rhieni /gofalwyr, yn ôl yr angen, i gefnogi anghenion dysgwyr;
- sefydlu systemau ar gyfer **pennu targedau** ac ar gyfer **olrhain cynnydd** dysgwyr unigol. Dylid cytuno ar y rhain gyda'r dysgwr a dylent adlewyrchu protocolau gwybodaeth a dysgu a chanllawiau 'Cadw mewn Cysylltiad' ar gyfer Partneriaethau Pobl Ifanc;
- cyfrannu at ddatblygiad systemau trefnus ar gyfer **cadw cofnodion**;
- fel rhan o drefniadau presennol y sefydliad, dylent gael mynediad i **ddatblygiad a hyfforddiant proffesiynol** yn cynnwys y cyfle i ymgymryd â chymhwyster achrededig ar gyfer swydd anogwr dysgu.

**12.** Bydd angen sicrhau bod anogwyr dysgu'n cael **nifer rhesymol o achosion** a sicrhau bod y cymorth a roddir yn cyfrannu'n effeithiol at allu'r person ifanc i ddysgu.

**13.** Bydd angen i Rwydweithiau 14-19 ddatblygu ffyrdd i sicrhau bod swyddogaeth yr anogwr dysgu'n datblygu ac yn cael ei chyflawni yn unol â'r canllawiau hyn ac unrhyw ganllawiau dilynol. Er mwyn cynorthwyo gyda chynnydd y datblygiadau hyn, bydd cymorth ychwanegol yn cael ei dargedu at ddatblygu swyddogaeth yr anogwr dysgu fel rhan o ddyraniad cyllid y trefniadau Llwybrau Dysgu. Bydd yn rhaid i Rwydweithiau allu dangos eu bod yn gallu darparu'r datblygiadau hyn yn llwyddiannus i gael y cyllid hwn.

## Elfen Allweddol 5: Mynediad i Gymorth Personol

**Beth yw cymorth personol:**

Mae cymorth personol yn elfen allweddol ym mhob Llwybr Dysgu. Dylai sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad i wasanaethau neu bobl sy'n eu helpu i ddatblygu atebion i'r problemau personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol sy'n eu rhwystro rhag cyflawni eu potensial. Dylai hefyd eu helpu i ddatblygu sgiliau'r dysgwr i gael, adfer a defnyddio gwybodaeth yn effeithiol ac i wneud penderfyniadau realistig a gwybodus.

**1.** Mae gan bob dysgwr hawl i gael cymorth personol, er na fydd angen i bob dysgwr fanteisio ar y gwasanaethau hyn. Bydd y rhai sy'n manteisio ar y gwasanaethau angen **cymorth ar wahanol lefelau** yn amrywio o gael gwybod lle i gael gwybodaeth, rhywun i wneud dim ond gwrando ar broblem, i gymorth arbenigol fel cwnsela, cymorth iechyd meddwl, cyngor am iechyd rhywiol neu ofal cymdeithasol.

### Sut y darperir cymorth personol

**2.** Ar hyn o bryd mae nifer o sefydliadau, yn cynnwys ysgolion a cholegau, yn darparu sawl math amrywiol o gymorth personol. Mae llawer o'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu gan bartneriaid yn y Partneriaethau Pobl Ifanc, gan gynnwys y gwasanaeth ieuenctid, a bydd gan y rhain ran allweddol yn y gwaith o baratoi dull strategol o **wella gwasanaethau cymorth personol** fel rhan o'r Llwybrau Dysgu. Mae cydgysylltu'r gwasanaethau hyn a sicrhau eu bod ar gael i bob person ifanc yn swyddogaeth allweddol i sefydliadau o fewn y PPI. Nid yw'n ymwneud â phwy sy'n arwain yn unig, ond sut mae gwasanaethau yn cydweithio os na ellir delio â'r mater yn y man cyswllt cyntaf.

**3.** Dylai gwasanaethau cymorth personol fod yn **gyfrinachol** ac eithrio os oes materion yn ymwneud ag amddiffyn plant a diogelwch cymunedol yn codi. Mae'r Partneriaethau Pobl Ifanc yn datblygu protocolau rhannu gwybodaeth a fydd yn helpu pobl sy'n rhoi cymorth personol i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol o ran **rhannu gwybodaeth**.

**4.** Gall fod ar bobl ifanc angen gwahanol lefelau o gefnogaeth ar wahanol adegau yn eu bywyd ac yn ôl yr angen. Efallai y bydd arnynt angen cymorth dwys am gyfnodau byr i oresgyn eu problemau lles e.e. problemau bwlio, iechyd a pherthnasoedd neu gymorth i feithrin hunan-barch a hunanhyder. Fodd bynnag, efallai y bydd arnynt angen llai o gymorth dwys i gael gwybodaeth o ffynhonnell berthnasol e.e. y rhyngrwyd. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd rhieni angen gwell cymorth i'w helpu i helpu eu plentyn (plant) i wneud dewisiadau a gwneud penderfyniadau pwysig.

**5.** DBydd angen i unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n rhoi cymorth personol rheng-flaen wybod ble i **gyfeirio** person ifanc y mae arno/arni angen cymorth mwy arbenigol fel cwnsela neu ofal cymdeithasol brys.

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau i ddysgwyr dderbyn cymorth personol pan fo ei angen – drwy hunangyfeirio a chyfeirio gan rywun arall (gyda chydsyniad y dysgwr)

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau i ddysgwyr dderbyn cymorth personol pan fo ei angen – drwy hunangyfeirio a chyfeirio gan rywun arall (gyda chydsyniad y dysgwr)

**6.** Dylai pobl ifanc gael y **wybodaeth** y mae arnynt ei hangen i fynd ati eu hunain i geisio cymorth personol. Mewn rhai achosion, gyda'u caniatâd nhw, gallai darparwr dysgu, anogwr dysgu neu weithiwr arall neu, mewn achosion eithriadol, rhiant/gofalwr y person ifanc eu cyfeirio. Bydd angen canfod ffyrdd o sicrhau bod cymorth personol ar gael yn hwylus i bob dysgwr ac yn enwedig i ddysgwyr 14-16 sydd wedi ymddieithrio neu rai nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant ôl 16, a grwpiau eraill y mae'n anodd eu cyrraedd.

**7.** Nid oes un **model unigol** o ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol. Gall nifer o asiantaethau ei ddarparu. Er enghraifft, gellir darparu gwasanaethau mewn sefydliadau dysgu yn ystod y dydd, gan weithwyr ieuenctid mewn ysgolion, neu trwy gyfleusterau galw-heibio mewn sefydliadau cymunedol, fel clybiau ieuenctid neu siopau gwybodaeth, neu trwy gyfrwng sefydliadau sy'n bod eisoes. Bydd angen i'r asiantaethau hyn ystyried eu trefniadau ar gyfer olrhain y cymorth hwn.

## Pwy fydd yn darparu'r cymorth personol

**8.** Mae'n bosib y bydd y sgiliau angenrheidiol gan bobl broffesiynol o nifer o sectorau sy'n gweithio gyda phobl ifanc i gynnig rhai mathau o gymorth personol. Bydd angen iddynt:

- fod yn sensitif i faterion fel **cyfrinachedd, rhannu gwybodaeth, amddiffyn plant a diogelwch cymunedol**;
- cael **cymwyseddau penodol** sy'n adlewyrchu eu hyfforddiant proffesiynol a'u trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus;
- bod yn gallu cynnal a **datblygu gwybodaeth a sgiliau** ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau;
- bod yn gallu **gweithio'n effeithiol gyda phobl ifanc**;
- dangos bod eu gwasanaeth yn cynnig **parhad, tegwch a chyfrinachedd.**

**9.** Mae angen sicrhau bod y system ar gyfer darparu cymorth personol yn cynnwys trefniadau gweithio cryf rhwng y gwasanaethau proffesiynol ar gyfer pobl ifanc. Mae'r cysylltiadau hyn yn datblygu eisoes fel rhan o ddarpariaeth *Ymestyn Hawliau'r* Bartneriaeth Pobl Ifanc.

**10.** Gall gwaith ieuenctid gyfrannu'n sylweddol at greu **fframwaith cymorth personol** mewn sefydliadau dysgu ac mewn cymunedau y tu allan i oriau dysgu ffurfiol.

**11.** Wrth i Lwybrau Dysgu 14-19 gael eu datblygu, bydd cymorth ychwanegol yn cael ei dargedu at gymorth personol drwy sicrhau bod cyllid ar gael i Rwydweithiau. Bydd y cyllid a dderbynir yn amodol ar eu llwyddiant yn hyn o beth.

# Elfen Allweddol 6: Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfa

**Beth y mae gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfa yn ei gynnwys:**

Gyda'r Llwybrau Dysgu, bydd gan bob dysgwr hawl i gael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd arbenigol a diduedd. Ceir hyn gan Gynghorwyr Gyrfa cymwysedig. Caiff ei gyflenwi trwy gwmnïau Gyrfa Cymru ledled Cymru a Gyrfa Cymru Ar-lein. Yn ogystal, bydd dysgwyr mewn ysgolion a cholegau yn cael addysg a chyfarwyddyd gyrfa yn eu sefydliad dysgu.

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i ddysgwyr ar gyfleoedd gyrfa a dysgu a pherthynas hynny â mathau eraill o gymorth

## Cyngor arbenigol ar yrfaoedd

**1.** Mae cyfrifoldeb ar Gynghorwyr Gyrfa Cymru i roi **cyngor arbenigol** i ddysgwyr ar amrediad eang o opsiynau ym maes gyrfaoedd a dysgu; i weithio gyda phobl ifanc i roi cyngor a chyfarwyddyd ar **ddewisiadau gyrfa**; ac i gydweithio â sefydliadau dysgu a chyflogwyr i ddatblygu **profiad gwaith priodol**, eu hannog i godi **ymwybyddiaeth dysgwyr o fusnes** ac i gynnig cymorth mentora.

## Gweithio gydag Anogwyr Dysgu

**2.** Bydd rhai Cynghorwyr Gyrfa'n gweithredu fel Anogwyr Dysgu, yn enwedig ar gyfer dysgwyr y tu allan i sefydliadau dysgu ffurfiol. Cânt eu hannog, ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill, i ymgymryd â'r cymhwyster penodol i Anogwyr Dysgu sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

**3.** Bydd angen i Gynghorwyr Gyrfa **gydweithio'n glòs ag Anogwyr Dysgu** ym mhob sefydliad er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn elwa ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad arbenigol penodol sydd gan bob un o'r gweithwyr proffesiynol. Bydd yn bwysig bod Cynghorwyr Gyrfa yn gallu **cyfeirio pobl ifanc** at gymorth perthnasol pan fydd angen.

## Cysylltiadau â chymorth personol ar gyfer pobl ifanc

**4.** Mae **Porth Ieuenctid** yn fodel ar gyfer y bobl ifanc hynny y mae arnynt fwyaf o angen cymorth. Mae Cynghorydd y Porth Ieuenctid yn gweithredu fel Cynghorydd Gyrfa ac Anogwr Dysgu ac mae'n cynnig cymorth personol i grwpiau bach o bobl ifanc ac unigolion. Bydd y rhan fwyaf o bell ffordd o bobl ifanc yn cael cymorth personol o ffynonellau eraill.

## Gyrfa Cymru Ar-lein

**5.** Ers mis Medi 2004, mae dysgwyr wedi gallu cael llawer o wahanol fathau o **wybodaeth ar-lein**, ac os dymunant, cânt le ar y we i gynnwys eu CV a gwybodaeth arall amdanynt eu hunain. Mae'r **Ffeil Cynnydd** i'w gweld ar-lein hefyd. Mae Gyrfa Cymru Ar-lein yn ehangu'n barhaus ac mae'r datblygiadau'n cynnwys dewislen a grid dysgu, fel rhan o'r prosiectau Llwybrau Dysgu ESF persennol. Dylai Cyfnod Peilot y prosiect hwn fod wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2007.

Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i ddysgwyr ar gyfleoedd gyrfa a dysgu a pherthynas hynny â mathau eraill o gymorth

**6. Yn ogystal, bydd Gyrfa Cymru yn:**

- sefydlu, yn datblygu ac yn cynnal cysylltiadau gweithiol clòs rhwng Cynghorwyr Gyrfa ac Anogwyr Dysgu a darparwyr cymorth personol er mwyn sicrhau bod y dysgwr unigol yn cael y budd mwyaf posibl;
- cydweithio'n agos â'r Anogwr Dysgu a bennwyd i sicrhau dealltwriaeth o Lwybrau Dysgu unigol, arddulliau dysgu a galluoedd a diddordebau y person ifanc unigol;
- cyfeirio person ifanc, gyda'i ganiatâd/chaniatâd, i gael cymorth personol;
- cydweithio â Rhwydweithiau 14-19 i ddatblygu a chynnal trefniadau i ddarparu gwasanaethau i bob person ifanc 14-19 mewn cydweithrediad â chymorth yr Anogwr Dysgu a'r cymorth personol;
- cymryd i ystyriaeth anghenion pobl ifanc ddwyieithog ac anghenion cyflogaeth cymunedau dwyieithog.

## Addysg gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau

**7.** Mae addysg a chyfarwyddyd gyrfa yn **elfen statudol o'r cwricwlwm** o 13-19. Eisoes sefydlwyd cysylltiadau rhwng athrawon a darlithwyr sydd â chyfrifoldebau ym maes addysg gyrfa a Chynghorwyr Gyrfa Cymru, ac mae rhai ysgolion a cholegau wedi ennill Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru.

**8.** Mae *Fframwaith ar gyfer Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd ACCAC ar gyfer pobl ifanc 11-19 oed yng Nghymru (2002) ac Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd: Canllawiau Atodol (2002)* yn rhoi canllawiau perthnasol i bobl ifanc 14-19 oed sydd mewn ysgol neu goleg fel rhan o'r Craidd Dysgu (gweler adran 1.3).

# Adran 3
# Sut y Gweithredir y Chwe Elfen Allweddol



Cynhyrchwyd y gwaith celf gan Lauren Batt o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd, fel rhan o'i gwaith cwrs TGAU

# ADRAN 3: SUT Y GWEITHREDIR Y CHWE ELFEN ALLWEDDOL

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd cydweithio effeithiol yn helpu i sicrhau hawl dysgwyr i Lwybrau Dysgu dros amser

## Rhwydweithiau 14-19

**Beth yw Rhwydweithiau 14-19:**

Mae Rhwydweithiau 14-19 yn grwpiau o sefydliadau strategol, darparwyr dysgu a dysgwyr mewn ardal awdurdod lleol. Maent yn sicrhau'r gwahanol raglenni a'r gwahanol fathau o gymorth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio ar bob elfen o'r Llwybrau Dysgu yn 14-19 oed.

**1.** Mae Rhwydweithiau 14-19 yn gyfrifol am **barhad, cydlyniad a dilyniant** mewn amrywiaeth eang o raglenni cymhwysol a chyffredinol i ddiwallu anghenion o 14-19 oed a thu hwnt. Dim ond os yw'r holl ddarparwyr dysgu yn yr ardal a'r sefydliadau sy'n darparu cymorth yn cydweithio a chydweithredu y gellir cyflawni hyn. Ers mis Ebrill 2006, pan unodd ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r **echel cyllido a threfniadaeth** yn nwylo awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hyn yn adeiladu ar y cymorth a'r datblygu sydd wedi'i gyflawni hyd yma rhwng awdurdodau lleol, ELWa a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd swyddogaethau a chyfrifoldebau Rhwydweithiau 14-19 yn parhau ac efallai'n cael eu gwella. Mae'n debygol y bydd swyddogaethau a chyfrifoldebau CCET yn newid dros amser mewn ymateb i Gynllun Gweithredu'r Gweinidog (Mawrth 2006) a ddatblygir i weithredu'r argymhellion a wnaed gan y Dirprwy Weinidog ym mis Tachwedd 2005.

**2.** Bydd y Rhwydweithiau 14-19 yn cydgysylltu **agwedd strategol** at ddarpariaeth 14-19 mewn gwahanol ardaloedd a byddant yn dylanwadu ar, ac yn cael eu dylanwadu gan, y partneriaid a chan farn y dysgwyr, ond ni fydd ganddynt bŵer i gyfarwyddo'u partneriaid. Dylai datblygiad strategol y Rhwydweithiau 14-19 gael ei lywio gan **fuddiannau'r dysgwyr**. Dros amser, dylai manteision cydgysylltu a chydweithio helpu i oresgyn y tensiynau sy'n sicr o godi wrth weithio mewn partneriaeth.

**3.** Yn yr hirdymor, daw'r grantiau penodol a geir ar hyn o bryd ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 yn rhan o gyllid y brif ffrwd ac fe'u dosberthir trwy'r **prif lwybrau ariannu** presennol. Yn y tymor byr i ganolig, caiff cyllid ychwanegol i ddatblygu Llwybrau Dysgu ei sianelu trwy un neu fwy o'r prif bartneriaid ac fe'i defnyddir i ariannu **blaenoriaethau penodedig** y Rhwydwaith 14-19 i symud ymlaen â'r agenda 14-19. Efallai y bydd sefydliadau dysgu unigol yn cael rhagor o arian a bydd angen iddynt ddangos sut y maent yn cyfrannu at **ddatblygiad strategol** elfennau allweddol y Llwybrau Dysgu yn eu hardal nhw.

## Beth mae'r Rhwydwaith 14-19 yn ceisio'i gyflawni

**4.** Prif amcanion y Rhwydweithiau 14-19 yw cydweithio â'r holl bartneriaid perthnasol i hybu datblygiad Llwybrau Dysgu trwy:

- **ychwanegu at y dewis a'r hyblygrwydd** sydd ar gael i bob dysgwr y eu hardal;

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd cydweithio effeithiol yn helpu i sicrhau hawl dysgwyr i Lwybrau Dysgu dros amser

- sicrhau, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, bod pob dysgwr yn cael **opsiynau** ar gyfer eu Llwybrau Dysgu sy'n eu helpu i gyflawni eu potensial;
- datblygu trefniadau i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar y **cymorth dysgu, y cymorth personol a'r cymorth gyrfa** y mae ganddynt hawl iddynt.

**5.** Dylid datblygu mecanweithiau i osgoi dyblygu gwaith ac i sicrhau bod y partneriaethau'n gweithio er budd dysgwyr. Yn ogystal, dylai'r Rhwydweithiau 14-19 ddatblygu trefniadau i sicrhau bod darpariaeth **drawsffiniol** ar gael.

**6.** Nodir swyddogaeth y Rhwydweithiau 14-19 yng Nghynllun Gweithredu Llwybrau Dysgu (2003), a welir yn Atodiad E.

## Pwy ddylai gael eu cynrychioli ar y Rhwydwaith 14-19

**7.** Bydd pob sefydliad sy'n cyfrannu at y gwaith o ddarparu ar gyfer dysgwyr 14-19 yn rhan o ddatblygiad strategol y Rhwydwaith 14-19, a dylai fod ganddynt **sianel gyfathrebu** â'r Rhwydwaith. Dylai'r Rhwydwaith 14-19 fod yn **gorff strategol** sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sector ond ni ddylai fod yn rhy fawr, fel y gellir **cynllunio'n effeithiol**. Fel canllaw, dylai'r Rhwydwaith 14-19 gynnwys y partneriaid a ganlyn, neu gellid enwebu rhywun arall yn eu lle sydd mewn sefyllfa i wneud cyfraniad arwyddocaol ac edrych ar bethau mewn ffordd strategol. Efallai y bydd y Rhwydwaith 14-19 am ystyried creu **grwpiau gorchwyl pellach** i ddelio ag agweddau penodol ar eu gwaith.

| | |
|---|---|
| *Darparwyr dysgu* | Penaethiaid ysgolion uwchradd (gyda chydbwysedd sy'n adlewyrchu trefniadau lleol e.e. ysgolion 11-16, ysgolion â 6ed dosbarth, ysgolion arbennig, ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddola reolir).<br>Uwch gynrychiolwyr o'r coleg(au) Addysg Bellach lleol.<br>Uwch gynrychiolydd o fyd Addysg Uwch.<br>Cynrychiolydd darparwyr dysgu seiliedig ar waith.<br>O leiaf un cyflogwr/darparwr dysgu seiliedig ar waith nad yw eisoes yn cael ei gynrychioli ar y Rhwydwaith. |
| *Awdurdod lleol* | Y rheolwr corfforaethol sy'n gyfrifol am addysg.<br>Cynghorydd 14-19 (lle bo'n berthnasol).<br>Cynrychiolydd o'r gwasanaeth ieuenctid.<br>Adrannau perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol. |
| *Llywodraeth Cynulliad Cymru* | Uwch gynrychiolydd/gynrychiolwyr rhanbarthol o'r Is-adran Datblygu Dysgu a Rhwydweithiau |
| *Eraill yn y sector statudol* | Uwch gynrychiolydd o Gyrfa Cymru.<br>Rheolwr Tîm Troseddu Ieuenctid/ Cynllun Troseddwyr Ifanc. |
| *Cydgysylltwyr* | Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19<br>Cydgysylltydd CCET (os yw'n berthnasol) neu gynrychiolydd dynodedig CCET neu gynrychiolydd neu olynydd CCET<br>Cydgysylltydd PPI, neu gynrychiolydd PPI. |
| *Sector gwirfoddol* | Cynrychiolydd o'r mudiadau gwirfoddol cymunedol sy'n gwneud llawer o waith gyda phobl ifanc ar draws neu y tu mewn i ardal awdurdod lleol. |
| *Dysgwyr* | O leiaf ddau ddysgwr i gynrychioli dysgwyr sy'n cwmpasu pob math o ddarpariaeth ddysgu. |

**8.** Mae angen i'r Rhwydwaith 14-19 gynnwys amrediad eang o sefydliadau a chadw **cydbwysedd rhwng y sectorau**. Dylid sicrhau rhyw fath o **draws-gynrychioli** gyda'r CCET a'r PPI lleol. Bydd angen i'r Rhwydwaith ystyried a ddylai partneriaid eraill sydd heb eu cynnwys ar y rhestr ac sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol neilltuol gael eu cynrychioli, er enghraifft Partneriaethau Addysg Busnes a sefydliadau addysg a/neu fusnes sy'n agos at ardal y Rhwydwaith ond heb fod yn rhan ohoni. Er nad oes angen newid amodau gwasanaeth y Llwybrau Dysgu, maent yn dod â sialensiau a chyfleoedd sylweddol i staff mewn pob math o sefydliadau a dylai Rhwydweithiau 14-19 ystyried cynrychiolaeth o undebau llafur i adlewyrchu hyn. Gellir ystyried cael cynrychiolaeth o'n Cynghorau Sgiliau Sector hefyd.

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd cydweithio effeithiol yn helpu i sicrhau hawl dysgwyr i Lwybrau Dysgu dros amser

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd cydweithio effeithiol yn helpu i sicrhau hawl dysgwyr i Lwybrau Dysgu dros amser

## Sut bydd Rhwydweithiau 14-19 yn gweithio

**9.** Nid oes gan Rwydweithiau 14-19 statws cyfreithiol ac felly ni allant ddal cyllid ohonynt eu hunain. Bydd yn hanfodol datblygu **cysylltiadau gweithio da** rhwng partneriaid a dylai Rhwydweithiau 14-19 ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- cytuno ar **gylch gorchwyl** ynghylch sut y byddant yn gweithredu;
- datblygu trefniadau lleol ar gyfer **rheoli a gweinyddu'r** Rhwydwaith 14-19;
- trefniadau ar gyfer dewis **Cadeirydd**, ei swyddogaethau a hyd ei dymor/thymor;
- **trefniadau gweithredu** i sicrhau y gall pob partner chwarae ei ran;
- unrhyw drefniadau ar gyfer **gwaith grwpiau gorchwyl** e.e. rhoi mynediad clir i grwpiau;
- **protocolau ar gynnwys asiantaethau a sefydliadau** sy'n cyfrannu at ddatblygiad strategol Llwybrau Dysgu 14-19 ond na chânt eu cynrychioli'n uniongyrchol gan y Rhwydwaith 14-19;
- trefniadau i'r Rhwydwaith 14-19 sefydlu a **chynnal trefn gyfathrebu ddwyffordd** gyda'r rhai sydd mewn sefydliadau dysgu, cyflogwyr lleol, rhieni a phartneriaid strategol eraill yn y gymuned er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad o hyn ymlaen;
- **amseru** ac **amlder** cyfarfodydd;
- trefniadau ar gyfer **rheoli gwaith** y Rhwydwaith 14-19 rhwng cyfarfodydd;
- ffyrdd o **ddatrys unrhyw wrthdaro** a allai godi rhwng partneriaid;
- ffyrdd y Rhwydwaith 14-19 o **ymgysylltu gyda phobl ifanc** er mwyn datblygu darpariaeth sy'n eu hysgogi ac yn eu hysbrydoli ac i'r Rhwydwaith 14-19 **wrando ar farn y bobl ifanc** er mwyn sicrhau newid a datblygiad;
- sut bydd y Rhwydwaith 14-19 yn **monitro ac yn gwerthuso datblygiadau** a sut y bydd yn dathlu llwyddiant;
- y trefniadau ar gyfer **gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru,** yn cynnwys cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd a gyd-drefnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn delio â cheisiadau am grantiau ac ati i sicrhau bod gan y Rhwydwaith 14-19 yr holl wybodaeth y mae arno ei angen, a'i fod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ar lefel genedlaethol.

## Beth mae'r Rhwydweithiau 14-19 wedi'i wneud i ddatblygu Llwybrau Dysgu

Erbyn mis **Medi 2004** dylent fod wedi paratoi:

- cynigion ar gyfer gwario'r grant cychwynnol sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i symud ymlaen â datblygiadau Llwybrau Dysgu yn 2004-5;
- Cynllun Datblygu blynyddol cyntaf y Rhwydwaith 14-19 yn gysylltiedig â Chynlluniau Cyflawni Blynyddol PPI ac argymhellion blynyddol CCET a'r Datganiad Rhanbarthol o Anghenion a Blaenoriaethau;
- mewn cydweithrediad â'r PPI lleol, cynllunio i baratoi Prosbectws Gweithgareddau blynyddol ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yn cynnwys gweithgareddau hamdden, profiad sy'n canolbwyntio ar waith a chyfranogiad cymunedol – ar y we yn ogystal ag ar bapur.

Erbyn mis **Medi 2005** dylent fod wedi:

- cynnal archwiliad o'r ddarpariaeth yn yr ardal trwy gasglu gwybodaeth o ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant, ELWa, y Bartneriaeth Pobl Ifanc leol, sefydliadau cyflogwyr a phartneriaid lleol addas eraill i baratoi ac ymestyn y ddewislen;
- cwblhau'r Prosbectws Gweithgareddau a dyfeisio trefniadau i'w adolygu'n rheolaidd;
- cynnal archwiliad o sgiliau darparwyr dysgu ac ystyried strategaeth hyfforddi i ddiwallu anghenion lleol;
- cwblhau ail Gynllun Datblygu y Rhwydwaith 14-19, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyfleoedd sydd ar gael gan brosiectau meithrin gallu ôl-16 Cronfa Gymdeithasol Ewrop mewn ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 3 (fel y bo'n briodol) wedi'i seilio ar ddadansoddiad o'r ddarpariaeth ac anghenion dysgwyr a dechrau cynllunio strategol hirdymor;
- cydweithio i gynllunio sut i roi'r mecanweithiau ar gyfer yr Anogwyr dysgu a'r Cymorth Personol ar waith;
- paratoi cynlluniau i ehangu cyfleoedd am brofiad sy'n canolbwyntio ar waith a chyfranogiad cymunedol;
- ystyried datblygu protocolau iechyd a diogelwch ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed a rhai ôl-16;
- dechrau cydweithio â chyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector, Gyrfa Cymru, ELWa a phartneriaid eraill i ddatblygu rhaglenni o ansawdd da ar gyfer profiad sy'n canolbwyntio ar waith a chyfranogiad cymunedol.

## Beth y bydd y Rhwydweithiau 14-19 yn ei wneud rhwng 2006-2008 i ddatblygu Llwybrau Dysgu

Erbyn mis **Medi 2006** byddant wedi:

- cwblhau trydydd Cynllun Datblygu y Rhwydwaith 14-19 (yn rhedeg o Ebrill 2006-Mawrth 2007) yn adlewyrchu'r cynnydd mewn grant sydd ar gael, gan gyflwyno mwy o flaenoriaethau i fynd i'r afael â chwe elfen Llwybrau Dysgu;
- ystyried goblygiadau Cynllun Gweithredu 14-19 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Mawrth 2006);
- cyfuno cynlluniau hirdymor mewn datganiad ar gyfeiriad strategol y Rhwydwaith;
- datblygu strategaethau i sicrhau bod gweithgareddau rhaglen meithrin gallu ôl-16 Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 3 (fel y bo'n briodol) yn cael eu cwblhau erbyn haf 2007;
- datblygu cynlluniau i baratoi ar gyfer cylch nesaf y cyllid ESF o 2007 ymlaen, pan fo'r ddarpariaeth 14-19 yn parhau;
- targedu dysgwyr o bob gallu sydd dan anfantais o ran cymorth a chyfleoedd;
- adolygu a gwella'r ffyrdd maent yn sicrhau cyfranogiad amrywiaeth a nifer sylweddol o bobl ifanc wrth ddatblygu mwy o ddewis, perthnasedd a hyblygrwydd; wrth nodi blaenoriaethau ac wrth ddatblygu mecanweithiau cymorth anogwyr dysgu a phontio;
- chytuno ar drefniadau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darparu cymorth cyfnodol i weithgareddau lleol sy'n rhan o raglen Llwybrau Dysgu a'u monitro a'u gwerthuso;
- darparu ar gyfer ymestyn y cyfleoedd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd cydweithio effeithiol yn helpu i sicrhau hawl dysgwyr i Lwybrau Dysgu dros amser

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd cydweithio effeithiol yn helpu i sicrhau hawl dysgwyr i Lwybrau Dysgu dros amser

Erbyn mis **Medi 2007** byddant wedi:

- cwblhau pedwerydd Cynllun Datblygu y Rhwydwaith 14-19;
- adolygu strwythurau gweithio gyda sefydliadau partner lleol a rhanbarthol;
- cyfuno gweithgareddau a allai fod yn angenrheidiol yn dilyn cyhoeddi Cynllun Gweithredu 14-19;
- cydweithio â phartneriaid i sicrhau cytgord yn narpariaeth yr amserlenni a dulliau eraill i sicrhau hyblygrwydd ar gyfer dysgwyr;
- dadansoddi dewisiadau presennol a dewisiadau eraill a datblygu dewislenni arloesol a chydweithio ar gyfer yr ardal yn cynnwys cyfleoedd ym mhob un o'r meysydd dysgu a dangos gwell dewis i ddysgwyr, yn enwedig o ran dewisiadau mwy ymarferol a chymhwysol, ac osgoi dyblygu darpariaeth;
- cyflwyno amrywiaeth eang o gyfleoedd 'blasu' yn y cyfnod pontio CA3/4 fel rhan o'r broses o helpu pobl ifanc i bennu targedau a gwneud dewisiadau yn 14 oed;
- datblygu gwahanol fathau o ddarpariaeth ar gyfer profiad sy'n canolbwyntio ar waith gan ddefnyddio darparwyr hyfforddiant, colegau Addysg Bellach a chyfleusterau hyfforddi eraill;
- mabwysiadu protocolau iechyd a diogelwch, yswiriant amddiffyn plant a phresenoldeb ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed ac ôl-16 sy'n adlewyrchu canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a amserlenwyd ar gyfer gwanwyn 2007;
- dangos sut mae'r Rhwydwaith yn ymgorffori ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydraddoldeb;
- datblygu strategaeth gyfathrebu leol, mewn partneriaeth â'r strategaeth wybodaeth a chyfathrebu genedlaethol sy'n cael ei datblygu, er mwyn hysbysu'r holl bartneriaid, pobl ifanc a'u rhieni am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol;
- datblygu strategaethau ar gyfer ehangu cyfnod ôl-beilot y rhaglen anogwyr dysgu;
- gweithio gyda'r PPI lleol i ddatblygu fframwaith cymorth personol aml-asiantaeth er mwyn i bobl ifanc allu cael mynediad i amrywiaeth eang o gymorth yn y lleoliad dysgu a thu allan;
- gweithio gyda phartneriaid a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cais strategol ar gyfer y cylch nesaf o arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Erbyn mis **Medi 2008** byddant wedi paratoi ar gyfer gweithredu Llwybrau Dysgu 14-19 yn ehangach trwy:

- gwblhau pumed Cynllun Datblygu y Rhwydwaith 14-19;
- cynnal adolygiad llawn o gynnydd yng ngwaith y Rhwydwaith lleol ar ôl pum mlynedd o weithredu a chynnwys cynnydd ar weithredu gweithgareddau Cynllun Gweithredu 14-19;
- cynnwys dulliau effeithiol ac effeithlon o sicrhau cyfranogiad cyflogwyr mewn gweithgarwch lleol;
- gweithredu ail brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer y Llwybrau Dysgu (yn amodol ar gais llwyddiannus);
- cynnwys cyfranogiad pobl ifanc ym mhob agwedd ar ddatblygu a chynnal Llwybrau Dysgu;
- sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc gael cyfleoedd dysgu sy'n seiliedig ar sgiliau a dysgu galwedigaethol;
- ehangu rhaglenni anogwyr dysgu a chymorth personol.

## Amserlenni ar gyfer gweithredu'n llawn

**10.** Mae'r Cynllun Gweithredu (Mawrth 2006) ar gyfer gweithredu Llwybrau Dysgu yn llawn i bob dysgwr yn nodi amserlen ar gyfer datblygu agweddau ar y Llwybrau Dysgu. Cyhoeddir **amserlenni diwygiedig** yn gyfnodol fel rhan o'r broses barhaus o gyflwyno **Llwybrau Dysgu** fesul cam i helpu Rhwydweithiau 14-19 a Llywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi cynlluniau hirdymor ymarferol a realistig.

## Sicrhau ansawdd

**11.** Bydd angen i'r Rhwydwaith 14-19 ddatblygu **mecanweithiau sicrhau ansawdd** ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir sy'n cynnwys dulliau sy'n bodoli'n barod a chymaint ag y bo modd o **wybodaeth ac adborth** – yn cynnwys gwybodaeth ac adborth gan y bobl ifanc eu hunain.

## Defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol

**12.** Bydd gan y Rhwydwaith 14-19 ran bwysig i'w chwarae yn rhannu gwybodaeth leol ac yn casglu tystiolaeth leol o **effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r cymorth.** Dylai'r Rhwydweithiau 14-19 ddatblygu trefniadau i sicrhau bod opsiynau a gaiff eu cynnwys yn yr agweddau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol ar y Llwybrau Dysgu yn **brofiadau dysgu o ansawdd da**. Dylent hefyd gydweithio â'r Partneriaethau Pobl Ifanc i sicrhau bod y **Prosbectws Gweithgareddau** ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yn cynnwys cyfleoedd a phrofiadau o ansawdd da.

**13.** Bydd yn rhaid i Bartneriaethau Pobl Ifanc, Rhwydweithiau 14-19 a sefydliadau dysgu arweiniol fod yn sicr eu bod yn darparu **profiadau diogel o ansawdd da** ar gyfer pobl ifanc yn gyffredinol. Bydd angen i sefydliadau sy'n cyfrannu at y dewislenni a'r Prosbectws Gweithgareddau y tu mewn i ardal Rhwydwaith 14-19 ddangos eu bod yn cydymffurfio â **deddfwriaeth iechyd a diogelwch, amddiffyn plant a rhannu gwybodaeth**. Bydd y Canllawiau ar gyfer Llwybrau Dysgu yn 2007 yn cynnwys cyngor pellach i'r Rhwydweithiau 14-19 ar y materion hyn. Mae'r PPI eisoes yn llunio protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth a bydd y rhain yn berthnasol i'r Rhwydweithiau 14-19.

**14.** Yn achos gweithgareddau presennol a rhai y gellid eu cynnal yn y dyfodol, bydd angen nodi'r **sgiliau penodol a ddysgir o gyfleoedd heb fod yn ffurfiol a rhai anffurfiol**, trefnu'r profiadau er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn cael y budd mwyaf ohonynt a gwerthuso'r cyfraniad at ddatblygiad personol a chymdeithasol y dysgwr, a'u Sgiliau Allweddol. Mae angen hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Anogwyr Dysgu a sefydliadau sy'n darparu'r cyfleoedd hyn ac mae angen datblygu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o'r manteision posib.

## Gwrando ar bobl ifanc

**15.** Bydd angen i rwydweithiau ddatblygu mecanweithiau i gynnwys pobl ifanc a gwrando arnynt. Bydd **cynghorau ysgol, fforymau ieuenctid** a grwpiau eraill i bobl ifanc yn fecanweithiau defnyddiol ar gyfer holi barn pobl ifanc am y ddarpariaeth. Mae **angen i** bob darparwr dysgu dderbyn adborth oddi wrth

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd cydweithio effeithiol yn helpu i sicrhau hawl dysgwyr i Lwybrau Dysgu dros amser

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd cydweithio effeithiol yn helpu i sicrhau hawl dysgwyr i Lwybrau Dysgu dros amser

ddysgwyr yn eu sefydliadau. Dylai'r Rhwydweithiau 14-19 sicrhau bod y **dulliau cyfathrebu** a ddefnyddir yn rhoi cyfle i'r dysgwyr fynegi eu barn yn ddigon eang a chytbwys. Dylent ystyried strategaethau i sicrhau bod pob rhan o'r gymuned o bobl ifanc yn gallu cyfrannu, yn cael eu clywed a'u bod yn cael adroddiad yn ôl.

16. Dylid cymryd gofal neilltuol i sicrhau y gwrandewir ar **bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig**; pobl ifanc sydd wedi'u **dadrithio, eu gwthio i'r cyrion neu eu hallgáu**; rhai sydd mewn **grwpiau anodd eu cyrraedd**, er enghraifft pobl ifanc sy'n gadael gofal; rhai sydd ag **anghenion addysgol ychwanegol, rhieni ifanc, pobl ifanc ddigartref, ceiswyr lloches ifanc, teithwyr ifanc, gofalwyr ifanc, pobl ifanc hoyw a lesbiaid**; a grwpiau eraill tebyg.

## Arolygiadau ardal Estyn

**17.** Mae Estyn wedi dechrau cynnal rhaglen barhaus o arolygiadau ardal o'r ddarpariaeth 14-19. Bydd yr arolygiadau hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am ansawdd, ystod a chanlyniadau'r ddarpariaeth o dan y Llwybrau Dysgu.

## Monitro a gwerthuso perfformiad

**18.** Mae'r dull radical o ystyried Llwybrau Dysgu a nodir yn y canllawiau hyn yn awgrymu newid yn yr hyn y rhoddwn werth arno o ran perfformiad. Roedd *'Cynllun Gweithredu Llwybrau Dysgu 14-19'* (2003) yn addo y byddai **basged o dargedau a dangosyddion perfformiad** yn cael eu datblygu i lywio polisi ac i alluogi monitro a gwerthuso ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r gwaith hwn ar y gweill fel rhan o'r prosiectau ymchwil a gydgysylltir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o raglen 'Dangos Llwyddiant'.

**Cyhoeddir canllawiau ychwanegol ar agweddau ar sicrhau ansawdd, yn enwedig amddiffyn plant ac iechyd a diogelwch yn 2007**

Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer ariannu datblygiad y Llwybrau Dysgu 14-19 ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

## Ariannu Llwybrau Dysgu 14-19

### Beth yr ydym wedi'i wneud hyd yma

**1.** Bu'r Grŵp Modelu Ariannol yn cynnal adolygiad o faterion ariannu Llwybrau Dysgu 14-19 fel un o'r grwpiau gorchwyl a gorffen rhwng mis Medi 2003 a mis Mai 2004.

**2.** Ym mlwyddyn ariannol 2004-5, roedd grant o **£50,000** ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i bob Rhwydwaith 14-19 i symud ymlaen â datblygu'r Llwybrau Dysgu. Yn 2005-6 cynyddwyd y grant a chyda'r arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), roedd **£120,000** ar gael i bob Rhwydwaith 14-19. Roedd **£250,000** arall ar gael yn 2004-5 ar gyfer prosiectau peilot ar gyfer anogwyr dysgu, cymorth personol, cyfranogiad cymunedol a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith. Mae crynodeb o bob prosiect peilot yn www.cymru.gov.uk

**3.** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau £2.9 miliwn o arian ESF ar gyfer datblygiadau meithrin gallu ôl-16 Llwybrau Dysgu. Rhaglenni ar gyfer ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 3 dwy flynedd o hyd yw'r rhain a byddant yn dechrau ym mis Mehefin 2005. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu cais strategol ar gyfer y cylch nesaf o arian ESF (cyn belled bod yr arian ar gael).

### Beth y bwriadwn ei wneud nesaf

**4.** Yn 2006-7, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi **£8.5 miliwn** ar gyfer datblygiadau Llwybrau Dysgu 14-19. Bydd £4.5 miliwn ar gael i weithgareddau 14-16 a £4 miliwn ar gyfer gweithgareddau 16-19. Yn 2007-8, bydd yr arian sydd ar gael yn cynyddu i **£32.5 miliwn** gyda £16.5 miliwn ohono ar gyfer y sector cyn-16 ac £16 miliwn ar gyfer 16-19 (i'w gadarnhau yn y cylch cynllunio'r gyllideb nesaf).

**5.** Llywodraeth y Cynulliad fydd yn penderfynu faint o arian fydd ar gael i gefnogi Llwybrau Dysgu 14-19 o fis Ebrill 2008 ymlaen yn dilyn Cylch Cynllunio'r Gyllideb 2007.

**6.** Bwriedir ymgynghori ag awdurdodau lleol a darparwyr dysgu eraill ar y trefniadau ar glustnodi a dosbarthu grantiau pellach i symud ymlaen â datblygiadau 14-19 ac i adlewyrchu'r gwahanol drefniadau cyllido cyn ac ar ôl 16.

**7.** Bydd arian 2005-2007 yn cefnogi gweithgareddau yn cynnwys datblygiadau hyfforddi anogwyr dysgu, ymestyn dewislenni a chysylltiadau gyda chyflogwyr.

**8.** Bydd gan weithredu'r Llwybrau Dysgu oblygiadau ariannol i bob sector ond, er mwyn eu gweithredu'n llawn, bydd angen **dadansoddi a gwerthuso trefniadau presennol** cyllido'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed a sut y gellir defnyddio'r arian yn well i gyflawni dyheadau'r Llwybrau Dysgu trwy gynnig rhagor o ddewis a hyblygrwydd ac osgoi cystadleuaeth a dyblygu gwaith.

# Adran 4
# Atodiadau





Cynhyrchwyd y gwaith celf gan Alison White o Ysgol St Christopher, Wrecsam, fel rhan o'i gwaith cwrs TGAU

Atodiad A

# AELODAETH Y GRWPIAU

## Grŵp Llywio Cyffredinol 14-19

| | | |
|---|---|---|
| Austin | Rita | Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan |
| Baumgardt | Adele | Y Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Bibey | Martin | Engineering Employers Federation |
| Blamey | Martin | Llywodraethwyr Cymru |
| Davies | Geraint | TUC Cymru |
| Davies | Mal | NUT Cymru |
| Evans | Allan | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Goldsmith | David | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS) |
| Grant | Maxine | AALI Wrecsam |
| Hopkins | John | SHA Cymru/ NAHT Cymru |
| Jenkins | Ioan | Menter yr Ifanc Cymru |
| Kidd | Liz | Estyn |
| Llewelyn | Chris | CLILC |
| McAllister | Peter | ELWa |
| Newson | George | CBI Cymru |
| Owen Jones | Arfon | UCAC |
| Parker | Arthur | CBAC |
| Parkes | Richard | Ffederasiwm Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| Rednapp | Catrin | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Rees | Lesley | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| Saunders | Danny | Addysg Uwch Cymru |
| Tromans | Mike | Partneriaeth Pobl Ifanc Powys |
| Turnbull | Jacquie | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| Williams | John V | ACCAC |
| Weatherburn | Jacqui | Fforwm |
| Williams | Steve | Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru |

## Grŵp Llwybrau Dysgu

| | | |
|---|---|---|
| Anstey | Sandra | CBAC |
| Badham | Linda | ACCAC |
| Bevan | Judith | Prince's Trust |
| Blamey | Martin | Llywodraethwyr Cymru |
| Callus | Frank | CCET Blaenau Gwent |
| Coakley | Paul | Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd |
| Cunnick | Tanis | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid |
| Davies | Mal | Y Cyngor Addysgu Cyffredinol |
| Feldon | Wayne | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| Gambles | John | Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru |
| Grant | Maxine | CBS Wrescam |
| Grove | John | NAHT |
| Hindle | Andrew | Institute of Electrical Engineers |
| Johns | Jane | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) |

| | | |
|---|---|---|
| Jonathan | Martin | Fforwm |
| Jones | Arfon Owen | UCAC |
| Jones | Bert | Cyngor Ieuenctid Cymru |
| Jones | Helen | ELWa |
| Keane | Ann | Estyn |
| Killick | John | Partneriaeth Pobl Ifanc Tor-faen |
| Martin | Jonathan | Fforwm |
| Nantcurvis | Suzanne | NASUWT |
| Pritchard | Julian | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Redknap | Catrin | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Reynolds | Sonia | Dysg (Cadeirydd) |
| Skinner | Sandra | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS) |
| Stewart | Elise | Canllaw |
| Tudor Jones | Alan | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Williams | John | Ysgol Uwchradd Pen yr Dre |

## Grŵp Modelu Ariannol

| | | |
|---|---|---|
| Allinson | Elaine | ELWa |
| Barry | Mike | Rhwydwaith 14-19 Tor-faen |
| Evans | Stuart | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Foden | Neil | NUT Cymru |
| Grandfield | Kevin | Cyngor Sir y Fflint |
| Greenlees | Alice | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Guy | Heather | NAHT Cymru |
| Harford | Steve | Gyrfa Cymru |
| Harding | Frances | CCET Sir Fynwy |
| Hewitt | Chris | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr |
| Jones | Gareth | Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd (Cadeirydd) |
| Jones | Huw | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid |
| Jones | Mike | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Martin | Paul | Fforwm |
| Mayhew | Peter | CBS Wrecsam |
| Neilson | Trina | Cymdeithas Gyfra Cymru |
| Wilson | Veronica | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS) |
| Taylor | Elizabeth | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

## Grŵp Anogwyr Dysgu

| | | |
|---|---|---|
| Bonello | Frank | Y Cyngor Addysgu Cyffredinol |
| Bowd | Graham | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| Cicotti | Frank | NAHT Cymru (Cadeirydd) |
| Collier | Ray | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| Cundick | Julie | Partneriaeth Pobl Ifanc Blaenau Gwent |
| Currie | Caroline | Estyn |
| Curry | Judy | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS) |
| Davies | Rhys | Dysg |
| Davies | Elwyn | Cyngor Sir y Fflint |

| | | |
|---|---|---|
| Evans | Eirian | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid |
| Kelsaw | Steve | Fforwm |
| Major | Christine | ELWa |
| Mason | Geoff | CBS Wrecsam |
| Nantcurvis | Suzanne | NASUWT |
| Noble | Chris | Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd |
| Pruski | Sharon | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Stephenson | Derrick | Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan |
| Thompson | Hazel | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr |
| Vale | Marcia | CCET Abertawe |

## Profiad Cymunedol a Gwirfoddol

| | | |
|---|---|---|
| Bryon | Mike | Menter yr Ifanc Cymru |
| Davies | Geraint | NASUWT |
| Davies | Elwyn | Cyngor Sir y Fflint |
| Davies | Mal | Y Cyngor Addysgu Cyffredinol |
| Grundy | Jane | CSV Cymru |
| Hendrickson | Tony | Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru |
| Jones | Eiddwen | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr |
| Marson | Stuart | Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd |
| Pickavance | Sue | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Cadeirydd) |
| Roberts | Bethan | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Robinson | Louise | Gwasanaeth Gwybodaeth y Cyngor Ysgolion Annibynnol |
| Smith | Steve | Fforwm |
| Warner | Barbara | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| Williams | Jane E | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid |
| Williams | John | Ysgol Uwchradd Pen-y-dre |
| Wilson | Veronica | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS) |
| Worley | Pam | ELWa |
| Williams | Steve | Rheolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid |

## Grŵp Continwwm Dysgu

| | | |
|---|---|---|
| Badham | Linda | ACCAC (Cadeirydd) |
| Clarke | Trevor | Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, ELWa |
| Davies | Geraint | NASUWT |
| Davis-Fox | Shirley | Isa Training / Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol (Cymru) |
| Edward | Elaine | UCAC |
| Greenidge | Jeff | Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan |
| Griffiths | Hugh | ACCAC |
| Griffiths | Tudor | Ysgol Uwchradd Sandfields |
| Hole | Steve | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| Howells | David | Menter yr Ifanc Cymru |
| Wyn Jones | Gareth | Estyn |
| Jones | Harold | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid |

| | | |
|---|---|---|
| Lewis | Helen | Fforwm |
| Llewelyn | John | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| Lloyd | Lowri Wyn | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Morgan | Cheryl | Dysg |
| Morgan | Sue | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Murphy | Geraldine | Partneriaeth Pobl Ifanc Sir Benfro |
| Palmer | Kenn | Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, ELWa |
| Parker | Arthur | CBAC |
| Peters | Tony | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Price | Stephanie | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS) |
| Reed | Penelope | NATFHE |
| Roberts | John Owen | CBS Wrecsam |
| Saunders | Danny | Prifysgol Morgannwg |
| Tanner | Pamela | CCET Abertawe |
| Taylor | Courtney | Cyngor Ieuenctid Cymru |
| Thomas | Pauline | SHA Cymru |
| Williams | Dorian | Ysgol Dyffryn Teifi |

## Grŵp Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith

| | | |
|---|---|---|
| Baker | Richard | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr |
| Baumgardt | Adele | Y Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Bastock | Jackie | ELWa |
| Bibey | Martin | Engineering Employers Federation |
| Blamey | Martin | Llywodraethwyr Cymru |
| Evans | Nathan | Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru |
| Freeman | Mark | Cymdeithas Gyrfa Cymru |
| Giles | David | CCET Bro Morgannwg |
| Griffiths | Hugh | ACACC |
| Griffiths | Graham | Estyn |
| Harding | Jill | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Jermyn | Carys | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Lake | Margaret | Partneriaeth Pobl Ifanc (Castell-nedd Port Talbot) |
| Lewis | Caryl | Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd |
| Loton-Jones | Sandra | LANTRA |
| Osborne | Chris | Cyflogwr |
| Overton | Carole | Dysg |
| Parkes | Richard | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol (Cadeirydd) |
| Peaper | Bill | SEMTA |
| Rees | Stuart | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Reid | Bryan | e-skills UK |
| Snow | Jeff | Cyflogwr |
| Thomas | Gavin | Fforwm (Cadeirydd Dros Dro) |
| Treble | John | Prifysgol Cymru, Abertawe |
| Williams | John | Ysgol Uwchradd Pen-y-dre |

## Grŵp Cymorth Personol

| | | |
|---|---|---|
| Brown | Wyngrove | Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan |
| Camino | Liz | NUT Cymru |
| Cowan | Bethan | ELWa |
| Cundick | Julie | Partneriaeth Pobl Ifanc Blaenau Gwent |
| Davies | Elwyn | Cyngor Sir y Fflint |
| Davies | Hilary | Fforwm |
| Davies | Ray | Cyngor Sir y Fflint |
| Dickenson | Donna | CBS Wrecsam |
| Dix | Lynda | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Efans | Ifor Glyn | Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd |
| Evans | Richard | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru |
| Humphreys | Jim | Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid |
| Jones | Alison | Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych |
| Jones | Eiddwen | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr |
| Jones | Terry | CCET Sir y Fflint |
| Lansdown | Alan | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Lindoe | Sylvia | Estyn |
| M'Caw | Joyce | Cymdeithas Gyrfa Cymru (Cadeirydd) |
| Maxwell-Hill | Myra | Hyfforddiant Gogledd Cymru |
| Munnelly | Carmel | Fforwm |
| Peddie | Alison | CBS Wrecsam |
| Pester | Sue | Prifysgol Cymru, Aberystwyth |
| Phillips | Tim | CWVYS (Cyswllt Ieuenctid) |
| Stewart | Elise | Canllaw |

Mae pobl ifanc yn parhau i wneud cyfraniad hanfodol at ddatblygiad y Llwybrau Dysgu 14-19. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r 150 o bobl ifanc a fu'n rhan o dri Grŵp Cynghorol Pobl Ifanc mewn gwahanol ranbarthau, ac a helpodd i lunio'r Canllawiau hyn.

## Tîm Prosiect 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru

| | |
|---|---|
| Terry Wales | Arweinydd Prosiect 14-19, Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion |
| Elizabeth Williams | Pennaeth Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion a Chadeirydd y Grŵp Llywio Cyffredinol |
| Meurig Roberts | Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion |
| Russell Dobbins | Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion |
| Chris Webb | Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion |

**Atodiad B**

# Sgiliau: Diffiniadau

## Sgiliau Sylfaenol

Mae'r rhain yn cynnwys rhifedd a llythrennedd ac maent yn cael eu diffinio fel 'y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg neu Gymraeg a defnyddio mathemateg ar lefel i'w ddefnyddio'n y gwaith ac yn y gymdeithas yn gyffredinol'. Mae rhifedd yn cwmpasu'r gallu i ddehongli, cyfrifo a chyfathrebu â rhifau; mae llythrennedd yn cwmpasu'r gallu i siarad, gwrando ac ymateb, darllen ac amgyffred, ac ysgrifennu i gyfathrebu.

## Sgiliau Allweddol

Mae chwe sgil allweddol: Cyfathrebu; Cymhwyso Rhif; Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; Datrys Problemau; Gweithio ag Eraill; a Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun.

## Sgiliau Generig neu Sgiliau Trosglwyddadwy

Sgiliau yw'r rhain y gellir eu defnyddio ar draws galwedigaethau. Maent yn cynnwys sgiliau sylfaenol ac allweddol ynghyd ag amrywiaeth o rai eraill fel sgiliau arwain, cyflwyno a rhesymu, a gwerthoedd a phriodweddau personol fel cymhelliant, disgyblaeth a barnu.

## Sgiliau Galwedigaethol

Dyma'r sgiliau penodol sydd eu hangen i weithio mewn galwedigaeth benodol, er mwyn bodloni safonau ar gyfer tasgau galwedigaethol. Nodir y rhain mewn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y mwyafrif o alwedigaethau.

## Sgiliau Swydd-Benodol

Dyma'r sgiliau ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni tasgau ar gyfer cyflogwr penodol.

## Sgiliau Hanfodol

Term yw hwn a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth llawn o sgiliau sydd eu hangen ar bawb, beth bynnag eu hamgylchiadau personol, cymdeithasol neu economaidd.

*Yn ôl diffiniad Tasglu Sgiliau Dyfodol Cymru 2000*

**Atodiad C**

## Grid Cynllunio ar gyfer Llwybrau Dysgu Cytbwys

| LLWYBR DYSGU | BLWYDDYN 9 | BLWYDDYN 10 | BLWYDDYN 11 | BLWYDDYN 12 | BLWYDDYN 13 | TARGEDAU HIRDYMOR |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **FFURFIOL**<br><br>Cyfleoedd dysgu trefnedig yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig | | | | | | |
| **HEB FOD YN FFURFIOL**<br><br>Rhaglenni trefnedig yn arwain at achrediad ond, fel rheol, y tu allan i'r NQF | | | | | | |
| **ANFFURFIOL**<br><br>Profiadau ehangach, nad ydynt yn arwain at achrediad fel rheol | | | | | | |

**Atodiad D**

# YR ANOGWR DYSGU

## Disgrifiad Swydd Posibl (i'w addasu'n lleol)

Bydd yr Anogwr Dysgu'n darparu gwasanaeth cymorth, cyfarwyddyd a mentora i ddysgwyr dynodedig. Darperir y gwasanaeth ar ffurf gwaith grŵp neu waith un-i-un, yn dibynnu ar anghenion unigol. Mae cyfarwyddyd diduedd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn rhan hanfodol o'r swydd.

Bydd yr Anogwr Dysgu'n gweithio fel rhan o'r tîm a bennir yn lleol ac o fewn systemau cefnogi grwpiau priodol. (Bydd trefniadau'r contract cyflogaeth a'r rheolaeth llinell yn adlewyrchu amgylchiadau neilltuol y swydd).

### Amcanion allweddol y Swydd

Amcanion allweddol swydd yr Anogwr Dysgu yw:

- meithrin perthynas weithiol dda gyda'r dysgwyr unigol er mwyn eu harwain trwy'r broses o gynllunio'u Llwybrau Dysgu eu hunain a rhoi blaenoriaeth i'w hanghenion dysgu;
- helpu dysgwyr unigol i benderfynu ar dargedau ac i wneud dewisiadau gwybodus;
- cydweithio â'r ysgol/coleg/staff hyfforddi, rhieni, Gyrfa Cymru ac asiantaethau perthnasol eraill i sicrhau bod y Llwybr Dysgu a ddewisir yn realistig ac yn briodol i ddiwallu anghenion y dysgwr unigol;
- canfod rhwystrau i ddysgu a chael gwared â nhw trwy ymyrraeth uniongyrchol, trwy ddatblygu mecanweithiau cefnogi ac, os oes angen, trwy gyfeirio'r dysgwr unigol at arbenigwyr i gael cymorth gan ddefnyddio trefniadau y cytunwyd arnynt;
- arwain dysgwyr unigol at ddealltwriaeth o'u harddulliau dysgu a mentora ac annog y dysgwyr i ddysgu'n fwy effeithiol;
- monitro cynnydd y dysgwr unigol yng nghyd-destun yr ysgol a'r amgylchedd cysylltiedig â gwaith a chynnig anogaeth, cyfarwyddyd a chefnogaeth yn ôl yr angen;
- helpu dysgwyr unigol i bennu targedau realistig a phriodol a'u helpu i fesur eu perfformiad eu hunain;
- cydweithio â staff Gyrfa Cymru i gefnogi dysgwyr unigol wrth iddynt wneud penderfyniadau am yrfa trwy roi iddynt y sgiliau a'r cyfleoedd i gael gwybodaeth berthnasol am addysg, hyfforddiant a gwaith a chynyddu eu hymwybyddiaeth o fyd gwaith;
- cael gwybodaeth am y disgyblion o ysgolion blaenorol ac o'r ysgol ei hunan er mwyn sicrhau bod cyfnodau pontio yn cael eu rheoli'n effeithiol;

- trafod gyda darparwyr addysg, hyfforddiant a gwaith ar ôl 16 er mwyn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r wybodaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc;
- bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth Amddiffyn Plant a gweithredu y tu mewn i'r canllawiau penodedig;
- sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael cyfle cyfartal;
- bod yn ymwybodol o anghenion ychwanegol dysgwyr unigol o leiafrifoedd ethnig mewn perthynas â iaith a chyfle cyfartal a dysgwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol;
- helpu dysgwyr unigol i gael gwybod o ble y gellir cael a chyflawni sgiliau allweddol;
- bod yn ymwybodol o'r angen i osgoi stereoteipio;
- cydweithio â'r dysgwr i gofnodi eu profiadau dysgu, er enghraifft trwy eu Ffeil Cynnydd.

## TREFNIADAETH

Bydd yr Anogwr Dysgu yn:

- cofnodi ac yn rheoli'r wybodaeth sy'n deillio o'i (g)waith gyda dysgwyr unigol yn unol â threfniadau penodedig;
- paratoi adroddiadau ar y dysgwyr unigol ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhai sy'n gyfrifol am ofal bugeiliol yn y sefydliad dysgu arweiniol;
- mynychu cyfarfodydd adolygu gyda'i (h)arweinydd tîm a chydweithwyr eraill, yn ôl yr angen;
- cymryd rhan mewn cyrsiau datblygiad proffesiynol ac mewn hyfforddiant penodol a gynllunnir yn arbennig ar gyfer Anogwyr Dysgu yng Nghymru.

Atodiad E

## Swyddogaeth y Rhwydweithiau 14-19 Addaswyd o Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19, Cynllun Gweithredu 2003 a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2006

Bydd y Rhwydweithiau 14-19 yn:

- sefydlu'r **ffordd y byddant yn gweithio** i sicrhau dull cydweithio a strategol gwirioneddol o weithredu holl elfennau allweddol Llwybrau Dysgu 14-19;
- gwneud cyfeiriad priodol yn dangos sut maent yn cysylltu gyda chynlluniau perthnasol eraill fel cynllun cyflawni blynyddol PPI ac argymhellion blynyddol CCET;
- adolygu'r aelodaeth er mwyn cynnwys aelodau perthnasol y CCET, yn amodol ar fonitro'r ymgynghoriad nesaf;
- trafod yn gyson a chynhyrchiol â phobl ifanc i ddatblygu darpariaeth sy'n eu **hysgogi a'u hysbrydoli;**
- dangos sut y gall **agweddau penodol** ar Gynllun Gweithredu'r Llwybrau Dysgu (Mawrth 2006) gael eu **gweithredu** ar lefel leol;
- sefydlu amserlenni cyffredin ac ystyried dulliau eraill i sicrhau **hyblygrwydd i ddysgwyr** yn yr ardal megis 'grwpiau dysgwyr' yn hytrach na 'grwpiau blwyddyn', gan weithio y tu allan i'r amserlen wythnosol neu bythefnos i ddarparu dyddiau neu wythnosau llawn ar gyfer rhaglenni arloesol a chynnwys mynediad a thrafnidiaeth;
- dadansoddi dewisiadau opsiwn sy'n bodoli eisoes, datblygu opsiynau arloesol a datblygu **Dewislen Opsiynau** ar gyfer eu hardal leol, gan ystyried dewis i ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig, arddangos mwy o ddewis i ddysgwyr, yn enwedig opsiynau mwy ymarferol a rhai cymhwysol, ac osgoi dyblygu darpariaeth;
- creu cyfleoedd – a chynnwys amser – i **bobl ifanc gael blas ar brofiad** – estynedig os oes angen – yng Nghyfnod Allweddol 3 neu ar ddechrau CA4 cyn gwneud dewisiadau fel rhan o strategaeth y cytunwyd arni i gynorthwyo pobl ifanc i osod nodau a gwneud dewisiadau yn 14 oed, mewn partneriaeth â chymorth Anogwyr Dysgu;
- ceisio comisiynu a datblygu darpariaeth mewn **canolfannau hyfforddi penodol** gan gynnwys canolfannau awdurdod lleol, darparwyr hyfforddi preifat a chyfleusterau colegau AB i alluogi mwy o bobl ifanc 14-16 oed i gael profiad o ddysgu o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar waith;
- ystyried y goblygiadau i**echyd a diogelwch** wrth ddarparu profiadau ehangach i bobl ifanc 14-16 oed;
- gweithio gyda chyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector, Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu **rhaglenni ar gyfer profiad gwaith a**

**chyfranogiad cymunedol** sy'n sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i bobl ifanc;

- ceisio annog **cyflogwyr i gymryd** rhan ac ymuno â'r Adduned Sgiliau Sylfaenol a datblygu Concordat y Cyflogwr;
- ystyried ffyrdd o fynd i'r afael ag **anghenion hyfforddi darparwyr dysgu** yn lleol;
- gweithio gyda'r PPI i greu ac ymestyn yr **ystod cyfleoedd a phrofiadau ehangach** i bobl ifanc ddatblygu a chymhwyso sgiliau hanfodol, yn cynnwys profiadau awyr agored a phreswyl perthnasol;
- gweithio gyda'r PPI i ddatblygu fframwaith cymorth personol aml-asiantaeth i alluogi pobl ifanc i gael mynediad i amrywiaeth eang o gymorth yn y lleoliad dysgu a thu hwnt;
- cynllunio'r gwaith i weithredu cymorth **Anogwyr Dysgu** i bobl ifanc yn seiliedig ar y swyddogaeth a nodwyd yn y canllawiau a'r enghreifftiau yn yr unedau hyfforddi a ddatblygwyd yn 2005. Dylai hyn gynnwys y rhai sy'n dilyn rhaglen Anogwyr Dysgu a staff eraill sy'n cydweithio â'r rhai sy'n cael eu hyfforddi;
- arddangos sut y bydd **darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer opsiynau ehangach** yn y maes yn cael ei sicrhau;
- ystyried sut y gellir ymestyn hyblygrwydd a dewis i **ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig**;
- bod â phrotocolau y cytunwyd arnynt ar waith erbyn mis Medi 2006 ar gyfer y **gefnogaeth ychwanegol** sydd ei hangen i alluogi pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac eraill, megis grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig, i gael mynediad i'r holl ystod o gyfleoedd sy'n ddyledus iddynt yn eu llwybr dysgu eu hunain;
- ystyried a **monitro dewisiadau opsiwn a chyflawniad** i ddysgwyr duon a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig ac mewn perthynas â stereoteipio ar sail rhyw;
- datblygu **protocolau pontio** ar gyfer dysgwyr sy'n symud o un Anogwr Dysgu i un arall, neu o un lleoliad dysgu i un arall;
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu **strategaeth gyfathrebu** leol, mewn partneriaeth â'r strategaeth gyfathrebu genedlaethol, i ddweud wrth yr holl bartneriaid am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol;
- mewn cydweithrediad agos â'r PPI lleol, cynhyrchu **Prosbectws Gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed** gan gynnwys **gweithgareddau dysgu a hamdden** a rhai ar y we yn ogystal â rhai wedi'u cyhoeddi.

**Atodiad F**

## Dogfennau a strategaethau cysylltiedig

Cymru: Gwlad Well. Medi 2003
*http://www.cymru.gov.uk/themesbettercountry/index.htm*

Y Wlad sy'n Dysgu. Dogfen Ymbaratoi. Medi 2001
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Y Wlad sy'n Dysgu; Llwybrau Dysgu. Dogfen Ymgynghori. Hydref 2002
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Y Wlad sy'n Dysgu; Llwybrau Dysgu 14-19. Cynllun Gweithredu. Ebrill 2003
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc o 11 i 25 Oed yng Nghymru: (Cyfarwyddyd a Chanllawiau), Gorffennaf 2002
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Ysgolion Bro 2003
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk/pdfs/c3403-community-focused-schools-w.pdf*

Sgiliau Dyfodol Cymru 2003. Arolwg Sgiliau Generig 2003
*http://www.futureskillswales.com/eng/content.php?cID=5&pID=1&zID=58*

Lles yng Nghymru 2002
*http://www.cymru.gov.uk/healthplanonline/health_plan/content/well-being-in-wales-ww.pdf*

Strategaeth E-Dysgu i Gymru 2001
*http://www.cymruarlein.cymru.gov.uk/pdf/e-strategy.pdf*

Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2002
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Dogfen Ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2004
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk/pdfs/seap-04-cons-w.pdf*

Cynllun Gweithredu Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru: Gorffennaf 2003
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol: Cyfnodau Allweddol 1 i 4
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Iaith Pawb 2003
*http://www.cymru.gov.uk/subiculture/content/iaith-pawb-w.pdf*

Fframwaith ar gyfer Addysg Gysylltiedig â Gwaith i Bobl Ifanc 14-19 oed yng Nghymru
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Dogfennau a strategaethau cysylltiedig

Fframwaith ar gyfer Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd i Bobl Ifanc 11-19 oed yng Nghymru
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd: Canllawiau Atodol
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Cysylltiadau rhwng ABCh, AChG ac AGG mewn addysg uwchradd
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2006
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Llwybrau Dysgu 14-19 yng Nghymru, Adroddiad y Dirprwy Weinidog, Tachwedd 2005
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Cymru: Economi yn Ffynnu 2006
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid Ebrill 2006
*http://www.dysgu.cymru.gov.uk*

**Atodiad G**

# Paru'r Craidd Dysgu yng Nghyfnod Allweddol 4

## Sgiliau Allweddol

Mae cyfleoedd ar gyfer sgiliau allweddol Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh yn yr holl feysydd pwnc, fwy neu lai. Dylai ysgolion fod yn cwmpasu elfennau sylweddol o sgiliau allweddol Datrys Problemau, Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun a Gweithio gydag Eraill eisoes ledled y cwricwlwm. Gall ysgolion sydd â pholisïau effeithiol ar ddatblygu sgiliau allweddol sicrhau bod yr holl athrawon yn deall ac yn manteisio ar gyfleoedd yn eu haddysgu.

## Sgiliau Cymraeg

Dylid addysgu rhaglenni astudio statudol Cymraeg neu Gymraeg Ail Iaith i bob disgybl Cyfnod Allweddol 4. Mae gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol eisoes yn gyson gyda'r Craidd.

## Sgiliau cysylltiedig â gwaith

Mae'r gofyniad i ddarparu addysg cysylltiedig â gwaith eisoes yn gyson â'r Craidd Dysgu ac yn cael ei gefnogi gan fframweithiau a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

## Cymru, Ewrop a'r Byd/Cwricwlwm Cymreig

Ar hyn o bryd, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys y Cwricwlwm Cymreig fel gofyniad cyffredin. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu fframwaith i Gymru, Ewrop a'r Byd yn benodol ar gyfer yr ystod oedran 14-19.

## Materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd

Mae'r rhain wedi'u cwmpasu'n fras gan y gofyniad statudol i ddarparu addysg bersonol a chymdeithasol, a gefnogir gan fframwaith a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

## Materion gyrfaoedd

Mae addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd eisoes wedi'u cysoni'n llawn gyda'r Craidd Dysgu ac yn cael eu cefnogi gan fframwaith a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

## Agweddau a Gwerthoedd

Gall gwaith mewn ABCh, Gyrfaoedd a Chymraeg/Saesneg wneud cyfraniadau sylweddol. Mae Addysg Grefyddol statudol hefyd yn rhoi llawer o gyfleoedd buddiol ar gyfer agweddau ar y Craidd Dysgu yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â datblygu agweddau a gwerthoedd cadarnhaol.

## Profiad sy'n canolbwyntio ar waith

Dylai disgyblion gwblhau o leiaf wythnos o brofiad gwaith ac mae gan lawer ohonynt swyddi penwythnos a gwyliau.  Mae rhai yn dewis opsiynau cymhwysol neu alwedigaethol gyda chyfleoedd pellach am brofiad gwaith.

## Cyfleoedd i gymryd rhan yn y gymuned

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac ymroddedig mewn amrywiaeth o weithgareddau o gynlluniau cyfaill darllen i brosiectau amgylcheddol mewn ysgolion.  Gall y cyfleoedd hyn godi o weithgareddau allgyrsiol neu mewn rhaglenni astudio yn ABCh ac Addysg Grefyddol.

## Profiadau diwylliannol/chwaraeon/esthetig/creadigol

Gall pob disgybl elwa ar Addysg Gorfforol statudol ac mae llawer yn cael cyfleoedd trwy bynciau maent wedi'u dewis fel drama, celf a cherddoriaeth. Bydd eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol sy'n darparu amrywiaeth eang o brofiadau, fel cerddoriaeth gymunedol, yr Urdd, Eisteddfodau, Sgowtiaid, Geidiau, chwaraeon unigolyn neu dîm a Gwobr Dug Caeredin.

**Atodiad H**

## Datblygiadau i gefnogi'r Craidd Dysgu

Mae'r datblygiadau wedi'u rhestru isod dan agweddau cysylltiedig y Craidd Dysgu. Nid yw'r penderfyniadau terfynol yngŷn ag amseriad wedi'u cyhoeddi eto:

### Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Bydd gofyniad y Cwricwlwm Cenedlaethol i bob disgybl astudio Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol yn parhau. Bydd y Gorchmynion yn y pynciau hyn yn cael eu diwygio i ddatblygu cwricwlwm sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr a sgiliau. Bydd TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn cael eu diwygio i gynnwys gofynion penodol ar gyfer cyfathrebu/llythrennedd a rhifedd.

O 2009 ymlaen bydd disgwyl i ysgolion gyflwyno, ar gyfer cymhwyster priodol mewn TGCh, yr holl bobl ifanc hynny fyddai'n cael budd ohono.

### Sgiliau Cymraeg

Bydd Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith yn parhau i fod yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd cymwysterau TGAU yn cael eu diwygio i greu amrywiaeth o lwybrau dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol.

### Materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd, yn cynnwys Agweddau a Gwerthoedd

Bydd y Fframwaith ABCh ar gyfer disgyblion 5-16 oed yn cael ei ddiweddaru a'i hymestyn i ddisgyblion 16-19 oed.

### Sgiliau cysylltiedig â gwaith, gwybodaeth a dealltwriaeth am faterion gyrfa, a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith

Bydd gofyn i ysgolion ystyried fframwaith ACCAC ar gyfer addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd, gan gysoni gyrfaoedd ag ABCh a AGG. Mae ACCAC wedi datblygu canllawiau ar y sgiliau sy'n gyffredin i AChG, ABCh ac AGG er mwyn helpu ysgolion i gydgysylltu eu gwaith yn y meysydd hyn.

### Cymru, Ewrop a'r Byd

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu fframwaith i Gymru, Ewrop a'r Byd/Cwricwlwm Cymreig ar draws yr ystod oedran 14-19.

Atodiad I

# Llwybrau Dysgu 14-16 a datblygiadau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

## Gwybodaeth cwricwlwm

**1.** Yn gyffredinol, mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn ceisio cynnig dewis gwirioneddol a chraidd cyffredin o sgiliau, gwybodaeth, agweddau a dealltwriaeth i ddysgwyr. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd yn naturiol gyda Chymhwyster Bagloriaeth Cymru, sydd ag athroniaeth debyg o **ofynion craidd ochr yn ochr â dewis unigol.**

**2.** Ar hyn o bryd, mae peilot Bagloriaeth Cymru yn canolbwyntio ar lefelau uwch a chanolradd ac yn yr ystod oedran 16-19 oed ac mae'r dyfarniadau ar gyfer y garfan wreiddiol wedi'u llunio. Bwriedir dechrau ar y gwaith o ddatblygu'r wybodaeth a gafwyd o'r gwaith hwn, ehangu'r cynllun peilot, a darparu'r cymhwyster ar lefel sylfaen a chanolradd ar draws yr ystod oedran 14-19 oed ym mis Medi 2006. Fel rhan o'r broses hon, bydd gwaith yn cael ei wneud i **gysoni** swyddogaethau Tiwtor Personol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac Anogwr Dysgu Llwybrau Dysgu. Bydd hyn yn ychwanegu at yr ymateb o'r wyth cynllun peilot ar gyfer yr Anogwr Dysgu a phrofiad canolfannau Bagloriaeth Cymru o ran trefniadau hyfforddi. Bydd datblygu'r model peilot hefyd yn mynd i'r afael â gorlwytho posib o'r cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 4.

**3.** Canlyniad y gweithgareddau hyn fydd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a fydd ar gael drwy gydol y Cyfnod 14-19 sydd yn hollol gyson â Llwybrau Dysgu, gan gynnwys y Craidd Dysgu, erbyn mis Medi 2009. Bydd y cymhwyster yn darparu **achrediad trosfwaol** a all gydnabod ystod ddysgu eang a bod yn strwythur allweddol i ddarparu llwybrau unigol yn effeithiol gan amrywiaeth o ddarparwyr dysgu.

**Atodiad J**

# Datblygu swydd yr Anogwr Dysgu yn unol â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru

**Mae swydd yr anogwr dysgu yn allweddol i gynorthwyo'r dysgwr gydag agweddau dysgu y Llwybr Dysgu cyfan gan ganolbwyntio ar alluogi'r person ifanc i ddysgu hyd eithaf ei allu.**

**1.** Bydd swydd yr anogwr dysgu yn cael ei datblygu fel rhan o'r gwaith parhaus o gyflwyno Llwybrau Dysgu fesul cam. Wrth ddatblygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ymhellach yn y sectorau cyn-16 ac ôl-16 bydd angen sicrhau bod swyddi Tiwtor Personol y Fagloriaeth a'r Anogwr Dysgu yn cael eu **cyfuno**.

**2.** Mae llwyddiant Bagloriaeth Cymru wedi dibynnu llawer ar **ansawdd y tiwtora a'r mentora y mae'r myfyrwyr wedi'i dderbyn**. Mae'r gwaith o ddatblygu rhaglenni peilot y Fagloriaeth wedi cynnwys datblygu strwythur bugeiliol ac arweiniad a all **gynghori a chefnogi ymgeiswyr wrth iddynt gynllunio, olrhain a chyflawni eu hastudiaethau**. Mae'r rhaglen wedi'i chefnogi gan **diwtoriaid personol** sy'n gweithio gydag ymgeiswyr i gynhyrchu a gweithredu **Cynllun Gweithredu Unigol** fel rhan o raglen gymorth gyffredinol gan dîm yn cynnwys Cydgysylltydd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, Cydgysylltydd Sgiliau Allweddol a'r Tiwtor Personol. Mae gwaith y tiwtor personol yn cynnwys elfen un-i-un a gwaith grŵp gyda'r dysgwyr.

**3.** Mae swyddi tiwtor personol y Fagloriaeth a'r anogwr dysgu yn cydweddu. Mae'r ddau yn helpu'r dysgwyr i **nodi targedau dysgu ac yn eu cynorthwyo a'u harwain** at gyfleoedd dysgu priodol. Maent yn defnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth i wneud anghenion dysgu dysgwyr yn ganolog i'w gwaith. Cydnabuwyd nad yw'r cymorth sy'n cael ei ddarparu o angenrheidrwydd yn cael ei ddarparu gan un person yn unig. Yn gyffredinol, maent yn gyfrifol am ddarparu **cymorth cyson ac effeithiol**, sy'n rhoi anghenion y dysgwr yn gyntaf, i bobl ifanc.

**4.** Gydag amser, dylai pawb sy'n cynorthwyo dysgwyr gydag elfennau o Lwybrau Dysgu 14-19 fod â chymhwyster Anogwr Dysgu, sy'n cael ei dreialu i ddechrau yng Ngwanwyn 2006.

## Cymharu swydd anogwr dysgu â swydd tiwtor personol Bagloriaeth Cymru

| | Anogwr Dysgu | Tiwtor Personol y Fagloriaeth |
|---|---|---|
| Swyddogaeth allweddol | Cynnig cymorth cyson ac effeithiol, gan roi anghenion y dysgwr yn gyntaf, ac sydd ar gael i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg | Cynnig cymorth cyson ac effeithiol, gan roi anghenion y dysgwr yn gyntaf, ac sydd ar gael i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg |
| | Helpu'r dysgwr i nodi targedau a datblygu Llwybr Dysgu i'w cyflawni | Gweithio gydag ymgeiswyr i gynhyrchu a gweithredu Cynllun Gweithredu Unigol |
| | Rhoi anghenion dysgu dysgwyr yn gyntaf | Sefydlu perthynas ddysgu gyda'r ymgeisydd |
| | Helpu'r dysgwr i ddatblygu'r sgil o ddysgu | Adolygu cynnydd yn rheolaidd, gan gysylltu â'r Sgil Allweddol-Gwella eich Dysgu eich Hun |
| | Deall pob agwedd ar Lwybrau Dysgu. Gwerthoedd, dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol. Ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael mewn dewislen opsiynau lleol | Deall Dewisiadau Opsiynol a chraidd yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru. Cynghori ymgeiswyr ar ddewisiadau/ rhaglenni Craidd ac Opsiynau gan eu harwain at gyfleoedd dysgu priodol |
| | Deall arddulliau dysgu a goblygiadau ar gyfer dewis rhaglen | Cefnogi datblygiad sgiliau astudio, yn cynnwys datblygu amrywiaeth o arddulliau dysgu, rheoli amser, techneg adolygu a thechneg arholiadau |
| | Deall pobl ifanc a'u hanghenion. Deall llwybrau mynediad i gymorth personol | Cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu agweddau priodol wrth sicrhau lles y dysgwr a datblygu ei hunan-barch |
| | Deall swyddogaeth a gwerth cyngor gyrfaoedd proffesiynol fel sail i'r Llwybr Dysgu | |

| | Anogwr Dysgu | Tiwtor Personol y Fagloriaeth |
|---|---|---|
| Methodoleg | Gweithio fel rhan o dîm mewn lleoliad dysgu dan weithiwr dysgu proffesiynol i sicrhau cysondeb a dilyniant<br><br>Cymorth rheolaidd i werthfawrogi dysgu, annog y dysgwr, a goresgyn unrhyw rwystrau i ddysgu<br><br>Gallu gweithio gyda'r person ifanc i nodi cymorth personol priodol<br><br>Gallu cyfeirio at weithiwr cymorth personol proffesiynol gyda chaniatâd y person ifanc<br><br>Gweithio gyda'r dysgwr i ddatblygu Ffeil Cynnydd<br><br>Cadw cofnod o Lwybrau Dysgu a diweddariadau ar gyfer prif leoliadau dysgu<br><br>Gall timau gynnwys cymorth mentora ychwanegol gan fentoriaid busnes neu fyfyrwyr AU yn gweithredu fel mentoriaid<br><br>Pobl ifanc yn cymryd rhan yn wirfoddol yn bennaf<br><br>Amrywiaeth o gymorth presennol i bobl ifanc yn dal ar gael<br><br>Asiantaethau arbenigol, yn cynnwys y sector gwirfoddol, i sicrhau gwasanaethau cefnogi drwy'r ardal megis cyngor iechyd, gwasanaethau atal cenhedlu brys, cymorth iechyd meddwl, gofal cymdeithasol ac ati | Gweithio fel rhan o dîm mewn lleoliad dysgu dan Gydgysylltydd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru<br><br>Cymorth rheolaidd i werthfawrogi dysgu, annog y dysgwr, a goresgyn unrhyw rwystrau i ddysgu<br><br>Gweithio o fewn strwythurau ysgol/coleg i nodi cymorth personol priodol<br><br>Defnyddio strwythurau ysgol/coleg i gyfeirio at gymorth personol gyda chaniatâd y person ifanc<br><br>Gweithio gyda'r dysgwr i gynhyrchu a gweithredu Cynllun Gweithredu Unigol<br><br>Sefydlu mecanwaith i olrhain cynnydd y dysgwr<br><br>Gall timau gynnwys cymorth mentora ychwanegol gan fentoriaid busnes neu fyfyrwyr AU yn gweithredu fel mentoriaid<br><br>Dysgwr ar gwrs Bagloriaeth yn derbyn cymorth fel elfen o'r rhaglen<br><br>Amrywiaeth o gymorth presennol i bobl ifanc yn dal ar gael<br><br>Asiantaethau arbenigol, yn cynnwys y sector gwirfoddol, i sicrhau gwasanaethau cefnogi drwy'r ardal megis cyngor iechyd, gwasanaethau atal cenhedlu brys, cymorth iechyd meddwl, gofal cymdeithasol ac ati |

## Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

1. Gall FfCChC fod yn sylfaen i Lwybrau Dysgu i gydnabod a gwerthfawrogi **ystod eang o ddysgu** y gall pobl ifanc ei gyflawni **trwy weithgarwch ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol**, yn cynnwys **dysgu cysylltiedig â gwaith, cymryd rhan mewn gweithgarwch gwirfoddol a chymunedol, a datblygiadau diwylliannol, chwaraeon a phersonol.**

2. O **2003** ymlaen bydd pob math o ddysgu achrededig, yn cynnwys cymwysterau prif ffrwd a gynigir yng Nghymru, yn dod dan un strwythur – Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae'r **fframwaith** yn cyfuno cysyniadau **nifer y cyflawniadau dysgu (credyd) a gofynion y dysgu hwnnw ar y dysgwr (lefel)** i greu system sy'n gallu cynnwys pob math ac arddull o ddysgu, a phob cymhwyster.

3. Ystyr credyd yw:

- ffordd o gyfrif cyflawniad dysgu sy'n darparu mesur o ddysgu;
- canlyniadau y gellir eu cyflawni mewn oriau damcaniaethol ar lefel benodol;
- dyfarniad a roddir i ddysgwr i gydnabod ei fod wedi cyflawni canlyniadau dysgu dynodedig ar lefel benodedig.

**Mae un credyd (yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru) yn gyfwerth â chanlyniadau dysgu y gellir eu cyflawni mewn 10 awr o amser dysgu.**

4. Yn draddodiadol, roedd lefel y dysgu yn cael ei benderfynu gan y cymhwyster yr astudir ar ei gyfer neu'r flwyddyn astudio mewn rhaglen ddysgu arbennig. Nawr, mae disgrifyddion lefel credyd wedi'u datblygu i hyrwyddo dealltwriaeth fwy cyffredinol o lefel fel dangosydd galw, cymhlethdod, dyfnder astudio a'r annibyniaeth a ddisgwylir gan y dysgwr. Mae'r disgrifyddion hyn o gredydau a lefelau credyd, a dderbynnir ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn sicrhau bod modd lleoli unrhyw uned ar y lefel gywir. Maent yn cwmpasu'r ystod lawn o ddysgu o lefel mynediad i ddysgu ôl-radd a phroffesiynol ar Lefel 8.

5. Lefelau credyd yw:

- dangosyddion cymharol ar gyfer galw, cymhlethdod, dyfnder astudio ac annibyniaeth y dysgwr; cânt eu defnyddio i leoli unedau neu fodiwlau pan fo
- uned neu fodiwl dysgu yn gallu cael ei neilltuo i un lefel credyd yn unig.

6. Nid yw'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol presennol yn cael eu disodli a byddant yn cael eu cynnal drwy'r holl gymwysterau prif ffrwd. Fodd bynnag, gellir rhoi **cydnabyddiaeth o gyflawniad rhannol** i unigolion a fyddai fel arall wedi methu os na fyddent yn gallu parhau gyda'u hastudiaethau neu'n methu yn yr arholiad terfynol, unwaith mae gwerth credyd wedi'i bennu i unedau.

## Manteision y Fframwaith

Mae'r fframwaith credydau a chymwysterau yn galluogi pob dysgwr i ddringo ar yr ysgol ddysgu a bydd yn:

- cynorthwyo'r broses o ddatblygu cymdeithas gynhwysol lle caiff pawb gyfle i gyflawni eu potensial;
- helpu i ddileu rhwystrau i gynnydd;
- hyrwyddo cydnabyddiaeth o'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi twf economaidd yng Nghymru a mannau eraill;
- rhoi cydnabyddiaeth gyfwerth i gyflawniad ar gyfer dysgwyr o bob oed, waeth ydynt yn dysgu yn y gweithle, yn y gymuned, yn yr ysgol, mewn coleg neu brifysgol;
- cydnabod dysgu ble bynnag, pryd bynnag a sut bynnag y caiff ei gyflawni;
- casglu credydau tuag at gymhwyster neu eu cyflawni fel credydau unigol;
- casglu credydau i ddiwallu anghenion penodol unigolion.

**8.** Bydd hyn yn cynorthwyo dysgwyr i:

- egluro gwerth cymharol y dyfarniad i eraill;
- rhoi darlun llawer cliriach i gyflogwr o'r hyn maent yn ei wybod ac y gallent ei wneud;
- trosglwyddo eu gwybodaeth a'u sgiliau rhwng llwybrau gyrfa, darparwyr a ledled Ewrop o bosib.

**9.** Mae'r fframwaith yn darparu strwythur hyblyg sy'n galluogi cyfranogwyr allweddol i:

- ymateb i newid;
- hyrwyddo pontio a chynnydd; a
- chreu cyfleoedd dysgu perthnasol sydd wedi'u teilwra'n bwrpasol.

**10.** Bydd cyflogwyr yn elwa ar:

- y ffaith y bydd mwy o bobl yng Nghymru yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i fodloni gofynion cyflogwyr ac i oresgyn prinder sgiliau;
- y cyfleoedd i'w staff ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithio heb orfod astudio ar gyfer cymwysterau llawn o angenrheidrwydd na chymryd amser i ffwrdd o'r gwaith;
- gallu gweld yn hawdd y swm a'r lefel o ddysgu sydd eisoes wedi'i gyflawni gan ddarpar weithwyr cyflogedig, yn enwedig y rhai heb gymwysterau llawn safonol.

**11.** Er y gallai rhai o'r manteision hyn ddeillio o uno cymwysterau, dim ond wrth **bennu credyd i gymwysterau a chyflawniadau dysgu** y tu allan i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol y gellir sicrhau'r manteision llawn. Mae'r fframwaith

credydau yn darparu'r dull hanfodol o fesur a chofnodi'r holl ddysgu ble bynnag a sut bynnag y caiff ei gyflawni. Yn fwy cyffredinol, bydd Cymru yn elwa wrth i'r diwylliant o fod yn wlad sy'n dysgu ddatblygu trwy fabwysiadu'r fframwaith credydau a chymwysterau.

## Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru

| Y Fframwaith Cymwysterau Cendlaethol a'r FfCAU | Lefel FfCChC |
|---|---|
| Doethuriaeth | 8 |
| Meistr | 7 |
| Anrhydedd | 6 |
| Canolradd | 5 |
| Tystysgrif | 4 |
| NVQ 3, Safon Uwch | 3 |
| NVQ 2, TGAU A*-C | 2 |
| NVQ 1, TGAU D-G | 1 |
| Mynediad | Mynediad |

Cafodd y gwaith o ddatblygu FfCChC ei oruchwylio gan ELWa, ACCAC a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'i ddatblygu ar y cyd ac mewn ymgynghoriad â chyrff dyfarnu, y Cynghorau Sgiliau Sector a chyrff allweddol eraill.

# Symud i System Bwyntiau Newydd

## Cefndir

**1.** Wrth gyhoeddi diwedd darparu **Gwybodaeth am Berfformiad** Ysgolion Uwchradd i ysgolion unigol addawodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes weithio gydag AALl ac ysgolion i ddatblygu ffyrdd o helpu ysgolion i roi eu targedau a'u canlyniadau mewn cyd-destun.

**2.** Er bod yr ystod graddau 'traddodiadol' o 5A*-C a 5A*-G a'r Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghymru o werth maent yn canolbwyntio ar ystod gyfyng o berfformiad. Er bod dull sgorio pwyntiau TGAU/GNVQ yn ehangach, nid yw mor gynhwysol ag y dylai fod, ac nid yw'n adlewyrchu ymdrechion i hyrwyddo **gwerth cyfartal i gymwysterau ym mhob llwybr dysgu**. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn sgil yr agenda 14-19 a'r broses o ddileu GNVQ yn raddol.

**3.** Mae'r DfES a QCA wedi datblygu **system cywerthedd pwyntiau newydd**, a ddefnyddir eisoes yn Lloegr, sy'n galluogi cynnwys ystod lawer ehangach o gymwysterau wrth gyfrif cyfartaledd pwyntiau a mesurau perfformiad. Hyd yn hyn, nid yw Cymru wedi mabwysiadu'r system hon er bod ysgolion wedi derbyn adborth ar sut byddai eu sgôr cyfartalog wedi edrych dan y system ar gyfer canlyniadau 2003/4 a 2004/5. Mae Llywodraeth y Cynulliad ac ACCAC wrthi'n edrych ar y dull ffurfiol gorau o hwyluso'r newid hwn i ddull sgorio pwyntiau ehangach.

## Y system estynedig

**4.** Mae'r **system bwyntiau estynedig** yn darparu pwyntiau cyfwerth i bob cymhwyster ar y rhestr gymeradwy i'w defnyddio gyda disgyblion dan 16 oed.

**5.** Am wybodaeth am y **cymwysterau a gymeradwywyd** i ddisgyblion dan 16 oed cyfeiriwch at y rhestr o gymwysterau allanol a gymeradwywyd dan adran 99 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'r rhestr yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cymwysterau o bob lefel ar draws amrediad eang iawn o feysydd dysgu. Mae pob cymhwyster ar y rhestr yn cynnwys gwerth mewn pwyntiau. Mae rhestr electronig ar gael yn: www.cymru.gov.uk

**6.** Mae rhai grwpiau o gymwysterau wedi cael yr un pwyntiau waeth beth fo'r pwnc, sef cwrs byr TGAU, TGAU a GNVQ. Er enghraifft, mae gradd C ym mhob cwrs TGAU llawn yn werth 40 pwynt.

Fodd bynnag, nid oes gan y cymhwyster BTEC, NVQ a chymwysterau eraill ar yr un lefel yr un pwyntiau o reidrwydd. Mae'r pwyntiau wedi'u penderfynu ar wahân ar gyfer pob cymhwyster. Er enghraifft, mae NVQ Lefel 1 City and Guilds Trin Gwallt yn werth 140 pwynt tra bod NVQ Lefel 1 City and Guilds Garddwriaeth yn werth 168 pwynt.

Mae'r tablau isod yn nodi cyfwerthedd pwyntiau'r prif grwpiau o gymwysterau. O ystyried yr holl gymwysterau gwahanol sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio gyda disgyblion dan 16 oed nid yw'n ymarferol darparu manylion am y cyfan mewn dogfen fel hon.

## Grwpiau cyfwerthedd pwyntiau

### Cymwysterau TGAU

| | A* | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwrs Byr TGAU (y cyfan) | 29 | 26 | 23 | 20 | 17 | 14 | 11 | 8 |
| Cwrs Llawn TGAU (y cyfan) | 58 | 52 | 46 | 40 | 34 | 28 | 22 | 16 |
| Dyfarniad Dwbl TGAU (y cyfan) | 116 | 104 | 92 | 80 | 68 | 56 | 44 | 32 |

### Cymwysterau GNVQ

| | Rhagoriaeth | Teilyndod | Llwyddo |
|---|---|---|---|
| Uned Iaith Sylfaen (Cymraeg Ail Iaith) | 17 | 14 | 9.5 |
| Sylfaen Rhan 1 (y cyfan) | 68 | 56 | 38 |
| Sylfaen Llawn (y cyfan) | 136 | 112 | 76 |
| Uned Iaith Ganolradd (Cymraeg Ail Iaith) | 27.5 | 24.5 | 20 |
| Canolradd Rhan 1 (y cyfan) | 110 | 98 | 80 |
| Canolradd Llawn (y cyfan) | 220 | 196 | 160 |

### Cymwysterau Lefel Mynediad

| | Rhagoriaeth | Teilyngdod | Llwyddo |
|---|---|---|---|
| ELQ yn un o Bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol | 14 | 12 | 10 |

## Cymwysterau Sgiliau Allweddol

| | Llwyddo |
|---|---|
| Lefel 1 | 18.75 |
| Lefel 2 | 34.5 |

## Cymwysterau NVQ

| | Lefel | Bwrdd | Cod QAN | Llwyddo |
|---|---|---|---|---|
| Gofalu am Anifeiliaid | 1 | City & Guilds | 10024359 | 140 |
| Paratoi a Choginio Bwyd | 1 | City & Guilds | Q1051649 | 168 |
| Trin Gwallt | 1 | City & Guilds | 10032435 | 140 |
| Gofalu am Geffylau | 1 | City & Guilds | 10014093 | 140 |
| Garddwriaeth | 1 | City & Guilds | 10023926 | 168 |
| Cyflawni Gweithrediadau Peirianneg | 1 | EAL | Q1053546 | 168 |
| Cyflawni Gweithrediadau Peirianneg | 2 | EAL | Q1053547 | 294 |

## Diplomâu Cyntaf BTEC (Edexcel)

| | Cod QAN | Rhagoriaeth | Teilyngdod | Llwyddo |
|---|---|---|---|---|
| Gofalu am Anifeiliaid | 10017434 | 220 | 196 | 160 |
| Busnes | 10030712 | 220 | 196 | 160 |
| Dylunio | 10023458 | 220 | 196 | 160 |
| Gofalu am Geffylau | 10018347 | 220 | 196 | 160 |
| Garddwriaeth | 10017446 | 220 | 196 | 160 |
| Ymarferwyr TG (Cymorth Systemau TGCh) | 10016971 | 220 | 196 | 160 |
| Celfyddydau Perfformio | 10019984 | 220 | 196 | 160 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus | 1001892X | 220 | 196 | 160 |
| Chwaraeon | 10018700 | 220 | 196 | 160 |
| Gwasanaeth Cerbydau a Thechnoleg | 10015085 | 220 | 196 | 160 |

## BTEC arall (Edexcel)

| | Cod QAN | Rhagoriaeth | Teilyngdod | Llwyddo |
|---|---|---|---|---|
| Tystysgrif Ragarweiniol mewn Perfformio | 10030116 | 68 | 56 | 38 |
| Busnes | 10030128 | 136 | 112 | 76 |

## Cymwysterau Sgiliau Sylfaenol

| | Lefel | Bwrdd | Cod QAN | LLwyddo |
|---|---|---|---|---|
| Llythrennedd Oedolion | 1 | Edexcel | 10013787 | 12.5 |
| Llythrennedd Oedolion | 1 | City & Guilds | 1001357X | 12.5 |
| Rhifedd Oedolion | 1 | City & Guilds | 10013210 | 12.5 |

## Cymwysterau galwedigaethol eraill

| | Lefel | Bwrdd | Cod QAN | LLwyddo |
|---|---|---|---|---|
| Dyfarniad Cynnydd mewn Gwasanaethu a Thrwsio Cerbydau | 1 | City & Guilds | 10016648 | 125 |
| Dyfarniad Cynnydd mewn Gwasanaethu a Thrwsio Cerbydau | 2 | City & Guilds | 1001665X | 230 |
| Tystysgrif Gweinyddu Busnes | 2 | City & Guilds | 1003107 | 46 |

**7.** Am bwyntiau cymwysterau eraill, cyfeiriwch at y **Gronfa Ddata Cymwysterau Agored**, sy'n nodi'r holl gymwysterau a'u pwyntiau. Mae fersiwn electronig y gronfa ddata yn :- http://www.openquals.org.uk/openquals/SimpleSearch.aspx?nav=key

**8.** O ystyried bod y rhestr gymeradwy yn cynnwys llawer iawn o gymwysterau a chyrff dyfarnu mae'n bosib y bydd disgyblion yn ennill cymwysterau allanol wedi'u cymeradwyo na fydd yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn y broses o gyfrif cyfartaledd (e.e. tystysgrifau ASDAN). Yn yr achosion hyn, bydd gofyn i ysgolion anfon manylion am deitl llawn y cwrs, y corff dyfarnu a manylion cyswllt y corff dyfarnu (lle bo'n bosib) i Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad. Bydd hyn yn nodi pa ddarparwyr y mae angen i'r Cynulliad gysylltu â nhw i gael rhagor o ddata am gymwysterau yn y lle cyntaf ac i helpu i wneud y system bwyntiau newydd mor gynhwysfawr â phosib.

## Bagloriaeth Cymru

**9.** Disgwylir i **Fagloriaeth Cymru Canolradd** gael ei gymeradwyo fel cymhwyster i'w ddefnyddio gyda disgyblion dan 16 oed o fis Medi 2006. Ar hyn o bryd, fe'i cymeradwywyd fel peilot i'w ddefnyddio gyda disgyblion 16 oed a throsodd.

**10.** Ar ôl cymeradwyo'r cymhwyster i'w ddefnyddio gyda disgyblion dan 16 oed, bydd Bagloriaeth Cymru Canolradd yn cyfrannu at y system bwyntiau ehangach. Bydd y Cynulliad yn gweithio gydag Llywodraeth y Cynulliad, y QCA a'r DfES i sefydlu cyfwerthedd pwyntiau priodol sy'n adlewyrchu elfennau Bagloriaeth Cymru Craidd. Bydd cymwysterau eraill, dewisol, a astudir gan ddisgyblion y Fagloriaeth yn denu pwyntiau fel y rhestrwyd yng nghronfa ddata Cymwysterau Agored.

**11.** Pan fydd Bagloriaeth Cymru Sylfaen yn cael ei lansio fe gymerir camau priodol i sicrhau y bydd cymhwyster hwnnw hefyd yn cael ei gynnwys yn y cyfwerthedd pwyntiau fel y bo'n briodol.

## Cymharu

**12.** Bydd ysgolion yn parhau i dderbyn manylion am eu pwyntiau cyfartalog ar yr 'hen' system TGAU/GNVQ ar gyfer canlyniadau 2005/06 i sicrhau eu bod yn gallu cymharu canlyniadau dros amser a chofnodi cynnydd. Trwy wneud hyn, bydd gan bob ysgol fynediad i ddata tair blynedd (2003/04, 2004/05, 2005/06) yn yr 'hen' fformat a'r fformat 'newydd'.

## Adolygu'r RE2

**13.** Mae'r bwriad i gyflwyno system bwyntiau newydd i Gymru yn gyfle delfrydol i adolygu cynnwys yr RE2 yn fwy cyffredinol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dechrau adolygiad llawn o gynnwys a chyflwyniad RE2 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o ddarpariaeth addysgol.

## Effaith ar Adrodd a Gosod Targedau

**14.** Bydd angen adlewyrchu'r newidiadau i ddull cyfrif pwyntiau cyfartalog yn y trefniadau adrodd. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn adrodd ar y pwyntiau cyfartalog gan ddefnyddio'r diffiniad newydd hwn wrth lunio Prosbectws yr Ysgol ac Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

**15.** Ar hyn o bryd, mae gofyn i ysgolion osod targedau blynyddol sy'n cynnwys targed ar gyfer pwyntiau cyfartalog disgyblion CA4. Bydd y targed hwn yn parhau ond, maes o law, bydd angen iddo adlewyrchu'r symudiad i system bwyntiau ehangach. Yn yr un modd, bydd gofyn i AALl osod targed ar gyfer pwyntiau cyfartalog fel rhan o'r Cynlluniau Addysg Unigol newydd gan adeiladu ar y rhai a osodwyd gan ysgolion yn eu hardal. Bydd angen i AALl hefyd ystyried y newidiadau wrth lunio eu Dangosyddion Statudol ar gyfer Addysg.

**16.** Bydd canllawiau pellach ar y materion hyn yn cael eu darparu fel rhan o Ganllawiau III yn 2007.

# Adran 5: Cynllun Gweithredu





Cynhyrchwyd y gwaith celf gan Alison White o Ysgol St Christopher, Wrecsam, fel rhan o'i gwaith cwrs TGAU

# ADRAN 5: LLWYBRAU DYSGU 14-19: CYNLLUN GWEITHREDU'R GWEINIDOG 2006-2010

## Rhagair y Gweinidog

Ym mis Tachwedd 2005 cynhyrchodd fy Nirprwy Weinidog, Christine Chapman AC, adroddiad yn nodi ei hargymhellion ar gyfer symud y rhaglen Llwybrau Dysgu 14 -19 yn ei blaen. Addewais bryd hynny y byddai Cynllun Gweithredu yn cael ei gynhyrchu ym mis Mawrth 2006, yn dilyn cyfnod i ganiatáu i'r rhai sydd â diddordeb yn y maes i ymateb i'r adroddiad. Rwy'n falch o allu cyhoeddi'r cynllun hwnnw yn awr.

Roedd rhai o'r ymatebion i Adroddiad Chapman yn gofyn am fwy o eglurder am ein cynigion 14-19. Ni ddylai'r Cynllun Gweithredu hwn, o'i ystyried yng nghyd-destun *y Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau II* sy'n cyd-fynd ag ef, adael unrhyw amheuon ynglŷn â'n bwriadau. **Byddwn yn bwrw ymlaen yn awr i drawsnewid y cyfleoedd addysg a hyfforddiant sydd ar gael i'n pobl ifanc yn y grŵp oedran 14 i 19 yng Nghymru.**

Yr ydym yn benderfynol o ddiwygio'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant mewn ffordd mor sylfaenol â hyn gan fod angen inni:

1. ennyn diddordeb pob person ifanc yn eu haddysg a'u hyfforddiant, a'u symbylu fel y gallant lwyddo ar y lefel uchaf bosibl. Er budd y bobl ifanc hyn a Chymru gyfan, ni allwn dderbyn lefelau cyrhaeddiad isel gormod o bobl yn y grŵp oedran hwn ar hyn o bryd. Drwy eu galluogi i wella eu perfformiad byddwn yn gwella eu cyfleoedd oes a, thrwy addysg a hyfforddiant, byddwn yn hybu cyfiawnder cymdeithasol.
2. annog ein pobl ifanc i ymwneud â dysgu gydol oes. Rhaid inni sicrhau bod y niferoedd mwyaf posibl yn y grŵp oedran hwn mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl 16 a 18 oed. Gwyddom fod y rheini nad ydynt, yn rhy aml, yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol am eu bod wedi cael eu dal ym magl tlodi, eu bod mewn diwylliant o ddibyniaeth neu weithiau eu bod yn troseddu. Mae gennym hefyd dystiolaeth sy'n darbwyllo i ddangos mai'r bobl hynny sy'n cymryd rhan mewn dysgu gydol oes, gan wella eu lefelau sgiliau yn barhaus, sy'n llwyddo orau yn ein byd ni sy'n newid mor gyflym.
3. darparu'r cwricwlwm modern gyda'r ystod gyfoethog o gyfleoedd y mae ei hangen ar ein pobl ifanc i gyd. Mae hyn yn golygu, yn ychwanegol at gymwysterau presennol fel TGAU, Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, fod angen cynnig amrediad llawer ehangach o gyrsiau a chymwysterau.
4. gwella safle a statws dysgu cymhwysol neu ddysgu sy'n gysylltiedig â gwaith fel bod pobl ifanc, o **bob** dawn a gallu, yn cael y cyfle i ganfod cyflogaeth sy'n galw am sgiliau lefel uchel yn ein heconomi fodern.
5. darparu, drwy Fagloriaeth Cymru, gymhwyster trosfwaol a fydd, ar wahanol lefelau, yn cipio cyflawniadau pobl ifanc o ran:
   - y cyrsiau y maent wedi eu hastudio;
   - y sgiliau allweddol y maent yn eu datblygu;

- mathau eraill o ddysgu a phrofiad.

6. cyfrannu at amcanion Iaith Pawb drwy geisio

    - cynnig darpariaeth yn y ddewis iaith lle bo hynny’n bosibl;
    - rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau dwyieithog pobl ifanc;
    - rhoi i bobl ifanc y sgiliau yn y Gymraeg a’r Saesneg a fydd yn eu galluogi i ddysgu a gweithio mewn cymdeithas ddwyieithog.

Mae’r rhain yn rhesymau grymus o blaid newid. Yr wyf yn gwahodd pawb sy’n ymwneud â, neu sydd â diddordeb mewn, addysg a hyfforddiant 14-19 yng Nghymru i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr a chyda’r Rhwydweithiau 14-19 ar lefel yr awdurdodau lleol i wireddu’r diwygiadau hyn, fel y gallwn droi gweledigaeth yn realiti.

Byddaf yn disgwyl i’r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ddechrau gweithio ar weithredu’r Cynllun Gweithredu hwn ar unwaith, ond yr wyf yn barod i dderbyn adweithiau ac ymatebion cyntaf tan 20fed Mai 2006. Gall y rhain fod o gymorth inni fel sail i waith y grwpiau Rheoli Prosiectau sy’n cael eu creu. Yn arbennig, byddwn yn croesawu sylwadau yn dweud sut ym marn rhanddeiliaid y gellir targedu cyllid orau tuag at ddarparu cyfleoedd dysgu newydd i’n pobl ifanc.



**Jane Davidson AC**
**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

*DIWEDDARWYD FIS EBRILL 2006*

# CYNLLUN GWEITHREDU'R LLWYBRAU DYSGU 14-19: CRYNODEB

**Gan ddechrau ym mis Medi 2006,** bydd menter fawr yn cael ei harwain gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau i ennill cefnogaeth ac ymwneud cyflogwyr a'r gymuned fusnes i'r rhaglen 14-19. Bydd hyn yn cynnwys cael cyflogwyr i ddatblygu **Concordat Cyflogwyr** i gefnogi mwy o gyfleoedd dysgu galwedigaethol i bobl ifanc 14 i 19 oed.

**O fis Medi 2007**, yn amodol ar y gwerthusiad allanol cyfredol, bydd Bagloriaeth Cymru ar y lefelau canolradd ac uwch ar gael i bob ysgol, coleg addysg bellach a darparwr hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16 yng Nghymru. Bydd y lefelau sylfaen a chanolradd ar gael i ddysgwyr cyn-16 **o 2009**. Bydd gan bob dysgwr 14-19 hawl i Fagloriaeth Cymru **o fis Medi 2010**.

**O fis Medi 2009**, bydd Cwricwlwm Cenedlaethol newydd yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 4 yng Nghymru (fe'i gweithredir yn y cyfnodau allweddol cynharach yn 2008). Y nodweddion yn y cwricwlwm diwygiedig hwn a fydd yn berthnasol i addysg a hyfforddiant 14-19 fydd:

1. y pwyslais cynyddol sydd i gael ei roi ar sgiliau yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a fydd yn galluogi disgyblion i fod yn barod ar gyfer y profiadau a gânt yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt;
2. y gofyniad i astudio'r Craidd Dysgu yng Nghyfnod Allweddol 4, a fydd yn cynnwys Sgiliau Allweddol, gwybodaeth a dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd, a phrofiadau ehangach;
3. rhaglenni astudio diwygiedig i'r Saesneg, y Gymraeg (Iaith 1af ac 2il Iaith), Mathemateg a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar y sgiliau swyddogaethol sy'n perthyn i'r pynciau hyn;
4. gofynion cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 4 a fydd yn galluogi **pob** person ifanc i lunio llwybrau ar gyfer eu dysgu 14-16, gan fanteisio ar amrediad llawer ehangach o gyrsiau a chymwysterau, yn cynnwys dysgu galwedigaethol.

**Erbyn 2010**, bydd gan bob person ifanc yn y grŵp oedran 14-19 hawl i gymorth dysgu o ansawdd uchel a fwriadwyd i:

1. eu cynorthwyo i ddysgu sut mae dysgu, gan wneud y defnydd gorau o arddulliau dysgu a dilyniant;
2. darparu mynediad at gymorth personol;
3. darparu cyngor diduedd am eu dewisiadau dysgu a gyrfaol.

Pwrpas y cymorth hwn fydd sicrhau bod pob dysgwr yn cael pob cymorth posibl i aros mewn addysg a hyfforddiant ac i ennill y cymwysterau a fydd yn eu galluogi i gyrraedd eu hamcanion.

**Erbyn 2010**, fan bellaf, bydd **pob** person ifanc yng Nghymru yn cael cynnig dewis o opsiynau dysgu cysylltiedig â gwaith a chyffredinol o ansawdd uchel o 14 oed,

gan roi iddynt ddilyniant i mewn i gyflogaeth gysylltiol, neu at gyrsiau addysg bellach/uwch. Seilir hyn ar y Rhaglen Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol i'r DU gyfan, ond caiff ei gymhwyso'n benodol i anghenion dysgwyr a'r economi yng Nghymru, fel y dynodwyd hwy.

**Erbyn 2010**, fan bellaf, bydd seilwaith dysgu newydd wedi cael ei greu yng Nghymru er mwyn darparu'r fframwaith Llwybrau Dysgu i ddysgwyr yn gydweithredol a manteisio ar adnoddau ysgolion, colegau AB a darparwyr hyfforddiant. Cyflawnir hyn drwy:

1 ddatblygu dewislenni opsiynau cydweithredol yn ardal pob awdurdod lleol;

2 ymestyn y prosiectau Braenaru sydd eisoes wedi cael eu cwblhau yn ardaloedd 5 awdurdod lleol yng Nghymru i'r 17 ardal arall;

3 yn amodol ar ymgynghoriad ynghylch cynigion ad-drefnu ôl-16 Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd i gael ei gynnal yng ngwanwyn 2006, mynnu bod pob awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion Braenaru.

**Erbyn 2010** dylai pob ardal o Gymru gynnig addysg gysylltiedig â gwaith o ansawdd uchel mewn sectorau economaidd y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

**Erbyn 2010**, fan bellaf, bydd fframwaith dysgu wedi cael ei sefydlu yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc i fwrw ymlaen â'u haddysg a'u hyfforddiant 14-19 drwy lwybrau dysgu unigol o ansawdd uchel sy'n cyfuno TGAU/ Safon Uwch Gyfrannol/Safon Uwch a dysgu Galwedigaethol ar L1/L2/L3 (sy'n cynnwys elfennau o ddysgu mewn canolfan a dysgu seiliedig ar waith), yn ogystal â phrofiadau ehangach drwy'r Craidd Dysgu, i ddiwallu anghenion a dyheadau unigol. Bydd hyblygrwydd i bobl ifanc i symud rhwng opsiynau o fewn eu llwybr dysgu a chefnogaeth i'w dysgu a'u datblygiad personol.

Er mwyn cyflawni'r uchod, caiff strwythur rheoli prosiect 14-19 newydd ei sefydlu i ymgymryd â'r rhaglen ddiwygio 14-19. Egwyddorion sylfaenol y dull rheoli prosiect a gaiff ei fabwysiadu fydd prosiect cenedlaethol, yn cael ei roi ar waith yn lleol, gyda chyfeirnodi is-ranbarthol. Cyflawnir hyn drwy:

- Grŵp Rheoli Prosiect Cenedlaethol (dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog);
- pedwar is-grŵp i ymgymryd â'r ffrydiau gwaith penodol a nodir yn y Cynllun Gweithredu hwn;
- Rhwydweithiau 14-19 yn ymgymryd â'r arweinyddiaeth strategol a gweithredol yn ardal pob awdurdod lleol;
- yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghori, grwpiau is-ranbarthol i olynu'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant, gyda chynrychiolaeth gref o du cyflogwyr.

Fel rhan o weithredu'r Cynllun Gweithredu hwn, bydd y cyllid sy'n ofynnol i gynnal y Llwybrau Dysgu 14-19 yn cael ei ddarparu drwy:

- gynyddu'r ailgyfeirio ar gyllid sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan ysgolion, colegau AB, darparwyr hyfforddiant a phartneriaid eraill er mwyn cynnal cyfleoedd 14-19 newydd;

- £41m ychwanegol (hyd at 2008) i gynnal agweddau newydd o'r Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn amodol ar y trafodaethau yng nghylchoedd olynol blaengynllunio'r gyllideb;
- trefniadau cyllido ar gyfer darpariaeth a chymorth dysgu sy'n cael eu cyd-drefnu'n well i sicrhau cydlyniad a pharhad rhwng cyllid i ysgolion drwy eu hawdurdodau addysg lleol ar gyfer darpariaeth 14-16 a chyllid a ddarperir i ysgolion, sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant ar gyfer darpariaeth 16-19 drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol.

Bydd y datblygiadau uchod i gyd yn ddarostyngedig i werthuso allanol ac ymgynghori parhaus â rhanddeiliaid er mwyn parhau â'r arddull llunio polisi cynhwysol a fabwysiadwyd drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Llwybrau Dysgu 14-19.

# CYNLLUN GWEITHREDU'R LLWYBRAU DYSGU 14-19 2006-2010

## Rhagymadrodd

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion yn Adroddiad Chapman (Tachwedd 2005) i yrru'r agenda Llwybrau Dysgu 14-19 ymlaen yng Nghymru. Mae'n eistedd ochr yn ochr ag ail argraffiad y Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau (Mawrth 2006) sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am weithredu pob un o'r chwe elfen allweddol yn y fframwaith Llwybrau Dysgu. Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhannu'n ddwy adran benodol:

- Fframwaith strategol cyffredinol;
- y cynllun gweithredu.

## Y Fframwaith Strategol

**1.** Bydd rhaglen y Llwybrau Dysgu 14-19 yn parhau i gael ei rheoli'n genedlaethol a'i rhoi ar waith yn lleol. Cyflawnir hyn drwy:

- Grŵp Cenedlaethol Rheoli Prosiect dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog a fydd yn gweithio drwy 4 is-grŵp ar y themâu canlynol:
    - Gwybodaeth a Chyfathrebu;
    - Dysgu, Sgiliau a Chymwysterau;
    - Cymorth i Ddysgwyr;
    - Cyllido a Chydweithredu.
- Rhwydweithiau 14-19 yn ardaloedd pob un o'r ddau awdurdod ar hugain yng Nghymru.
- Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghori, sefydlu partneriaethau newydd rhanbarthol neu is-ranbarthol, i ddisodli'r CCETs presennol, gyda chynrychiolaeth gryfach o blith cyflogwyr.

*[I symud argymhellion 9.10, 9.11 a 9.12 Chapman ymlaen.]*

**2.** Bydd system Wybodaeth a Chyfathrebu uchel ei phroffil yn cael ei datblygu i sicrhau bod pob grŵp buddiant a phob grŵp o randdeiliaid, yn cynnwys pobl ifanc, yn llwyr ymwybodol o ddatblygiadau 14-19 ac yn cael gwybodaeth ddiweddaru yn rheolaidd amdanynt, a'u bod yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y gwaith o'u datblygu a'u gweithredu. Caiff y gwaith hwn ei arwain gan yr Is-grŵp Gwybodaeth a Chyfathrebu.

*[I symud argymhellion 9.1, 9.3, 9.23 a 9.24 Chapman ymlaen.]*

**3.** Ymgymerir ag ymgyrch fawr i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc i ymgymryd â dysgu sy'n seiliedig ar sgiliau ac yn gysylltiedieg â gwaith yn ganolog i ddatblygiadau 14-19. Bydd hyn yn digwydd, ynghyd â'r diwygio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r system asesu a chymwysterau sy'n dal i fynd rhagddo, er mwyn sicrhau bod:

- pobl ifanc yn cael eu paratoi'n briodol ar gyfer astudiaethau 14-19;
- y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn gyson â'r Llwybrau Dysgu;
- Bagloriaeth Cymru ar gael ym mhob sefydliad dysgu i ddysgwyr o bob gallu.

Caiff y gwaith hwn ei arwain gan yr Is-grŵp Dysgu, Sgiliau a Chymwysterau.

*[I symud argymhellion 9.2, 9.4, 9.5, 9.14, 9.15, 9.16, 9.17 a 9.18 Chapman ymlaen.]*

**4.** Caiff system o gymorth integredig i ddysgwyr ei chreu i sicrhau y bydd gan bob person ifanc hawl i gymorth dysgu a mynediad at gymorth personol a fwriadwyd i sicrhau eu cyfranogiad ac i'w cadw mewn addysg a hyfforddiant 14-19. Caiff y gwaith hwn ei arwain gan yr Is-grŵp Cymorth i Ddysgwyr.

*[I symud argymhellion 9.6, 9.7, 9.8 a 9.9 Chapman ymlaen.]*

**5.** Bydd y trefniadau cyllido ar gyfer y ddarpariaeth a'r cymorth dysgu yn cael eu hadolygu a'u haddasu yn ôl yr angen i sicrhau cydlyniad a pharhad rhwng y cyllid i ysgolion drwy'r awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth 14-16 a'r cyllid i'r awdurdodau lleol (i ysgolion) a sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant ar gyfer darpariaeth 16-19 drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS). Dylai'r trefniadau cyllido:

- sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyrchu at y cyfleoedd a'r cymorth dysgu y mae ganddynt hawl iddynt;
- hwyluso mwy o gydweithredu rhwng ysgolion, sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant.

Caiff y gwaith hwn ei arwain gan yr Is-grŵp Cyllido a Chydweithredu.

*[I symud argymhellion 9.13, 9.19, 9.20 a 9.21 Chapman ymlaen.]*

## Rheoli'r Gweithredu

Bydd y trefniadau rheoli sydd wedi eu nodi yn y rhagymadrodd hwn yn sicrhau bod y Cynllun Gweithredu hwn yn parhau i fod yn ddogfen fyw sy'n darparu dulliau priodol o sicrhau bod pob agwedd o'r polisi yn cael ei rhoi ar waith. Yr ydym yn sylweddoli cymaint o newid y mae'r cynigion hyn yn ei gynrychioli, a chredwn, diolch i'r gefnogaeth yr ydym wedi ei chael gan bob sector wrth ddatblygu'r polisi, fod angen inni weithredu ar fyrder i wneud y newidiadau hynny fel bod llawer mwy o'n pobl ifanc yn cael mwy o lwyddiant.

Mae'r Cynllun Gweithredu a rhoi'r Llwybrau Dysgu ar waith yn cynrychioli cyfuniad unigryw o ddatblygiadau newydd ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth sydd, gyda'i gilydd, yn creu fframwaith a fydd o fudd i bob dysgwr. Felly mae angen inni symud o sefyllfa lle mae rhai dysgwyr, mewn rhai rhannau o Gymru, yn elwa o rai agweddau o'r Llwybrau Dysgu, i un lle mae'r dysgwyr i gyd yn profi pob un o chwe elfen y Llwybrau Dysgu mewn cyfuniad sy'n gweddu i'w hanghenion. Mae hyn yn golygu arian newydd sylweddol i gyd-fynd â'r cyllid prif ffrwd presennol mewn cydnabyddiaeth o alwadau newydd y fframwaith hwn ond, er mwyn inni sicrhau ymdriniaeth gyfannol i'r holl ddysgwyr 14-19, bydd angen i'r cyllid presennol ar gyfer dysgwyr yn y grŵp oedran hwn gael ei wario mewn ffyrdd gwahanol.


Nid yw rhoi hyn ar waith yn wyddor fanwl gywir, ond byddwn yn parhau i ymdrin mewn modd cynhwysol â datblygiadau pragmatig sydd, o'r amgylchiadau tra gwahanol ym mhob ardal, yn adeiladu fframwaith hawliau i bob person ifanc 14-19. Byddwn yn parhau i ddibynnu ar bartneriaid ym mhob sector i weithio mewn partneriaeth ar lefelau cenedlaethol a lleol i helpu i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith ac i sefydlu'r Llwybrau Dysgu yn raddol. Mae cyflawni hyn yn dibynnu ar ddefnyddio mecanweithiau cyllido, deddfwriaeth ac ymroddiad ac ewyllys da partneriaid yn effeithiol i gynllunio a gweithredu'r Llwybrau Dysgu.
Mae'r ymroddiad a'r ewyllys da sydd wedi cael eu buddsoddi hyd yma wedi ein galluogi i symud cyn belled â hyn yn gyflym ac i ddatblygu model y mae gan bawb ohonom ffydd ynddo. Bydd yn parhau i fod yn un o'r cyfryngau pwysicaf a mwyaf effeithiol i greu newid ac yr ydym yn bwriadu i'r trefniadau rheoli adlewyrchu hyn.

Bydd y Grŵp Cenedlaethol Rheoli Prosiect 14-19, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog, yn cynnwys y cynrychiolydd 14-19 o Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn ogystal â chynrychiolwyr o'r holl sectorau perthnasol a bydd yn bwrw golwg strategol drosfwaol dros bob agwedd o weithredu'r cynllun. Bydd aelodau'r Grŵp Rheoli Prosiect 14-19 hwn yn adlewyrchu gwybodaeth a thystiolaeth o'u sectorau eu hunain ac o'r pedwar is-grŵp strategol ar hynt y Llwybrau Dysgu a bydd y grŵp yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud argymhellion i'r Gweinidog am unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r camau gweithredu arfaethedig, neu ddiwygiadau i'r Cynllun Gweithredu ei hun. Bydd enwebiadau i'r grŵp hyn yn cael eu gwahodd yn gynnar yn nhymor yr haf 2006.

Bydd pedwar is-grŵp yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am bob un o'r pedair adran o bwys y mae'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun yn cael eu rhannu rhyngddynt a byddant yn bwydo i mewn i'r Grŵp Cenedlaethol Rheoli Prosiect 14-19. Bydd y grwpiau hyn yn dod â'r swyddogion perthnasol o'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) ac adrannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad ynghyd, ond byddant hefyd yn edrych tuag allan a byddant yn cynnwys partneriaid allanol lle bynnag y bydd hynny'n bosibl. Bydd hyn yn cynnwys cyswllt agos â'r Rhwydweithiau 14-19 ym mhob ardal, sef y prif fecanwaith cyflenwi strategol er mwyn rhoi'r Llwybrau Dysgu ar waith.

Bydd yr Is-grwpiau Gwybodaeth a Chyfathrebu, Dysgu, Sgiliau a Chymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr yn gweithio'n agos gyda'r Is-grwp Cyllido a Chydweithredu i sicrhau bod y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol yn cael ei wneud o'r cyllid sydd ar gael - yn gyllid ychwanegol a phresennol - i sicrhau newid. Bydd tystiolaeth o'r Rhwydweithiau 14-19 yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu a chaboli agweddau o'r polisi, er enghraifft, wrth ddatblygu canllawiau pellach, ar sail yr arferion gorau a thystiolaeth o'u heffaith, ar sut y gall swyddogaeth yr Anogwr Dysgu gael ei rhoi ar waith mewn ffordd sy'n darparu'r cymorth gorau posibl i ddysgwyr ond sydd hefyd yn fforddiadwy a bod y capasiti ar gyfer hynny ar gael. Gallai peth o'r capasiti hwn yn yr ysgol a'r sector AB gael ei ryddhau drwy newid y cydbwysedd rhwng amser addysgu uniongyrchol ac amser a neilltuir i ddarparu cymorth dysgu. Fodd bynnag, bydd angen datblygu ffyrdd eraill i sicrhau hawliau dysgwyr mewn sefydliadau dysgu llai. Bydd angen hefyd inni ystyried ac amddiffyn anghenion dysgwyr y mae eu hoedran yn disgyn y tu allan i'r ffenestr 14-19 y mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ceisio ei chynrychioli, yn enwedig cyfnod allweddol 3 a dysgwyr sy'n Oedolion, y dylai budd sylweddol ddeillio iddynt o'r cynigion hyn.

*DIWEDDARWYD FIS EBRILL 2006*






*DIWEDDDARWYD FIS EBRILL 2006*

## LLWYBRAU DYSGU 14-19: CYNLLUN GWEITHREDU 2006-2010

**1. Bydd rhaglen y Llwybrau Dysgu 14-19 yn bolisi cenedlaethol sy'n cael ei roi ar waith yn lleol. Cyflawnir hyn drwy Grŵp Rheoli'r Prosiect Llwybrau Dysgu 14-19 dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog a chan weithio drwy 4 Is-grŵp sy'n edrych ar y themâu canlynol:**

- Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Dysgu, Sgiliau a Chymwysterau
- Cymorth i Ddysgwyr
- Cyllido a Chydweithredu

*I symud argymhellion 9.10, 9.11 a 9.12 Chapman ymlaen*

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **CCETs**<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddyfodol y CCETs. Gallai hyn arwain at eu dileu'n gyfan gwbl neu efallai y byddai'n bosibl lleihau eu nifer. Mae angen lefel o gyd-drefnu ar draws ffiniau'r awdurdodau lleol fel a geir yn y meysydd a gwmpasir gan gynlluniau braenaru rhanbarthol neu sectoraidd. Gallai CCETs is-ranbarthol chwarae rôl bwysig yn sicrhau cyd-drefnu strategol ar weithgareddau sy'n croesi ffiniau'r awdurdodau lleol ac yn bwydo i mewn i "Bobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru".<br><br>Gallai aelodaeth CCET is-ranbarthol gynnwys o leiaf un cynrychiolydd o bob Rhwydwaith 14-19 a PPI yn yr ardal. | 1.1 Bydd yr ymgynghori ynghylch dirprwyo'r pwerau cynnig mewn perthynas ag ad-drefnu'r chweched dosbarth 16-19 yn cynnwys cynnig y dylai'r CCETs ar eu gwedd bresennol beidio â bodoli. Bydd y ddogfen ymgynghori yn cynnig y dylent gael eu disodli gan lai o bartneriaethau yn gweithredu ar lefel ranbarthol neu is-ranbarthol sy'n gyson ag elfennau o'r Cynllun Gofodol, yn amodol ar yr ymgynghoriad sydd i gael ei gynnal am drosglwyddo'r pwerau i gynnig ad-drefniadau chweched dosbarth i'r awdurdodau lleol. Byddai'r partneriaethau hyn yn adlewyrchu aelodaeth yr hen CCETs i raddau, yn arbennig buddiannau cyflogwyr ac undebau llafur, a gallent hefyd o bosibl gynnwys aelodau o'r cynghorau sgiliau sector, er mwyn hwyluso anghenion o ran sgiliau.<br>1.2 Dylai'r partneriaethau newydd, a allai gael eu galw'n Grwpiau Cyfeirio Dysgu a Sgiliau (yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghori), gysylltu'n agos â'r Rhwydweithiau 14-19 yn eu hardal ranbarthol/is-ranbarthol benodedig. Byddent yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Rhwydwaith 14-19 a PPI yn yr ardal a byddai ganddynt rôl ymgynghorol bwysig yn datblygu'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol.<br>1.3 Bydd angen adolygu rôl ac aelodaeth pob Rhwydwaith 14-19 i sicrhau y cedwir y gynrychiolaeth leol berthnasol ar y CCET blaenorol a hefyd i sicrhau cynrychiolaeth o'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.<br>1.4 Mewn ymgynghoriad â CCETs a phartneriaethau eraill cyfredol, bydd cyngor pellach yn cael ei ddatblygu ar rôl a chyfrifoldebau'r partneriaethau i'r dyfodol, gan roi sylw i'r ymatebion i'r ymgynghori ynghylch dirprwyo'r pwerau cynnig mewn perthynas ag ad-drefnu'r chweched dosbarth 16-19, ym **mis Medi 2006** | **Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghori, sefydlu partneriaethau rhanbarthol neu is-ranbarthol newydd gyda chylch gorchwyl a chanllawiau clir.**<br>**Rhwydweithiau 14-19 yn cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol ar lefel leol** |
| **Cynnwys Cyflogwyr**<br><br>Dylid gweithio gyda chymdeithasau cyflogwyr a'r Rhwydweithiau 14-19 i ddatblygu ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o sicrhau bod llais yn cael ei roi i gyflogwyr. Gallai hyn gynnwys nodi'r grwpiau cyflogwyr presennol perthnasol a allai fod yn ffocws i wybodaeth a datblygu. Efallai hefyd y byddai'n bosibl cysoni peth o'r gwaith hwn â datblygiad CCETs is-ranbarthol. | 1.5 Cynigir y dylai fod gan y partneriaethau rhanbarthol neu is-ranbarthol newydd gylch gwaith penodol i gynrychioli buddiannau cyflogwyr a'r cynghorau sgiliau sector. Ymgynghorir ynghylch hyn fel y nodwyd uchod. Bydd hyn yn cynnwys cysylltiadau â gweithgarwch rhanbarthol presennol gan gyflogwyr, megis Fforwm Cyflogwyr Gogledd Ddwyrain Cymru, a grwpiau cyffelyb mewn rhanbarthau eraill. **O fis Medi 2006**<br>1.6 Bydd cyflogwyr yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu Concordat Cyflogwyr fel modd i gynyddu'r cyfleoedd dysgu cysylltiedig â gwaith i bobl ifanc 14-19 oed **o fis Medi 2006** | **Grwpiau Cyfeirio Dysgu a Sgiliau yn cael eu sefydlu gyda rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u nodi'n glir.**<br>**Datblygu Concordat Cyflogwyr gan arwain at fwy o ymwneud gan gyflogwyr.** |

**2. Datblygir system Wybodaeth a Chyfathrebu uchel ei phroffil i sicrhau bod pob grŵp buddiant a phob grŵp o randdeiliaid yn llwyr ymwybodol o ddatblygiadau 14-19 ac yn cael gwybodaeth ddiweddaru yn rheolaidd amdanynt.**

*I symud argymhellion 9.1, 9.3, 9.23 a 9.24 Chapman ymlaen*

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau**<br>Dylid darparu canllawiau pellach ar ffurf copi papur ac ar y wefan 14-19 i gynnwys:<br>• Rhaglen ddatblygu a hyfforddi i anogwyr dysgu<br>• Canllawiau ar y Craidd Dysgu ac enghreifftiau<br>• DVD/CD Rom ar y Llwybrau Dysgu | 2.1 Mae canllawiau ar y Craidd Dysgu wedi bod ar gael ar wefan ACCAC er mis Medi 2005. Bydd Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau II yn cael eu cylchredeg ar ffurf copi caled a byddant yn cynnwys gwybodaeth newydd a fydd yn cwmpasu anogwyr dysgu a'r craidd dysgu **Mis Mawrth 2006**<br>2.2 Bydd DVD yn cael ei gylchredeg i athrawon, darlithwyr a staff hyfforddiant seiliedig ar waith yn amlinellu datblygiadau'r Llwybrau Dysgu **Mis Mawrth 2006**<br>2.3 Caiff Canllawiau pellach ar gynllunio Llwybrau Dysgu eu cyhoeddi gan ACCAC yn **2008** | **Pob darparwr dysgu yn ymwybodol o bob un o chwe elfen allweddol y Llwybrau Dysgu. Y Llwybrau Dysgu yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r Canllawiau diweddaraf i bob dysgwr 14-19.** |
| **Cydraddoldeb**<br>Dylai'r Llwybrau Dysgu 14-19 ddangos ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydraddoldeb yn glir drwy:<br>• Weithio gyda chyrff cydraddoldeb<br>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu i sectorau penodol er mwyn goresgyn rhwystrau<br>• Cynorthwyo'r Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol i ddylanwadu ar gyflogwyr er mwyn herio stereoteipio o ran hil, rhyw ac anabledd<br>• Dynodi deunyddiau hyfforddi priodol i gynorthwyo ymarferwyr i hyrwyddo cydraddoldeb<br>• Annog pobl ifanc i fanteisio ar Lwfansau Cynhaliaeth Addysg fel bod rhagor ohonynt yn gallu aros ymlaen mewn addysg ar ôl 16 oed | 2.4 Bydd gwaith yn cael ei gomisiynu i gasglu a choladu'r ystod o waith presennol sydd wedi mynd ati i ymdrin ag anghydraddoldebau rhyw ac anghydraddoldebau eraill ym maes dysgu ac yn y gweithle, er mwyn gwneud argymhellion gogyfer â gwahanol sectorau o ran camau gweithredu i oresgyn rhwystrau a nodi'r bylchau y mae angen eu llenwi. I adrodd erbyn **mis Tachwedd 2006**<br>2.5 Bydd deunyddiau hyfforddi penodol yn cael eu datblygu i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth. Erbyn **mis Mawrth 2007**<br>2.6 Cynhelir trafodaethau gyda chynrychiolwyr allweddol ym mhob sector i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn symud gwaith i oresgyn rhwystrau yn ei flaen. Erbyn **mis Rhagfyr 2006**<br>2.7 Bydd y swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector i sicrhau eu bod yn cyflawni'r gofyniad i ymdrin â'r mater hwn yn eu Cytundebau Sgiliau Sector. **Ar y gweill**<br>2.8 Gwneir gwaith gyda Gyrfa Cymru o safbwynt cynghorwyr gyrfa a'r aelodau hynny o staff Gyrfa Cymru sy'n gweithredu fel Anogwyr Dysgu er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth o stereoteipio, ac i sicrhau eu bod yn cael gwybod yn llawn am y gwaith sy'n deillio o'r camau gweithredu uchod a'u bod yn rhan ohono. Bydd arolygiad thematig Estyn o Gyrfa Cymru i edrych ar faterion rhyw, sydd i gael ei gynnal yn 2006-07, yn help i hybu arferion da. **Ar y gweill**<br>2.9 Bydd yr Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol yn gweithio'n benodol gyda chyflogwyr i herio stereoteipio o ran hil, rhyw ac anabledd **o fis Ebrill 2006**<br>2.10 Bydd yr hyfforddiant peilot ffurfiol ar gyfer rôl Anogwr Dysgu yn ymdrin ag ystyriaethau cydraddoldeb i bawb. **O wanwyn 2006**<br>2.11 Gofynnir i'r Rhwydweithiau 14-19 sicrhau mynediad cyfartal at bob agwedd o'r Llwybrau Dysgu, wrth iddynt ddatblygu, i ddysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol **o fis Medi 2006**<br>2.12 Bydd y ddarpariaeth hyfforddi ffurfiol i Anogwyr Dysgu yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd, a dylid darparu digon o anogwyr dysgu i sicrhau cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg. **O wanwyn 2006**<br>2.13 Gofynnir hefyd i'r Rhwydweithiau 14-19 ddatblygu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg **o fis Medi 2006**<br>2.14 Bydd gwaith yn cael ei gomisiynu i godi ymwybyddiaeth o'r achos busnes o blaid sgiliau yn y Gymraeg. **O fis Ebrill 2006**<br>2.15 Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod pob dysgwr yn ymwybodol o'r lwfansau sydd ar gael ar gyfer gwahanol agweddau o'r Llwybrau Dysgu megis lwfansau hyfforddi ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a Lwfansau Cynhaliaeth Addysg. **Ar y gweill** | **Sefydlu cynlluniau gweithredu penodol i gynorthwyo sectorau i oresgyn rhwystrau.**<br>**Mwy o ddysgwyr yn aros mewn addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed.**<br>**Defnyddio deunyddiau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth ac ymdrin â materion o bwys.**<br>**Cyflogwyr yn fwy ymwybodol o faterion stereoteipio ac yn barod i'w herio.**<br>**Anogwyr Dysgu yn cynorthwyo dysgwyr i oresgyn stereoteipio.**<br>**Mwy o ddysgwyr yn gwneud dewisiadau mewn meysydd an-nhraddodiadol.** |

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Strategaeth Cyfathrebu**<br><br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda'r Rhwydweithiau 14-19 i ddatblygu strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr i farchnata'r Llwybrau Dysgu 14-19 i bobl ifanc, darlithwyr, athrawon, rhieni, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr, aelodau etholedig a chyrff llywodraethu.<br>Mae gan y Ddraig Ffynci, fforymau ieuenctid a chynghorau ysgolion rôl bwysig i'w chwarae yn hyn yn ogystal â Gyrfa Cymru Ar-lein a CLIC, y prosiect gwybodaeth a chyngor cenedlaethol.<br>Y cam cyntaf yn y strategaeth hon fydd DVD yn egluro goblygiadau'r Llwybrau Dysgu 14-19 i ymarferwyr a bydd taflen o wybodaeth gyffredinol i bawb yn cael ei darparu. | 2.16 Caiff system wybodaeth a chyfathrebu ddwyieithog, uchel ei phroffil, ei datblygu i sicrhau bod pob grŵp buddiant a phob grŵp rhanddeiliaid yn llwyr ymwybodol o'r datblygiadau 14-19 a'u bod yn cael gwybodaeth ddiweddaru'n rheolaidd. **Haf 2006**<br>2.17 Bydd y Grŵp Cyfathrebu cyfredol sy'n cynnwys partneriaid Rhwydwaith, yr Is-adran Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion ac ELWa yn cael ei gyfnerthu i greu'r Grŵp Gwybodaeth a Chyfathrebu **Haf 2006**<br>2.18 Datblygir strategaeth ar ddarparu gwybodaeth yn y ffordd orau bosibl i gyflogwyr, gweithwyr proffesiynol addysg a hyfforddiant a phobl ifanc. **Mis Hydref 2006**<br>2.19 Gwneir rhagor o waith gyda phobl ifanc ar lefel Rhwydwaith a'r lefel genedlaethol i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o'r Llwybrau Dysgu drwy weithgareddau lleol a rhanbarthol. **O haf 2006**<br>2.20 Dosbarthu'r DVD. **Mis Mawrth 2006**<br>2.21 Taflenni marchnata i gael eu paratoi am y Llwybrau Dysgu. **Mis Mehefin 2006**<br>2.22 Strategaeth farchnata ar gyfer dysgu a chymwysterau galwedigaethol i gael ei datblygu i ddysgwyr o bob oedran, ond gyda ffocws penodol ar bobl ifanc 14-19. **Hydref 2006**<br>2.23 Bydd y strategaeth farchnata'n sicrhau bod gwybodaeth ar gael am y cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg **Mis Ionawr 2007** | **Pob grŵp perthnasol o randdeiliaid yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o ran Llwybrau Dysgu 14-19.**<br>**Dysgwyr 14-19 oed yn ymwybodol o'u hawl i opsiynau a chymorth.**<br>**Pobl ifanc 14-19 yn ymwybodol o fanteision dysgu a chymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith.** |
| **Pobl Ifanc**<br><br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc i sicrhau bod y Llwybrau Dysgu 14-19 yn diwallu eu hanghenion.<br>Bydd pob partner yn cael anogaeth fyw i gynnwys dysgwyr ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau Llwybrau Dysgu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. | 2.24 Caiff strategaeth ei chynhyrchu i sicrhau cyfranogiad tymor hir pobl ifanc ym mhob agwedd o'r Llwybrau Dysgu. Ar y lefel genedlaethol, bydd hyn yn cynnwys grwpiau ffocws o bobl ifanc ar wahanol gamau ar eu Llwybrau Dysgu a thystiolaeth gan bobl ifanc i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar adegau priodol. **Ar y gweill**<br>2.25 Bydd y Ddraig Ffynci yn cael ei chynnwys yn y gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu'r Llwybrau Dysgu.<br>2.26 Ar lefel leol, disgwylir i bob Rhwydwaith 14-19 gynnwys dysgwyr ym mhob agwedd o ddatblygiad y Llwybrau Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. **Ar y gweill**<br>2.27 Cynhelir arolwg o argraffiadau dysgwyr. **Gwanwyn 2007** | **Bydd pobl ifanc 14-19 yn cyfranogi yn y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol i ddatblygu a gwerthuso Llwybrau Dysgu.** |

**3. Ymgymerir ag ymgyrch fawr i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc i ymgymryd â dysgu seiliedig ar sgiliau a dysgu galwedigaethol yn ganolog i ddatblygiadau 14-19. Bydd hyn, ynghyd â'r diwygio ar y Cwrciwlwm Cenedlaethol a'r system asesu a chymwysterau sy'n dal i fynd rhagddo, yn sicrhau bod:**

- pobl ifanc yn cael eu paratoi'n briodol ar gyfer dysgu 14-19;
- y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cyd-fynd â'r Llwybrau Dysgu;
- Bagloriaeth Cymru ar gael i ddysgwyr o bob gallu.

*I symud argymhellion 9.2, 9.4, 9.5, 9.14, 9.15, 9.16, 9.17, 9.18 Chapman ymlaen*

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith**<br>Dylai'r Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith a gyflwynir yn y Craidd Dysgu gael ei wella drwy:<br>• Annog cynrychiolwyr busnes i dreulio mwy o amser mewn sefydliadau dysgu<br>• Ymestyn y cyfleoedd i ymgymryd â lleoliadau profiad gwaith o safon<br>• Sicrhau bod gweithgareddau partneriaethau addysg a busnes yn cyd-fynd â gwaith y Rhwydweithiau 14-19<br>• Annog a chynorthwyo pob maes yn y sector cyhoeddus i gydnabod a hyrwyddo ei gyfraniad posibl tuag at brofiad sy'n canolbwyntio ar waith<br>• Annog rhagor o gymryd rhan yng Nghynllun Cwmnïau Cydweithredol yr Ifanc i gefnogi model entrepreneuriaeth yr economi gymdeithasol ar y cyd â chynllun Menter yr Ifanc<br>• Datblygu cronfeydd data Gyrfaoedd presennol ymhellach i greu cronfa ddata genedlaethol fwy cydlynol<br>• Sicrhau cyfleoedd i bob person ifanc i gyrchu at Brofiad sy'n Canolbwyntio ar Waith ar sail leol, Cymru gyfan, y DU gyfan ac yn rhyngwladol<br>• Gwneud yn siŵr fod cymorth ar gael i sicrhau cyfle cyfartal, yn cynnwys, er enghraifft, pobl ifanc mewn gofal, eraill o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sydd ag anableddau.<br>• Datblygu ac ymestyn yr arferion da presennol o ran achredu cyflogaeth ran-amser dysgwyr fel rhan o'u Profiad sy'n Canolbwyntio ar Waith. | 3.1 Mae'r Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol yn datblygu ffyrdd o sicrhau mwy o ymwneud o du cyflogwyr drwy gysylltiadau o fewn yr IOD, CBI, FSB ac ICAEW. **Ar y gweill**<br>3.2 Gwneir gwaith gyda Gyrfa Cymru a chyflogwyr i ehangu'r cyfleoedd ar gyfer lleoliadau profiad gwaith o safon drwy gyfrwng y Gymraeg. **O fis Medi 2006**<br>3.3 Bydd yr Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol yn gweithio gyda Gyrfa Cymru a'r Cynghorau Sgiliau Sector i hyrwyddo dysgu galwedigaethol ac i nodi 10-12 busnes bach i ganolig eu maint ar gyfer gwaith penodol i helpu i ddenu cyflogwyr i ymwneud mwy â'r maes. **Ar y gweill**<br>3.4 Bydd Cyngor y Sector Gwirfoddol yn gweithio gyda chyflogwyr sector cyhoeddus i ddatblygu strategaeth i ddarparu mwy o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith (2006-7)<br>3.5 Datblygir pecynnau gwybodaeth am Gwmnïau Cydweithredol yr Ifanc a chânt eu dosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. **Haf 2007**<br>3.6 Sefydlir cronfa ddata o'r holl fentrau cymdeithasol yng Nghymru i gynnwys rhestr o fusnesau cydweithredol sy'n barod i gymryd disgyblion ar brofiad gwaith, er mwyn helpu i ehangu gwybodaeth am fentrau cymdeithasol a'r economi gymdeithasol. **2007**<br>3.7 Bydd datblygiadau drwy Gyrfa Cymru Ar-lein fel rhan o brosiectau Llwybrau Dysgu ESF yn gwella'r cronfeydd data presennol erbyn mis **Gorffennaf 2008**<br>3.8 Bydd y gronfa ddata yn cynnwys cyfleoedd ac anghenion cyflogwyr am sgiliau dwyieithog.<br>3.9 Bydd cysylltiadau Rhwydweithiau 14-19 â chyflogwyr/cyrff cyflogwyr yn cael eu cryfhau drwy weithgarwch lleol ac fel rhan o brosiectau ESF. **Ar y gweill**<br>3.10 Caiff dysgu anffurfiol ei gynnwys fel rhan o'r dysgu a geir yn yr ystâd gaeth ac wrth dracio troseddwyr ifanc. **Haf 2007**<br>3.11 Gofynnir i rwydweithiau 14-19 fonitro mynediad at brofiad sy'n canolbwyntio ar waith i ddysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, pobl ifanc mewn gofal, y rhai sydd o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sydd ag anableddau. **Ar y gweill**<br>3.12 ACCAC a CQFW i drafod achredu gyda'r cyrff dyfarnu, gan sefydlu pa arferion da sy'n bodoli'n barod a datblygu adnoddau erbyn mis **Medi 2008**<br>3.13 Bydd CQFW yn cipio ystod sy'n mynd yn fwy a mwy eang o lwyddiannau unigol drwy gredyd ar draws yr holl gyd-destunau dysgu; bydd yn darparu ac yn profi modelau i fynegi llwyddiannau mewn ffyrdd clir, hawdd i'w deall. **Haf 2008** | **Mwy o ymwneud o du cyflogwyr â phob agwedd o'r Llwybrau Dysgu.**<br>**Mwy o bobl ifanc yn ymwybodol o, ac yn cymryd rhan yng, Nghwmnïau Cydweithredol yr Ifanc.**<br>**Mwy o bobl ifanc yn ymgymryd â phrofiad gwaith mewn mentrau cymdeithasol.**<br>**Profiad sy'n canolbwyntio ar waith ar gael ar y lefel leol, lefel Cymru, lefel y DU a'r lefel ryngwladol.**<br>**Arferion da o ran achredu profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cael eu lledaenu a'u mabwysiadu**<br>**Llwybrau Dysgu i droseddwyr ifanc o Gymru, yn cynnwys llinynnau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol.**<br>**CQFW yn darparu fframwaith i achredu ystod eang o brofiadau sy'n cyfrannu at y Llwybrau Dysgu.** |
| **Llwybrau Dysgu sy'n Canolbwyntio ar Waith**<br>Dylai'r Cynghorau Sgiliau Sector, gyda chymorth yr Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol, ddatblygu ystod o Lwybrau Dysgu sy'n canolbwyntio ar waith ("prentisiaethau cyfun") sy'n darparu dysgu sy'n ddigon eang a pherthnasol, er enghraifft, dylai llwybr ym maes adeiladu gyfeirio at bensaernïaeth a pheirianneg sifil. | 3.14 Gwneir gwaith gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector yn y sectorau Gweithgynhyrchu, Modurol ac Adeiladu i weithredu Llwybrau Dysgu peilot cysylltiedig â gwaith sy'n ymgorffori dull prentisiaeth gyfun. **O fis Medi 2006**<br>3.15 Bydd y datblygiadau yn cyd-fynd â strategaethau rhanbarthol AADGOS mewn meysydd sgiliau fel adeiladu.<br>3.16 Gwneir gwaith i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc i ymgymryd â dysgu seiliedig ar sgiliau a dysgu galwedigaethol yn ganolog i ddatblygiadau 14-19 drwy ddadansoddi a datblygu dewislenni opsiynau cydweithredol i Rwydweithiau 14-19, yn cynnwys darpariaeth ddwyieithog. **O haf 2006**<br>3.17 Caiff rhaglen newydd lefel mynediad i ddisodli Skillbuild ei hintegreiddio i'r Llwybrau Dysgu 14-19. **Mis Medi 2007?**<br>3.18 Bydd Cynllun Gwella Dysgu Seiliedig ar Waith ELWa yn sicrhau dysgu seiliedig ar waith o safon uchel mewn ardaloedd economaidd y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar draws Cymru erbyn 2010. | **Llwybrau Dysgu cysylltiedig â gwaith sy'n ymgorffori dull prentisiaeth gyfun yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith fel rhan o'r dewislenni opsiynau i bobl ifanc 14-19 oed ar draws Cymru.**<br>**Addysg gysylltiedig â gwaith o safon uchel ar gael ym mhob rhan o Gymru.**<br>**Seilwaith dysgu sy'n cynnal Llwybrau Dysgu 14-19 i bawb.** |

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| | 3.19 Dewislenni opsiynau cydweithredol yn cynnwys dewisiadau sy'n canolbwyntio ar waith a dewisiadau cyffredinol o lefel mynediad hyd at lefel 4 ar gael yn ardal pob Rhwydwaith 14-19 erbyn mis Ionawr 2007.<br>3.20 Prosiectau braenaru, wedi'u seilio ar ddewislenni opsiynau, i gael eu hymestyn i bob ardal i greu'r seilwaith dysgu newydd erbyn 2010. | |
| **Gwella Delweddau Pobl o'r Gweithle**<br>Mae angen i'r Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol, y Cynghorau Sgiliau Sector a Gyrfa Cymru weithio gyda chyflogwyr i helpu i ddarparu gwell delweddau o'r gweithle i bobl mewn gwahanol sectorau. | 3.21 Gyrfa Cymru a'r Cynghorau Sgiliau Sector yn gweithio gyda'r Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol i baratoi a lledaenu deunyddiau, cynnal seminarau ac ati. **O hydref 2006**<br>3.22 Bydd ELWa, Gyrfa Cymru ac eraill yn datblygu strategaeth i hyrwyddo pwysigrwydd dwyieithrwydd fel sgil yn y gweithle ac i dynnu sylw pobl ifanc at bwysigrwydd eu sgiliau dwyieithrwydd drwy'r Grŵp Trafod Economi Iaith **o fis Chwefror 2006** | **Bod gan bobl ifanc ddelweddau positif o amrywiaeth o fathau o waith ac amgylcheddau gwaith.** |
| **Fframwaith Deddfwriaethol**<br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad arwain ar waith pellach i helpu i ddatblygu canllawiau penodol i Gymru sy'n dwyn ynghyd y fframwaith deddfwriaethol, y goblygiadau iechyd a diogelwch ac arweiniad ar hynny, yswiriant, amddiffyn plant, ymddygiad, presenoldeb a gwahardd. Mae hyn yn neilltuol o bwysig lle gallai dysgwyr 14-19 fod yn cael darpariaeth mewn nifer o sefydliadau lle mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn dysgu. | 3.23 Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod y canllawiau a'r protocolau presennol yn cael eu hymgorffori mewn adnodd syml, a fydd ar gael yn hwylus, sy'n cwmpasu pob sefyllfa sy'n debygol o godi wrth roi'r Llwybrau Dysgu ar waith. Bydd hyn yn cynnwys datblygu Llwybrau Dysgu sy'n canolbwyntio ar waith (y cyfeiriwyd atynt gynt fel "prentisiaethau cyfun") a byddant yn adlewyrchu datblygiad y Diplomâu Arbenigol yn Lloegr. Cynhyrchir canllawiau ym **mis Ionawr 2007.** | **Cyngor cynhwysfawr, a fydd ar gael yn hwylus, ar ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Llwybrau Dysgu 14-19 ar gael i bob partner perthnasol.** |
| **Cymwysterau Galwedigaethol**<br>Er mwyn cael dilyniant clir drwy addysg a hyfforddiant 14-19 ac ymlaen i gyflogaeth, prentisiaethau, addysg bellach ac addysg uwch, dylai Llywodraeth y Cynulliad, yn gweithio gyda'r Cyrff Dyfarnu a'r Cynghorau Sgiliau Sector, ystyried sut mae modd datblygu ac ychwanegu at y cymwysterau galwedigaethol presennol i bobl ifanc 14-16 a 16-19 oed er mwyn darparu elfen gref o gymwysterau galwedigaethol o fewn Llwybrau Dysgu.<br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried creu Tasglu Cymwysterau Galwedigaethol i arwain y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru fel elfen allweddol o fewn polisïau strategol fel y rhai a nodwyd yn Cymru: Gwlad Well, Y Wlad sy'n Dysgu, Cymru'n Ennill, y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, Iaith Pawb a Llwybrau Dysgu. Dylai'r Tasglu gynnwys amrywiaeth eang o gyrff, yn eu mysg:<br>• Llywodraeth y Cynulliad (yr Adran Hyfforddiant ac Addysg, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)<br>• Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector<br>• ELWa<br>• ACCAC<br>• Fforwm<br>• Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru<br>• Cynrychiolaeth o blith cyflogwyr<br>• Yr Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol | 3.24 Bydd ACCAC a CQFW yn ymgynghori ynghylch datblygu ac ymestyn Llwybrau Dysgu priodol, yn cynnwys opsiynau cydnabod cyrhaeddiad/cymwysterau, gyda'r Cyrff Dyfarnu, Cyrff Cydnabyddedig CQFW a rhanddeiliaid eraill.<br>3.25 Ymgynghorir hefyd â'r Cynghorau Sgiliau Sector fel rhan o'r adolygiad hwn.<br>3.26 Bydd ELWa ac ACCAC yn parhau â'u gwaith i sicrhau bod mwy o gymwysterau priodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gwaith peilot ACCAC gyda chyrff dyfarnu galwedigaethol yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2007. **Ar y gweill.**<br>3.27 Mae Cymru eisoes yn cael ei chynrychioli ar Fwrdd Rhaglen Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol y DU gyfan. Sefydlwyd y Bwrdd i sicrhau, erbyn 2010 fan hwyraf, y bydd y cymwysterau galwedigaethol a gydnabyddir gan y fframweithiau statudol perthnasol yn adlewyrchu anghenion cyflogwyr a dysgwyr, a'u bod yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth i wneud rhywun yn gyflogadwy yn y tymor byr ac ar sail gynaliadwy. Bydd cynrychiolwyr Cymru ar y Bwrdd yn cysylltu ag ystod eang o gyrff, yn cynnwys y rhai sydd wedi'u rhestru. **Erbyn 2010**<br>3.28 Sefydlu Tasglu 14-19 Gweithio gyda Chyflogwyr i Gymru i ymchwilio ac adrodd, gydag argymhellion, ar sut y gall cyflogwyr a chyrff cyflogwyr ymwneud mwy â dysgu 14-19. Caiff y Gweithlu ei gadeirio gan aelod o Grŵp Cynghori traws-bortffolio'r Gweinidog ar Sgiliau a bydd yn cynnwys yr Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol. Daw aelodau eraill o'r Cynghorau Sgiliau Sector a'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector, cyrff cynrychioli cyflogwyr, darparwyr dysgu, Rhwydweithiau 14-19, ELWa, ACCAC, Estyn, Partneriaethau Addysg a Busnes a Gyrfa Cymru. Rôl y tasglu hwn fydd cynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd galwedigaethol, adnoddau addysgu a dysgu, e-ddysgu a chyfleoedd fideo-gynadledda a materion capasiti mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. **O fis Medi 2006** | **Elfen alwedigaethol gref a phriodol i ddysgwyr o bob oedran wedi ei sefydlu o fewn Llwybrau Dysgu.** |

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)**<br>Yn amodol ar werthusiad ohono, dylai CBC fod ar gael i bob ysgol, coleg a sefydliad hyfforddi yng Nghymru o fis Medi 2007. Yn y cyfamser dylai gwaith pellach gael ei wneud i<br>Adeiladau ar waith CBAC a Phrifysgol Caerfaddon fel rhan o'r prosiect peilot, i sicrhau bod CBC yn cael ei gydnabod yn eang yn ymarferol mewn Sefydliadau Addysg Uwch y tu mewn a'r tu allan i Gymru a hefyd gan gyflogwyr<br>Ystyried sut y gellid cydnabod elfennau o CBC sydd wedi cael ei gwblhau'n rhannol | 3.29 Comisiynwyd gwerthusiad allanol a cheir cyngor i'r Gweinidog yn sgil hynny. **Mis Mehefin 2006**<br>3.30 Yn amodol ar ystyried canfyddiadau'r adolygiad allanol, caiff CBC ei ymestyn i bob sefydliad dysgu ar lefel Ganolradd ac Uwch ôl-16, fel sy'n briodol **o fis Medi 2007** . Caiff CBC ei dreialu ar lefel sylfaen 14-19 a lefel ganolradd 14-16 o 2006. Yn amodol ar werthuso, byddai CBC 14-19 llawn ar gael i ddysgwyr o bob gallu o 2009.<br>3.31 Mae cynhadledd i godi ymwybyddiaeth yn y sector AU eisoes wedi cael ei chynnal ym mis **Hydref 2005**<br>3.32 Bydd y gwaith sydd ar y gweill gan grŵp HEAT Prifysgol Caerfaddon yn cynnwys taflen wybodaeth am Fagloriaeth Cymru mewn cynigion AU. Mis Mai 2006<br>3.33 Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i ddigwyddiadau/deunydd hyrwyddo ar gyfer y dyfodol. Ymgymerir â hyn ar y cyd â'r Grŵp Gwybodaeth a Chyfathrebu.<br>3.34 Bydd CBAC yn dylunio tystysgrifau credyd i gofnodi cyrhaeddiad. **Mis Awst 2006** | **CBC ar lefelau Sylfaen, Canolradd ac Uwch ar gael i ddysgwyr o bob gallu**<br>**Y sector AU yn gwbl ymwybodol o CBC ac yn ei gydnabod yn briodol.**<br>**Tystysgrifau credyd yn cofnodi cyrhaeddiad.** |
| **Y Cwricwlwm Cenedlaethol a Llwybrau Dysgu**<br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i ACCAC ystyried, fel rhan o'i adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol:-<br>• Y ffordd orau o gysoni gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 4 â'r athroniaeth Llwybrau Dysgu<br>• Beth yw'r ffordd orau o gynnwys y Craidd Dysgu yng ngofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 4<br>• Sut y gellid gwella'r ffordd o astudio Ieithoedd Tramor Modern, yn cynnwys gwneud hynny drwy gyrsiau sy'n berthnasol i gyflogaeth<br>• Y ffordd orau o newid y cwricwlwm yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 fel ei fod yn dod yn gwricwlwm sy'n canolbwyntio'n amlwg ar y dysgwr ac ar sgiliau | 3.35 Mae gwaith yn cael ei symud ymlaen fel rhan annatod o'r adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru. Y bwriad yw y bydd Rhaglenni Astudio diwygiedig wedi cael eu sefydlu ar gyfer addysgu **o fis Medi 2008**, i'w gweithredu yn CA4 (gyda TGAU diwygiedig) o 2009.<br>3.36 Mae'r gwaith ar y Craidd Dysgu yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen, yn barod i gael ei weithredu yn CA4 ym **mis Medi 2009**<br>3.37 Mae ACCAC yn adolygu rhaglen astudio CA3 i Ieithoedd Tramor Modern er mwyn canolbwyntio ar sgiliau a pherthnasedd a bydd yn cynghori pa un i fabwysiadu cynllun Ysgol Ieithoedd yr Adran Addysg a Sgiliau erbyn **haf 2006**<br>3.38 Bydd ACCAC yn cydweithredu gyda phartneriaid fel a ganlyn: Gyda CILT Cymru i hyrwyddo achrediad ar wahân i TGAU (yn cynnwys y cynllun Ysgol Ieithoedd); gyda Rhwydwaith Ieithoedd Cymru a Gyrfa Cymru; hyrwyddo'r DVD 'languages mean Business' ac adnoddau 'Languages Work'; cynadleddau 'Agor Drysau' i bobl ifanc 16-19 oed; gyda chynllun yr hyrwyddwyr iaith busnes i ddod ag ysgolion a busnesau lleol ynghyd mewn partneriaeth.<br>3.39 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori ynghylch cynigion i atal, fel mesur dros dro, ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol gogyfer â Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4 rhwng mis Medi 2006 a mis Awst 2008. Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion gyflwyno ystod o gymwysterau gwyddoniaeth sydd newydd gael eu hachredu, nad ydynt yn unol â gofynion cyfredol y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ar ôl mis Awst 2008, bydd gofynion diwygiedig y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cyd-fynd â manylebau'r cymwysterau newydd.<br>3.40 Bydd Rhwydweithiau 14-19 yn cael cymorth i ddatblygu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn cwmpasu ysgolion, AB a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i gyflwyno Llwybrau Dysgu. **O fis Ionawr 2006** | **Rhaglenni astudio diwygiedig y CC yn cyd-fynd â Llwybrau Dysgu.**<br>**Profiadau'r Craidd Dysgu ar gael i bob person ifanc 14-16 oed.**<br>**TM mwy perthnasol ar gael i ddysgwyr o bob gallu.**<br>**Cymwysterau gwyddoniaeth mwy priodol ar gael**<br>**Staff o bob sector yn gallu gwneud cyfraniad medrus, o ansawdd uchel, at Lwybrau Dysgu** |

| |
|---|
| **4. Caiff system o gymorth integredig i ddysgwyr ei chreu i sicrhau y bydd gan bob person ifanc hawl i gymorth dysgu a chymorth personol sydd wedi ei fwriadu i sicrhau eu cyfranogiad ac i'w cadw mewn addysg a hyfforddiant 14-19**<br>*I symud argymhellion 9.6, 9.7, 9.8, 9.9 Chapman ymlaen* |

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Integreiddio'r Hyfforddiant i Anogwyr Dysgu**<br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau, dros amser, fod yr egwyddor o swyddogaeth yr Anogwr Dysgu yn dod yn rhan annatod o addysg a datblygiad proffesiynol athrawon ac o'r hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr gyrfaoedd, gweithwyr ieuenctid ac eraill. | 4.1 Yn amodol ar ddatblygu a gwerthuso rhaglen hyfforddiant beilot i anogwyr dysgu, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda sefydliadau AU i sicrhau bod pob athro newydd yn ymwybodol o oblygiadau rôl yr anogwr dysgu iddo ef ei hun ac i ddysgwyr. **Haf 2007** | **Fod pob athro newydd yn deall sut mae swyddogaeth yr anogwr dysgu o fudd i ddysgwyr a sut mae ei waith ef yn cefnogi rôl yr anogwr dysgu.** |
| **Datblygu Rôl yr Anogwr Dysgu**<br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad a) ledaenu arferion gorau o ran rôl yr Anogwr Dysgu b) darparu canllawiau ac eglurhad pellach am:<br>• Achredu dysgu blaenorol i ystod o weithwyr proffesiynol perthnasol a allai ymgymryd â'r rôl hon<br>• Rhaglenni hyfforddi sy'n arwain at achrediad<br>• Datblygu llwybrau cymhwyso a dyfarniadau<br>• Arferion da yn datblygu swyddogaeth yr Anogwr Dysgu ar ffurf gwaith tîm yn ogystal ag fel unigolyn<br>• Y berthynas rhwng Anogwyr Dysgu, systemau bugeiliol mewn sefydliadau dysgu, cynghorwyr Gyrfa Cymru a'r fframwaith cymorth personol | 4.2 Cyhoeddir astudiaethau achos fel rhan o Llwybrau Dysgu: Canllawiau II (ar y we). **Mis Mawrth 2006**<br>4.3 Caiff gwybodaeth ddiweddaru ei chynnwys yn rheolaidd yn Llwybrau Dysgu: Canllawiau **(fel y'u cyhoeddir)**<br>4.4 Bydd cynadleddau rhanbarthol (blynyddol i ddechrau, o ddechrau 2007) yn atgyfnerthu gwaith Rhwydweithiau Cymorth Rhanbarthol yr Anogwyr Dysgu. **Hydref 2006**<br>4.5 Bydd rhaglen hyfforddi beilot yn cael ei rhoi ar waith, gan ddechrau'n gynnar yn 2006, i hyfforddi 220 o anogwyr dysgu. **Hyd at haf 2007**<br>4.6 Bydd hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br>4.7 Bydd manyleb fanwl i unedau hyfforddi ar gael i ddarparu gwybodaeth am y rôl **o fis Mawrth 2006**<br>4.8 Bydd achredu dysgu blaenorol fel rhan o'r rhaglen hyfforddi beilot yn dechrau **o wanwyn 2006**<br>4.9 Caiff y system gymwysterau ei datblygu fel rhan o'r hyfforddiant peilot. **O wanwyn 2006**<br>4.10 Mae cysylltiadau â'r tiwtor personol CBC wedi cael eu nodi a bydd y rolau yn cyd-daro. **O hydref 2006**<br>4.11 Yn amodol ar werthuso'r peilot, caiff y rhaglen i hyfforddi anogwyr dysgu ei datblygu ymhellach, yn cynnwys cymorth i'r rhai sy'n ystyried ymgymryd â'r hyfforddiant. **O wanwyn 2007**<br>4.12 Bydd cyngor ar ddatblygu rôl yr anogwr dysgu ymhellach yn cael ei gynnwys yng Nghanllawiau III. **Mis Ionawr 2007**<br>4.13 Bydd gweithgarwch lleol i ddatblygu'r berthynas rhwng anogwyr dysgu, cymorth bugeiliol, cyngor gyrfaol a'r fframwaith cymorth personol, ynghyd â gweithgarwch cenedlaethol a gweithgarwch gan Rwydweithiau i gynorthwyo sefydliadau dysgu, yn datblygu systemau cymorth cydlynol ymhellach. **O 2006-7**<br>4.14 Bydd enghreifftiau penodol o arferion da wrth ddarparu cymorth anogwr dysgu i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol a dysgwyr sy'n agored i niwed yn cael eu nodi a'u lledaenu erbyn **mis Medi 2007.** | **Pob aelod staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc 14-19 yn ymwybodol o rôl yr anogwr dysgu a sut mae'n effeithio ar y dysgwr ac ar ei rôl yntau.**<br>**Cymhwyster Anogwr Dygu ar gael ar lefel 3 a lefel 4 i bob Anogwr Dygu.** |

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Fframwaith Cymorth Personol**<br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda Rhwydweithiau 14-19 a Phartneriaethau Pobl Ifanc (PPIau), yn cynnwys y gwasanaeth ieuenctid, i ddatblygu'r fframwaith cymorth personol, ac i nodi a lledaenu arferion da a datblygu dangosyddion allweddol i sicrhau cymorth effeithiol. | 4.15 Cydweithredu rhwng Rhwydweithiau 14-19 a PPIau i gynnwys gweithdy (sydd i'w gynnal ym mis Chwefror 2006) i ddatblygu canllawiau ar ddyrannu cyfrifoldebau a chynllunio ar y cyd, a gwaith pellach i ddatblygu enghreifftiau o arferion da i wneud yn siŵr fod pob dysgwr 14-19 yn gallu cyrchu at y lefelau cywir o gymorth personol. Canllawiau ac enghreifftiau o arferion da i gael eu paratoi fel rhan o Llwybrau Dysgu: Canllawiau III. **Mis Ionawr 2007**<br>4.16 Bydd y fframwaith cymorth personol yn cael ei ddynodi a'i wella mewn cydweithrediad â'r PPIau ym mhob ardal **o fis Ebrill 2006** | **Fframwaith cymorth personol amlasiantaethol cynhwysfawr wedi ei sefydlu ym mhob Rhwydwaith 14-19 i ddarparu cymorth cyffredinol ac arbenigol.**<br>**Cymorth Anogwr Dygu ar gael i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, pobl ifanc mewn gofal a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed.** |
| **Gwasanaethau Arbenigol yn cynnwys Cwnsela**<br>Gan weithio gyda Rhwydweithiau 14-19, PPIau a sefydliadau perthnasol, dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau y bydd elfen cymorth personol y Llwybrau Dysgu yn cynnwys mynediad i bawb at wasanaethau ychwanegol fel cymorth dysgu neu gwnsela. | 4.17 Dylai'r arferion da a'r canllawiau a grybwyllwyd uchod ymgorffori fframwaith o gymorth personol sy'n cynnwys lefelau o gymorth, o wrando a chyngor, hyd at gyfeirio i gael cymorth arbenigol a ddylai gynnwys cwnsela, cymorth iechyd meddwl, cyngor ar iechyd rhywiol, cyngor ar gamddefnyddio sylweddau a chymorth ac ati. **O fis Mawrth 2007**<br>4.18 Bydd adroddiad yr ymarferiad cwmpasu cychwynnol i asesu'r mathau cyfredol o ddarpariaeth gwnsela i ddisgyblion ysgol, a lefel y ddarpariaeth honno, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mis Mawrth 2006. Cyflwynir hefyd ddull gweithredu sy'n cael ei argymell o ran defnyddio cyllid ar waith datblygiadol yn 2006-7 a 2007-8 ar strategaeth gwnsela genedlaethol i ysgolion a gweithgareddau peilot (2006-7 a 2007-8)<br>4.19 Caiff strategaeth genedlaethol ar gwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru ei datblygu. **Erbyn haf 2006** | **Cysylltiadau cryfach rhwng cymorth personol a gwasanaethau arbenigol i greu mwy o gydlyniad.**<br>**Gweithredu strategaeth genedlaethol ar gwnsela mewn ysgolion.** |

**5. Bydd y trefniadau cyllido ar gyfer y ddarpariaeth ddysgu yn cael eu hadolygu a'u haddasu i sicrhau cydlyniad a pharhad rhwng y cyllid i ysgolion drwy'r awdurdodau addysg lleol ar gyfer darpariaeth 14-16 a'r cyllid a ddarperir i ysgolion, sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant ar gyfer darpariaeth 16-19 drwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS). Dylai'r trefniadau cyllido:**

- ddarparu cyllid sydd wedi ei gysoni ar gyfer dysgu 14-19;
- sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyrchu at y cyfleoedd a'r cymorth dysgu y mae ganddynt hawl iddynt;
- hwyluso mwy o gydweithredu rhwng ysgolion, sefydliadau AB, darparwyr hyfforddiant a dysgu cymunedol.

*I symud argymhellion 9.13, 9.19, 9.20 a 9.21 Chapman ymlaen.*

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Cydweithredu**<br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad, yn gweithio'n agos gyda chyrff cynrychiadol o'r ysgolion, addysg bellach a'r sectorau hyfforddi, ystyried y ffordd orau iddi hyrwyddo cydweithredu o fewn a rhwng y sectorau hyn i sicrhau bod y Llwybrau Dysgu 14-19 yn llwyddo.<br>Dylid rhoi ystyriaeth, o fewn datblygiadau polisi cyfredol ar ddatblygu'r gweithlu, i sut y gellir hyfforddi ymarferwyr i weithio ym mhob un o'r sectorau hyn.<br>Dylai dewislenni opsiynau ar y cyd gael eu datblygu ym mhob maes ar sail achosion busnes cadarn i sicrhau bod y ddarpariaeth yn seiliedig ar anghenion dysgwyr, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan osgoi dyblygu dianghenraid. | 5.1 Darperir cyllid grant i Lwybrau Dysgu 14-19 drwy'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19 a bydd yn amodol ar gydweithredu, yn enwedig mewn perthynas â chynhyrchu a gweithredu'r ddewislen opsiynau gydweithredol ym mhob maes. Bydd angen tystiolaeth ar ffurf achos busnes ar gyfer pob datblygiad newydd sy'n defnyddio cyllid grant o fis Ebrill 2006. **Ar y gweill**<br>5.2 Bydd y trefniadau cyllid grant yn cael eu hadolygu. **Erbyn 2010**<br>5.3 Cymerir pŵer ym Mesur Addysg 2006 i gyrff llywodraethu sefydliadau AB ac ysgolion ffurfio pwyllgorau ar y cyd i reoli gweithgareddau cydweithredol. **Hydref 2006**<br>5.4 Bydd cynlluniau peilot braenaru mewn chwe ardal yng Nghymru, RhCT, Merthyr, Blaenau Gwent, Dyffryn Dyfi, Sir Benfro a Gogledd-orllewin Cymru, yn nodi opsiynau ar gyfer gweithio cydweithredol sy'n briodol i anghenion pob ardal. Adroddir ar ganlyniad y set gyntaf o ymgynghoriadau ym **mis Mawrth 2006.**<br>5.5 Caiff y gweithgarwch Braenaru ei ymestyn i bob ardal arall o Gymru **erbyn 2010.** | **Pob corff sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc 14-19 yn cydweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol er budd y dysgwr.Ar ôl yr ymgynghori cychwynnol, datblygu'r cynlluniau Braenaru peilot, lle bo hynny'n briodol, yn gynigion i ailstrwythuro'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn destun ymgynghori pellach ac wedyn bydd Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu ar y cynigion yn unol â'r gofynion statudol.**<br>**Gweithgarwch Braenaru, ynghyd â'r ddewislen opsiynau lleol, yn dylanwadu ar ddatblygiad seilwaith y Llwybrau Dysgu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr hyn y mae ganddo hawl iddo.** |
| **Tryloywder a Pharhad Strategol yn y Cyllido**<br>Er mwyn cefnogi datblygiad cynlluniau strategol tymor hwy i roi Llwybrau Dysgu 14-19 ar waith, dylai gwybodaeth glir a chanllawiau ar flaenoriaethau, cyllido ac amodau grant am y 3 blynedd nesaf gael eu darparu cyn gynted â phosibl.Dylai unrhyw gyllid ar gyfer gweithgareddau 14-19 fod yn amodol ar gyfrannu tuag at a chydweithio a chydweithredu â'r Rhwydwaith 14-19 a'r PPI i ddatblygu'r dewislenni opsiynau a phrosbectws gweithgareddau yn ogystal â swyddogaeth yr Anogwr Dysgu a fframwaith cymorth personol ar lefel ardal leol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau dull strategol, effeithlon ac effeithiol a gwneud y mwyaf o'r cyllid.<br>Mae angen i'r amodau grant adlewyrchu ffactorau cyffredin yn y Grant Cynnal Refeniw, Ysgolion Gwell a'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol.<br>Mae angen hefyd i'r amodau grant fod yn ddigon llym i sicrhau bod pob elfen o'r Llwybrau Dysgu yn cael ei rhoi ar waith ac i helpu i ddileu dyblygu. | 5.6 Bydd Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn cael eu hasesu a'u monitro gan gyd-banel a fydd yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn. **O fis Ebrill 2006**<br>5.7 Ymgymerir â gwaith i sicrhau cyllid cydlynol a chyson ar gyfer y cyfnod 14-19 yn ei gyfanrwydd, a hynny yng ngoleuni trafodaethau am gylchoedd olynol blaengynllunio'r gyllideb fel a ganlyn:<br>• Adolygir y grant ychwanegol i rwydweithiau 14-19 ar gyfer 2007-08 i sicrhau ei fod yn ysgogi newid yn y ddarpariaeth i'r grŵp oedran 14-19 sy'n gyson â'r polisi ar y Llwybrau 14-19.<br>• Bydd y trefniadau cyfredol i gyllido addysg 14-16 drwy'r setliad refeniw i lywodraeth leol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r trefniadau ar gyfer cyllid 16-19 o dan y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol a gwneir unrhyw addasiadau angenrheidiol i sicrhau bod yr agenda 14-19 yn cael ei gwireddu.<br>• Ymgorfforir cyllid grant ychwanegol ar gyfer 14-19 i'r cyllid prif ffrwd (drwy setliad llywodraeth leol a'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol) o oddeutu 2010 cyhyd â bod yr holl randdeiliaid yn gweithredu yn unol â'r amserlen i gyflenwi'r llwybrau dysgu 14-19. | **Rhwydweithiau yn amlwg yn ymwybodol o'r amodau grant a'r disgwyliadau.**<br>**Mecanweithiau cyllido cynaliadwy yn cael eu datblygu i yrru'r Llwybrau Dysgu ymlaen a byddant yn gymhelliad i bob darparwr i ddatblygu Llwybrau Dysgu** |

| Argymhellion Adroddiad Chapman | Camau Gweithredu i'w Cymryd | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Gwerthuso**<br>Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda Rhwydweithiau 14-19 i ddatblygu gweithdrefnau monitro a gwerthuso cryf a thrylwyr i sicrhau bod y gwariant yn gyrru'r polisi Llwybrau Dysgu ymlaen, ac i sicrhau a nodi'r effaith ar gyrhaeddiad, sgiliau, cyfranogiad a chynhwysiant, iechyd a lles, agweddau a gwerthoedd.<br>Bydd angen i hyn gynnwys sicrhau bod cyllid ychwanegol yn ychwanegu gwerth at y gwariant presennol a'i fod yn cynorthwyo sefydliadau prif ffrwd i newid er mwyn adlewyrchu'r cynnydd o ran dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr. | 5.8 Caiff gweithdrefnau monitro a gwerthuso newydd eu cyflwyno yn dilyn gwaith paratoadol rhwng yr Is-adran Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion ac ELWa fel rhan o'r broses flynyddol o Gynllunio Datblygiad Rhwydwaith ac i adlewyrchu'r lefelau cyllido uwch. **O fis Ebrill 2006** | **Tystiolaeth yn gefn i ddatblygiad y Llwybrau Dysgu i'r dyfodol ac yn sicrhau eu bod yn effeithlon ac effeithiol.** |
| **Lledaenu Arferion Da**<br>Cynhelir Cynadleddau Llwybrau Dysgu 14-19 yn y Gogledd a'r De ar y 1af a'r 7fed Rhagfyr 2005 y naill a'r llall i arddangos yr Anogwr Dysgu a'r Craidd Dysgu, cam newydd canllawiau'r Llwybrau Dysgu 14-19, yr adroddiad hwn a'r strategaeth gyfathrebu. | 5.9 Cynhaliwyd cynadleddau rhanbarthol (170 yn cymryd rhan). **Mis Rhagfyr 2005**<br>5.10 Trefnir cynadleddau ar themâu penodol gan y Tîm Llwybrau Dysgu **(fel sy'n briodol)**<br>5.11 Datblygir strategaeth gyfathrebu a marchnata mewn partneriaeth â'r Is-grŵp Gwybodaeth a Chyfathrebu. **O haf 2006**<br>5.12 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ACCAC â rhan weithgar mewn cynadleddau lleol a chenedlaethol a drefnir gan bartneriaid ar draws Cymru. **Ar y gweill**<br>5.13 Bydd gwefan y Llwybrau Dysgu 14-19 yn lledaenu enghreifftiau o arferion da **o fis Mai 2006** | **Diweddariadau rheolaidd ar arferion da fel y maent yn datblygu drwy gynadleddau, cysylltiadau rhwng Rhwydweithiau 14-19 a thrwy'r wefan Llwybrau Dysgu.** |